



CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2024

caerdydd.ac.uk


ARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGO
Tim Bywyd Preswyl
Residence Life Team

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad Cadeirydd y Cyngor | **2** |
| Cynllun Strategol y Brifysgol | **4** |
| Adolygiad yr Is-Ganghellor | **6** |
| Tueddiadau Allweddol ym maes Addysg Uwch | **13** |
| Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol | **14** |
| Datganiad Blynyddol ar Bolisïau Tâl | **21** |
| Adolygiad Ariannol | **22** |
| Adroddiadau Amgylcheddol | **26** |
| Adroddiad Ystadau | **32** |
| Datganiad o Fudd Cyhoeddus | **35** |
| Datganiad Llywodraethu Corfforaethol | **36** |
| Aelodaeth y Cyngor | **38** |
| Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau | **40** |
| Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd | **48** |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Caerdydd | **49** |
| Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **55** |
| Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | **56** |
| Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o'r Sefyllfa Ariannol | **57** |
| Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Lifau Arian Parod | **58** |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | **59** |

Enw'r Elusen:
**Prifysgol Caerdydd**

Rhif Cofrestru'r Elusen:
**1136855**

Swyddfa Gofrestredig:
Y Prif Adeilad
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3AT

**www.caerdydd.ac.uk**

# Cyflwyniad Cadeirydd y Cyngor

‘Pa fath o brifysgol ydyn ni am fod, ar gyfer pa fath o ddyfodol? ’

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn rhan o ymarfer ‘Y Sgwrs Fawr’ y Brifysgol, ymunodd y Cyngor â myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid y Brifysgol i ystyried canlyniadau dwys y cwestiwn hwn, sy’n ymddangos yn syml ar yr olwg gyntaf. Wrth drin a thrafod ar y cyd y ffordd y mae’r byd yn newid a beth mae hynny’n ei olygu ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi, mae’r Brifysgol wedi gallu ystyried sut y gall gael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar fywydau unigolion, Caerdydd, Cymru a’r byd. Mae wedi cychwyn ar broses ddwys o newid ein meddwl strategol, a fydd yn parhau yn y Brifysgol hyd at 2035.

Yr hyn sydd wedi fy nharo fwyaf yn ystod y cyfnod hwn yw’r ymdeimlad gwirioneddol o gymuned y mae Prifysgol Caerdydd yn ei greu, a chryfder yr ymrwymiad i’w dyfodol. Mae pawb yn gwneud cyfraniad didwyll i’r Brifysgol ac mae hynny i’w weld wrth gyfnewid syniadau’n llawn ac agored, wrth rannu gweledigaethau amgen ar gyfer dyfodol y Brifysgol, ac yng ngraddfa’r ymgysylltiad â’r broses ei hun.

Arweiniwyd proses y strategaeth yn wych gan yr Is-Ganghellor newydd, yr Athro Wendy Larner, ond mae’r canlyniad terfynol yn un a grëwyd gyda mewnbwn gan bob un. Rwy’n edrych ymlaen at weld hyn yn trawsnewid y Brifysgol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae’r trawsnewid yn angenrheidiol oherwydd, fel yr eglurodd yr Is-Ganghellor ar ei diwrnod cyntaf yn y swydd, mae’r model presennol o addysg prifysgol yn wynebu argyfwng dirfodol. Mae prifysgolion hefyd yn wynebu heriau pellach o ganlyniad i bolisïau, iaith, a naws y llywodraeth flaenorol wrth ymdrin â myfyrwyr rhyngwladol. Nid yw Prifysgol Caerdydd wedi’i diogelu rhag y grymoedd hyn.

Felly, pwyslais y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf fu sicrhau cynaliadwyedd academaidd ac ariannol hirdymor Caerdydd, sy’n rhan ganolog o’i strategaeth at y dyfodol. Bydd Cynllun Diswyddo Gwirfoddol y Brifysgol – a gymeradwywyd gan y Cyngor – yn helpu i leihau staffio mewn rhai meysydd er mwyn gallu ail-fuddsoddi mewn meysydd gwaith eraill sy’n cyd-fynd â’r blaenoriaethau strategol newydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyfarfu’r Cyngor chwe gwaith, gan gymeradwyo penodi Profost newydd, a Rhag Is-Gangellorion newydd i Goleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd, a Choleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg. Hefyd cawson ni ddiweddariadau rheolaidd gan Undeb y Myfyrwyr ac ar brofiad myfyrwyr a’r NSS, ar ddiogelu rhyddid barn a chyflawni ein dyletswydd gofal i staff a myfyrwyr. Cymeradwywyd y buddsoddiad yng Ngwasanaeth Ymchwil y Dyfodol, adolygwyd yr opsiynau ar gyfer cyflawni sero net yn y Brifysgol erbyn 2030 a hefyd cymeradwywyd penodi Is-Gadeirydd newydd y Cyngor, John Shakeshaft, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Awst 2024. Yn ystod ein tri diwrnod datblygu arall, yn ogystal â’r canolbwyntio disgwyliedig ar ddatblygu strategaeth a chynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, cafwyd sesiynau yn datblygu cefnogaeth/gweithgarwch y Brifysgol gyda chynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, Deddf yr Iaith Gymraeg, a diogelwch gwybodaeth, ymhlith eraill.

Hefyd, eleni cefais fynd i’r Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr a’r Gwobrau Dathlu Rhagoriaeth, sydd yn eu gwahanol ffyrdd yn cydnabod ac yn dathlu gwaith caled staff a myfyrwyr sy’n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymuned y Brifysgol. Mae’r rhain yn ddigwyddiadau gwirioneddol lawen, ac rwyf i’n

# Cyflwyniad Cadeirydd y Cyngor



cael fy nharo bob amser gan nifer a natur anhunanol yr ymrwymiadau y mae pobl yn eu gwneud i wella profiad Caerdydd i eraill.

Mae graddio bob amser yn uchafbwynt i mi, ac mae gweld y myfyrwyr yn dathlu gyda'u ffrindiau, eu teuluoedd a staff y Brifysgol yn ein hatgoffa'n glir o werth addysg prifysgol. Nid y radd ei hun yn unig, ond y cyfeillgarwch a ffurfiwyd, ac atgofion a grëwyd. Mewn oes sy'n gynyddol iwtilitaraidd, credaf y bydd y pwyslais y mae Prifysgol Caerdydd yn ei roi ar y gwerthoedd dynol hyn, sef cynefin, cymuned a chyswllt, yn gwneud gwahaniaeth wrth i bobl ddewis prifysgol.

Dyma'r drydedd flwyddyn i mi gael y fraint o arwain y Cyngor. Hoffwn ddiolch i'r holl staff, myfyrwyr ac aelodau annibynnol sydd wedi gwasanaethu ar y Cyngor a'i amrywiol bwyllgorau dros y flwyddyn. Diolch hefyd i holl fyfyrwyr, staff ac uwch dîm rheoli'r Brifysgol am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i'r Brifysgol. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Dyma ein blwyddyn lawn gyntaf gyda'r Athro Wendy Larner yn Is-Ganghellor, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y sylfeini cadarn y mae hi a'i thîm wedi'u gosod dros y deuddeg mis diwethaf yn cael eu defnyddio'n sbardun ar gyfer newid cynaliadwy a dylanwadol.

**Patrick Younge**
Cadeirydd y Cyngor

27 Tachwedd 2024

# Cynllun Strategol y Brifysgol

## Prifysgol Caerdydd: ein dyfodol, gyda'n gilydd
## Ein llwybr i 2035

**Mae ein gorffennol wedi cael effaith sylweddol ar ein llwybr i'r dyfodol. Ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ganiatáu i fenywod astudio a'r sefydliad siartredig cyntaf yn y DU i gyflogi menywod yn athrawon. Rydyn ni wedi sefyll ochr yn ochr â'n cymdogion yn y ddinas ers cenedlaethau, yng Nghymru a thu hwnt, gan roi croeso cynnes Cymreig i'r rhai sydd wedi'u dadleoli oherwydd rhyfel neu i'r rhai sydd angen noddfa. Mae gwirfoddoli ac ymgyrchu gan fyfyrwyr yn thema bwysig o'n gorffennol, sy'n dangos ein traddodiad o alluogi rhyddid barn a dadlau, ac annog pobl i fod yn rhan o'r ddinas, yn ogystal â gweithredu drosti.**
**Mae ein strategaeth hyd at 2035 yn ymgorffori ein hymrwymiad i ddarparu byd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, sy'n amlygu o'r newydd ein hanes blaengar.**

### Tuag at 2035: ein gweledigaeth

Erbyn 2035, rydyn ni eisiau gwneud y canlynol:

- cael ein cydnabod yn fyd-eang am fod ar flaen y gad ym maes ymchwil ac arloesi, a hynny ar sail ein 'cryfder mewn lleoedd'. I ddechrau, bydd hyn drwy ragoriaeth drosi yn y diwydiannau creadigol a gweithgynhyrchu uwch (lled-ddargludyddion cyfansawdd).
- denu myfyrwyr o bob oed a chefndir sy'n dysgu mewn amrywiol ffyrdd, gan ddefnyddio'r addysgeg orau wedi'i galluogi gan ddarpariaeth hyblyg ac arloesi digidol.
- cael ein dewis gan gyn-fyfyrwyr, partneriaid ac arianwyr rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang sy'n ceisio prifysgol sy'n ddewr o ran sut mae'n wynebu'r dyfodol.
- bod yn bartner hollbwysig gwerthfawr a gweithgar yn ein dinas-ranbarth, gan ysgogi cynnydd sylweddol ym Mharth Buddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Ganolfan Gwyddorau Iechyd Academaidd.
- bod yn gyflogwr ac addysgwr delfrydol, gyda gweithlu a myfyrwyr llewyrchus a rhyngwladol sydd hefyd yn cynrychioli amrywiaeth ein dinas-ranbarth.

Byddwn ni wedi:

- helpu i ddatrys heriau mawr mewn meysydd megis newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, iechyd, diogelwch, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol.
- amrywio ein hincwm, gan gynnal ein hunain yn ariannol gyda mwy o refeniw masnachol o'n hymchwil a'n hystâd, ffynonellau amrywiol o incwm ymchwil ac addysgu, a chynnydd o ran dyngarwch.
- cael effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol ar Gaerdydd a Chymru.
- sefydlu rhwydwaith o bartneriaethau addysg trawswladol, dwy ffordd, datblygedig ledled y byd.
- datblygu campws dinesig llai, o ansawdd uchel, sy'n wyrdd, yn greadigol ac yn agored, gan gyd-fyw a chydleoli â chymunedau a phartneriaid.

### Ein Blaenoriaethau Strategol

#### 1. Diwylliant, cynefin a chymuned

Bydd ein prifysgol yn lle anhygoel i ymchwilio, addysgu, dysgu, astudio a chreu ynddo, gan feithrin yr amodau sy'n caniatáu i ragoriaeth ffynnu y tu hwnt i ffiniau, gan alluogi chwilfrydedd ac uchelgais. Byddwn ni'n cefnogi pob aelod o'n cymuned i ffynnu.

Byddwn ni'n croesawu a derbyn pobl am bwy ydyn nhw – cymuned lle rydyn ni'n adnabod ac yn gwerthfawrogi ein gilydd ac yn deall yr hyn sy'n bwysig i ni. Byddwn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cymryd y camau angenrheidiol i fod yn brifysgol wirioneddol gynhwysol, sy'n gadarn yn ein dwyieithrwydd, ac yn wrth-hiliol. Mae 'Cynefin' yn faen prawf i ni – lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn. Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd, heb adael neb ar ôl. Byddwn ni'n glir o ran ein disgwyliadau o'n gilydd ac yn dilyn blaenoriaethau y mae pawb yn eu rhannu.

# Cynllun Strategol y Brifysgol

Bydd ein gwerthoedd a'n gwaith yn cyd-fynd â phrifysgol sy'n gymdeithasol gyfrifol, sy'n ymdrechu i wneud Caerdydd, Cymru a'r byd yn lle gwell. Bydd ein gweithredoedd a'n hymddygiad yn ennyn ymddiriedaeth a pharch gan eraill gan ysbrydoli myfyrwyr a staff i fod yn hyrwyddwyr gydol oes. Bydd gennyn ni agwedd gadarnhaol er mwyn gwneud gwahaniaeth a bod ymhlith y goreuon.

**2. Lle llewyrchus llawn bywyd**

Prifysgol mewn prifddinas ydyn ni; sefydliad sy'n hollbwysig i Gaerdydd a Chymru, sy'n ymgorffori Cymreictod ac yn cofleidio'r Gymraeg, ac sy'n falch o'n treftadaeth. Byddwn ni'n dathlu bod yn amlddiwylliannol ac amlieithog, yn tynnu ynghyd y meddyliau gorau o bob rhan o'r byd ac yn meithrin doniau cartref.

Rydyn ni'n rhan annatod o ddinas amlddiwylliannol, ddwyieithog, greadigol y gallwn ni fyw ynddi, a byddwn ni'n gweithio gydag eraill i sicrhau bod Caerdydd yn ddinas wych i weithio, astudio, byw ac ymweld â hi. Byddwn ni'n agored i'n partneriaid - yn lleol, yn genedlaethol, ac yn fyd-eang - a bydd croeso bob amser i unrhyw sydd eisiau ymwneud â ni.  Byddwn ni'n fwy gweladwy ac yn bresennol mewn cymunedau amrywiol, gan adael i wybodaeth lifo i'r ddau gyfeiriad, a rhannu ein hadeiladau a'n hadnoddau.

Bydd Caerdydd a Chymru'n cael eu hadlewyrchu ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, o'n hagwedd, ein timau, a'r hyn rydyn ni'n buddsoddi ynddo, i'n cyfleusterau, ein partneriaethau, ein gwaith ar y cyd, a'n heco-systemau. Byddwn ni'n cysylltu Caerdydd a Chymru â'r byd trwy gysylltiadau buddiol i'r ddwy ochr a pherthnasoedd byd-eang sydd o fudd i bob un ohonon ni. Byddwn ni'n meithrin symudedd cymdeithasol ac effaith economaidd, gan greu gweithlu medrus iawn, a defnyddio blaenoriaethau ymchwil ac arloesi ar y cyd yn sail i hyn. Byddwn ni'n annog entrepreneuriaeth ymhlith ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr, gan greu cwmnïau deillio, a masnacheiddio ein hymchwil i greu busnesau a swyddi newydd. Bydd staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Caerdydd yn llysgenhadon byd-eang dros ysbryd Cymreig o newid sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn lle a chymuned.

Byddwn ni'n gwella ein campysau, eu cynaliadwyedd, a'r profiad y mae pawb yn ei rannu o fod yma. Mae hynny'n golygu cymryd o ddifrif her newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n lleihau, mynd i'r afael â'n hôl troed carbon, gwella ein seilwaith gwyrdd, ac addasu ein hadeiladau i'n galluogi i weithio'n well gyda'n gilydd.

Byddwn ni'n buddsoddi mewn dulliau ffisegol a digidol o'r radd flaenaf ar gyfer ymchwil ac arloesi, addysg, a'n gwaith.

**3. Creu dyfodol ar y cyd**

Byddwn ni'n cydweithio wrth i ni greu dyfodol ar y cyd gyda'n staff, ein myfyrwyr, ein cyn-fyfyrwyr a'n partneriaid. Byddwn ni'n hyblyg, yn arloesol ac yn esblygu'n barhaus. Gyda'n gilydd byddwn ni'n addasu i fyd sy'n newid, ac yn delio ag ansicrwydd.  Byddwn ni'n mabwysiadu agwedd fyd-eang, gan weithio i sefydlu partneriaethau rhyngwladol sy'n wirioneddol weithio'r ddwy ffordd. Bydd y dyfodol ar flaen ein meddwl ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, a byddwn ni'n paratoi ar ei gyfer ac yn mynd ati'n weithredol i'w lunio wrth gynnal y gwaith hwnnw. Yn ein huno bydd cenhadaeth i ail-lunio, gwella ac adnewyddu'r hyn sy'n bosibl nid yn unig ar gyfer yfory, ond ymhell y tu hwnt i hynny.

Bydd ein chwilfrydedd deallusol a dwyster ein hymchwil yn creu dealltwriaeth ddofn fydd yn sail ar gyfer arloesi. Bydd hyn yn cynnal a sicrhau'r dyfodol, cyfoethogi bywydau, cefnogi uniondeb cymdeithasol, arloesi gwerthoedd cyhoeddus, ymgorffori Iechyd cyfunol, galluogi lles corfforol a meddyliol, ysgogi datgarboneiddio a datblygu technolegau trawsnewidiol newydd. Byddwn ni'n fyd-enwog am yr effaith rydyn ni'n ei chael a'n cryfderau ymchwil sylfaenol, gan weithio gydag eraill i feithrin dealltwriaeth a chanfod atebion ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae modd ei gyflawni ar ein pen ein hunain.

Byddwn ni'n cynnig dysgu gydol oes hyblyg, wedi'i deilwra i'n myfyrwyr sy'n rhoi dewisiadau, llais a gallu iddyn nhw. Byddwn ni hefyd yn darparu gwybodaeth a sgiliau sy'n addas ar gyfer y dyfodol y gallan nhw eu defnyddio yn y byd go iawn i gyflawni eu dyheadau. Byddwn ni'n addysgu ein myfyrwyr mewn ffordd sy'n eu datblygu ymhellach i fod yn wydn, yn feirniadol, ac yn gallu datrys problemau. Byddan nhw'n rhoi newid ar waith ac yn gwybod sut i gydweithio mewn byd sy'n ansicr a rhyngddisgyblaethol, sy'n cwmpasu sawl sector, ac sydd wedi'i ddigideiddio. Byddwn ni'n helpu pobl o bob cefndir i drawsnewid eu bywydau, eu lle, a'u cymdeithas, a bydd ganddyn nhw berthynas gydol oes â'n myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr, ac ymrwymiad iddyn nhw.

## Mesurau llwyddiant

- Caiff myfyrwyr o bob cefndir eu cefnogi i lwyddo a chael profiad rhagorol.
- Rydyn ni'n brifysgol lle mae ein staff yn teimlo eu bod yn perthyn (Cynefin).
- Cawn ein cydnabod fel un o'r Prifysgolion gorau yn y Byd.
- Rydyn ni'n cofleidio'r Gymraeg, gan gynnig cyfleoedd i astudio yn Gymraeg lle bynnag y bo modd.
- Rydyn ni'n sefydliad cadarn a chynaliadwy yn ariannol.
- Rydyn ni'n gweithredu campws mwy cynaliadwy.
- Caiff yr ymchwil a wnawn ei chydnabod yn ymchwil sy'n arwain y byd ac yn cael effaith.
- Caiff yr ymchwil a wnawn ei rhoi ar waith ymarferol yn y gymuned.
- Mae canlyniadau ein myfyrwyr ymhlith y gorau yn y sector – sy'n cyfrannu at greu gweithlu medrus.

## Cyflawni ein strategaeth

Caiff y strategaeth ei chyflwyno mewn tri cham dros gyfnod o amser. Bydd Cam Un yn canolbwyntio'n bennaf ar ein ffyrdd o weithio, effeithiolrwydd sefydliadol a sicrwydd ariannol, gan roi'r hanfodion ar waith a fydd yn galluogi newid. Bydd Cam Dau yn ymgorffori gweithgarwch sy'n dechrau sicrhau twf ac arloesi yn y meysydd sy'n gysylltiedig â'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, gan ein galluogi i greu momentwm ar gyfer newid. Bydd Cam Tri yn mynd â'n trawsnewid ymhellach, gan ymgorffori gweithgareddau a fydd yn dod i'r amlwg wrth i ni weithio gyda'n gilydd i greu ein dyfodol ar y cyd.



# Adolygiad yr Is-Ganghellor

Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/2024, aethon ni ati i ofyn un cwestiwn pwysig iawn i ni ein hunain: Pa fath o brifysgol ydyn ni am fod, ar gyfer pa fath o ddyfodol?

Dyma'r sbardun ar gyfer Y Sgwrs Fawr, proses gyfranogol a helpodd i lunio a datblygu ein strategaeth newydd.

Aethon ni ati i ymgysylltu â staff, myfyrwyr a chymunedau allanol trwy fforymau trafod, arddangosfeydd, arolygon a sesiynau gyda'r Ysgolion, adrannau ac Undeb y Myfyrwyr. Cafodd Panel y Myfyrwyr ei greu i roi adborth i ni, a lluniodd ein tîm uwch ddarnau barn i sbarduno trafodaeth. Yna cafodd canlyniadau'r ymgynghori hwn eu defnyddio i ddatblygu tri dyfodol posibl i'r Brifysgol, gan ofyn i'r gymuned beth oedd yn eu cyffroi a'u digalonni ym mhob un.

Mae ein dull yn un newydd. Nid oes unrhyw brifysgol arall y gwn i amdani wedi ymgysylltu mor drylwyr a defnyddio methodolegau'r dyfodol mor helaeth â ni i lunio cyfeiriad strategol. Rwyf i hefyd yn falch iawn o'r ffaith i hon fod yn broses 'gartref', wedi'i chynllunio a'i chyflenwi gan staff Caerdydd, heb ddibynnu ar ymgynghorwyr allanol.

Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud i lawer ohonom gael cyfle i feddwl mewn ffordd newydd sbon, ond rhoddodd y cyfle i ni ddychmygu a meddwl y tu hwnt i newid a gwella graddol at rywbeth mwy beiddgar o lawer. Cafodd y canlyniad – ein strategaeth newydd hyd at 2035 – ei chreu ar y cyd â staff, myfyrwyr, a'r gymuned ehangach.

Cyfrannodd pawb a gymerodd ran eu hamser a'u syniadau'n hael ac rwy'n teimlo bod y strategaeth newydd yn cynrychioli pob un ohonom a'r hyn rydyn ni'n ei feddwl, ei ragweld ac yn ei obeithio ar gyfer y Brifysgol. Gyda'n gilydd rydyn ni wedi llunio dyfodol Prifysgol Caerdydd, a hoffwn ddiolch i bob aelod o gymuned y Brifysgol a gymerodd ran yn y broses. Mae Y Sgwrs Fawr wedi sicrhau bod ein cyfeiriad yn glir, ac wedi caniatáu i ni uno o amgylch nodau strategol cyffredin.

Rydyn ni eisoes wedi rhannu drafftiau o'r strategaeth gyda staff ac mae'r fersiwn derfynol bellach wedi derbyn cymeradwyaeth Cyngor y Brifysgol. Roedd ein strategaeth newydd – Prifysgol Caerdydd: ein dyfodol, gyda'n gilydd - yn weithredol yn llawn o 1 Medi 2024 a bydd yn ein harwain hyd at 2035.

Er i ddatblygu'r strategaeth fod yn ffocws sylweddol eleni, mae gwaith arall wedi parhau ochr yn ochr â hyn. Mae'r hyn sy'n dilyn yn gipolwg ar effaith Caerdydd dros y deuddeg mis diwethaf. Rydyn ni wedi dewis cofnodi'r llwyddiannau dan y tri maes blaenoriaeth yn ein strategaeth newydd, i ddangos y gwaith rhagorol sydd eisoes ar y gweill yn y meysydd hyn.


Canolfan y Gymraeg yn agor ei drysau

# Diwylliant, cynefin a chymuned

## Ein hymrwymiad i ddatblygu gyrfaoedd technegol

Bydd Cynghrair GW4, sef Prifysgolion Caerdydd, Caerfaddon, Bryste a Chaerwysg yn datblygu cyfleoedd sy'n rhoi'r cyfle i arbenigwyr technegol ragori yn eu gyrfaoedd; cydweithio i ymateb yn effeithiol i argymhellion mwyaf perthnasol Comisiwn TALENT UKRI; a chyflwyno rhaglenni ac adroddiadau sy'n arwain y sector ar sut y gall dulliau arloesol o ddatblygu gyrfaoedd drawsnewid sgiliau a galluoedd technegol.

## Canolfan y Gymraeg yn agor ei drysau

Mae gofod pwrpasol sydd â'r nod o feithrin y Gymraeg a'i diwylliant wedi agor i staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae Y Lle yn agored i unrhyw un a fyddai'n dymuno cael cyfle i weithio, astudio neu gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n gartref i'r Academi Gymraeg a Changen Coleg Cymraeg Cenedlaethol Prifysgol Caerdydd. Cynhelir gwersi Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Caerdydd yn Y Lle, sydd hefyd yn cynnig cyfleusterau desg boeth a chyfarfod ac ardal gymdeithasol.

## Cydnabod rhagoriaeth addysgu

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol i Dr Emma Yhnell, uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Biowyddorau, i gydnabod ei rhagoriaeth addysgu a'i hymrwymiad i'w myfyrwyr. Cyflwynir y dyfarniadau clodfawr – yr uchaf yn y sector – bob blwyddyn i nifer fach o academyddion sydd wedi cael effaith ragorol ar ddeilliannau myfyrwyr a'r proffesiwn addysgu. Cydnabyddir y wobr yn rhyngwladol yn farc ansawdd.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cwblhawyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 sy'n egluro ein huchelgais a mesurau cydraddoldeb, cynhwysiant, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth y Brifysgol. Bu staff a myfyrwyr ar draws y sefydliad yn rhan o'r gwaith gan rannu eu barn am yr amcanion a helpu i ffurfio'r weledigaeth o bwy rydyn ni'n dymuno bod.

## Gosod y myfyrwyr wrth galon ein haddysgu

Rydyn ni'n treialu dull newydd sy'n golygu bod Myfyrwyr Hyrwyddo'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion academaidd i fynegi safbwynt myfyrwyr ar y broses o gynllunio rhaglenni. Mae hyn yn gosod y myfyrwyr wrth galon penderfyniadau ac yn golygu bod ein rhaglenni'n canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen arnyn nhw. Ceir pecyn cymorth arbenigol yn canolbwyntio ar gynwysoldeb, cynaliadwyedd a chyflogadwyedd hefyd i helpu academyddion i ddatblygu arferion addysgu a chynllun eu rhaglen.




Graddedigion iau yn dathlu eu llwyddiannau

# Lle llewyrchus llawn bywyd

## Prifysgol Caerdydd yn ymuno â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gydweithio yn y dyfodol

Llofnododd Prifysgol Caerdydd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth arloesol gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach eraill yn Ne-ddwyrain Cymru, gan ffurfio fframwaith ar gyfer cydweithio yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanion allweddol ar gyfer lles economaidd yn y Rhanbarth. Bydd yn sicrhau bod dyheadau rhanbarthol yn cyd-fynd, ac yn creu cyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu â busnes, dysgu ar y cyd, addysgu, ac ymchwil a datblygu, gan ganiatáu i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gasglu ynghyd yr arbenigedd y gall y sefydliadau hyn ei gyflawni gyda'i gilydd.



Caffael cyfrifol

## Menter beilot yn ysgogi twf yn y diwydiannau creadigol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Gwelwyd cynnydd yng nghyfraddau goroesi busnesau, newidiadau cadarnhaol yn amodau gwaith gweithwyr llawrydd a hyd at £230,000 mewn refeniw ychwanegol yn sgil prosiect peilot i feithrin talent greadigol yng Nghasnewydd, Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf. Daeth y prosiect gan Ganolfan yr Economi Greadigol y Brifysgol ac awdurdodau lleol â thros 1,000 o artistiaid a pherchnogion busnesau creadigol ynghyd.

## Prifysgol Caerdydd a Siemens Healthineers yn creu cynghrair strategol

Mae Prifysgol Caerdydd a Siemens Healthineers wedi ymrwymo i bartneriaeth strategol i ddatblygu technolegau meddygol uwch, gan ganolbwyntio ar ddelweddu a diagnosteg in vitro. Mae'r gynghrair yn ffrwyth cydweithio am ddeng mlynedd rhwng y cwmni atebion gofal iechyd byd-eang a'r Brifysgol, gan gefnogi arloesi ym maes ymchwil ddelweddu o'r radd flaenaf a diagnosteg fanwl gywir.

## Graddedigion iau yn dathlu eu llwyddiannau

Bu'r garfan ddiweddaraf o raddedigion iau Prifysgol Caerdydd yn diosg eu capiau gerbron eu teulu a'u ffrindiau. Roedd y bobl ifanc yn rhan o Raglen Ysgolion Cynradd Prifysgol Caerdydd a drefnwyd mewn partneriaeth â Phasbort i'r Ddinas Cyngor Caerdydd: Menter Prifysgol y Plant. Mae'r prosiect blwyddyn o hyd yn rhoi cyfleoedd i blant astudio pynciau sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, dysgu sgiliau newydd a chodi uchelgais.

## Caffael cyfrifol

Mae ein Polisi Caffael Cyfrifol newydd yn cynnwys ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol mewn penderfyniadau prynu a bydd yn ein helpu i ddod yn brifysgol gymdeithasol gyfrifol sy'n ymdrechu i wneud Caerdydd, Cymru, a'r Byd yn lle gwell.


Datgelu tystiolaeth o ddefodau gwledda hynafol yr Oesoedd Canol ar dir castell hanesyddol

# Creu dyfodol ar y cyd

## Boeler cyntaf y byd sy'n defnyddio ager amonia yn symud i'r cam profi nesaf

Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn agor llwybrau newydd ym maes mabwysiadu ynni cynaliadwy a diwydiant gwyrddach. Dechreuodd ymchwilwyr yn y Sefydliad Arloesi Sero Net, mewn cydweithrediad â'r partner diwydiant Flogas, brofi math newydd o foeler amonia carbon isel ar y safle ym Mhrifysgol Caerdydd. Ariennir prosiect Amburn gwerth £3.4 miliwn, a lansiwyd y llynedd, gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net drwy'r Gystadleuaeth Newid Tanwydd Diwydiannol. Mae tîm y prosiect wedi dylunio offer cyntaf y byd sy'n ceisio mynd i'r afael ag allyriadau carbon diwydiannol drwy gynnig ateb gwyrddach.

## Graddedigion Prifysgol Caerdydd ymhlith graddedigion mwyaf cyflogadwy'r DU

Yn ôl arolwg Hynt Graddedigion 2021/22, graddedigion Prifysgol Caerdydd yw rhai o'r mwyaf cyflogadwy a'r rhai y mae cyflogwyr yn y DU yn chwilio amdanyn nhw fwyaf. Mae'r data, a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), yn dangos bod 86% o'n graddedigion yn gweithio yn y DU mewn cyflogaeth uchel ei sgiliau 15 mis ar ôl i'w cwrs ddod i ben, sy'n golygu bod Prifysgol Caerdydd ar y brig yng Nghymru ar gyfer y mesur hwn.

## Gallai cwyr gwenyn helpu teuluoedd mewn ardaloedd rhyfel

Mae academyddion o Brifysgol Caerdydd a Sefydliad Polytechnig Prifysgol Dechnegol Genedlaethol Kharkiv, Wcráin wedi datblygu deunydd lapio bwyd gwrthficrobaidd, gan ddefnyddio eitemau cartref a chwyr gwenyn, a all ddarparu storfa fwyd mewn ardaloedd o wrthdaro. Mae modd defnyddio'r pecyn a grëwyd gan y gwyddonwyr mewn ardaloedd yn Wcráin lle mae goresgyniad Rwsia wedi tarfu ar y cyflenwad pŵer ac o bosibl mewn ardaloedd eraill o wrthdaro ledled y byd.

## Datgelu tystiolaeth o ddefodau gwledda hynafol yr Oesoedd Canol ar dir castell hanesyddol

Mae archeolegwyr o Brifysgol Caerdydd wedi darganfod mynwent ganoloesol gynnar ar dir Castell Ffwl-y-Mwn, ger y Barri, De Cymru. Mae'r gwaith cloddio yn cynnig tystiolaeth ddiddorol newydd i ni am fywyd yng Nghymru'r oesoedd canol cynnar (AD 400-1100) ac mae'n trawsnewid ein dealltwriaeth o hanes Ffwl-y-Mwn a Bro Morgannwg.

## Datgelu coedwig gynharaf y Ddaear mewn ffosilau yng Ngwlad yr Haf

Mae gwyddonwyr wedi darganfod olion coedwig ffosil hynaf y Ddaear ar arfordir gogledd Dyfnaint a Gwlad yr Haf yn y DU. Darganfuwyd y coed cladoxylopsids, sydd tua 390 miliwn o flynyddoedd oed, gan ymchwilwyr o Brifysgol Caergrawnt a'u hadnabod ym Mhrifysgol Caerdydd, a chredir eu bod yn rhan o goedwig helaeth oedd yn gorchuddio arfordir dwyreiniol cyfandir yr Hen Dywodfaen Coch, oedd yn rhan o Ewrop bryd hynny. Mae hyn yn golygu bod Coedwig Gwlad yr Haf bedair i bum miliwn o flynyddoedd yn hŷn na'r deiliad record blaenorol yn Cairo, Efrog Newydd yn yr Unol Daleithiau, ac yn taflu goleuni newydd ar esblygiad coed a'u rôl drawsnewidiol wrth lunio'r byd yr ydym yn byw ynddo heddiw.


30

# Adolygiad yr Is-Ganghellor

Ochr yn ochr â'r straeon newyddion mawr hyn i Gaerdydd bu cynnydd cyson mewn meysydd pwysig eraill. Er enghraifft yng nghanlyniadau'r NSS, cynyddodd boddhad cyffredinol myfyrwyr o 71.72 i 77.9%, yr uchaf ers pedair blynedd. Cyflawnodd saith rhaglen 100%, gyda 22 o raglenni'n cyflawni 90% ac uwch (naw yn fwy na'r llynedd). Cafwyd gwelliannau ym mhob maes thematig – canlyniad sy'n dyst i ymdrechion y staff dros y flwyddyn ddiwethaf ym mhob rhan o'r Brifysgol. Roedd hi hefyd yn braf iawn i nodi bod Undeb Myfyrwyr Caerdydd wedi'i gosod yn ail ymhlith prifysgolion Grŵp Russell am gynrychioli diddordebau academaidd ein myfyrwyr.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn hefyd i'n helpu i feithrin diwylliant ymchwil cadarnhaol yn seiliedig ar werthoedd. Mae'r rhain yn cynnwys lansio Cynllun Gweithredu Diwylliant Ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth; Cronfa Diwylliant Ymchwil sy'n cefnogi 26 o ddigwyddiadau ar lawr gwlad; yr Wythnos Diwylliant Ymchwil gyntaf a sicrhau a lansio rhaglen arweinyddiaeth diwylliant ymchwil Cynnau|Ignite.

Ni allwn gorbwysleisio'r ymrwymiad i greu 'cynefin', lle i bawb, ac rydyn ni ar daith i sefydlu ein hunain fel Prifysgol sy'n weithredol wrth-hiliaeth. Rydyn ni'n mynd ar drywydd Cydnabyddiaeth Lefel Efydd Nod Siarter Cydraddoldeb Hiliol, a thros y flwyddyn mynegodd staff eu barn ar y meysydd gwaith sydd angen i ni eu blaenoriaethu. Mae ein gwaith ar hyn yn parhau ac rydyn ni wedi ymrwymo i wella profiad staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.

Mae hyn i gyd wedi digwydd mewn cyfnod anodd. Fel eraill yn y sector, mae Caerdydd yn wynebu cyd-destun ariannol heriol. Er mwyn sicrhau ein cynaliadwyedd hirdymor, mae angen i ni ddychwelyd i bwynt lle mae ein costau'n is na'n hincwm. Mae angen i ni hefyd greu lle i allu buddsoddi mewn gweithgareddau newydd a chefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth. Rydyn ni eisoes wedi cymryd y camau cychwynnol tuag at resymoli ein hystâd, ac wrthi'n chwilio am ffyrdd o barhau i leihau gwariant sydd ddim yn ymwneud â chyflogau. Mae ein cynllun diswyddo gwirfoddol wedi ei anelu at leihau staffio mewn meysydd lle gallwn wneud hynny, ac ail-fuddsoddi yn y meysydd sydd angen mwy o adnoddau. Dyma ein cyfle i groesawu newid ac ail-lunio'r hyn rydyn ni'n ei wneud mewn modd cadarnhaol a rhagweithiol i ddiwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Ym mis Ebrill 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y swm y gall prifysgolion Cymru nawr ei godi am hyfforddiant yn cynyddu o £9,000 i £9,250 y flwyddyn o fis Medi 2024. Fel prifysgolion eraill Cymru, gwnaed y penderfyniad anodd i gynyddu ffioedd i helpu i dalu ein costau cynyddol. Er ei fod yn helpu ychydig, mewn termau real mae ffioedd dysgu yng Nghymru wedi gostwng 17.4%, a phe bai ffioedd wedi cynyddu gyda chwyddiant, bydden nhw tua £11,000.


Pryder uniongyrchol a wynebwyd gennyn ni yn ystod y flwyddyn – ac rydyn ni'n dal i deimlo ei effaith – yw adolygiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (MAC) i'r llwybr fisa i raddedigion. Er ein bod yn croesawu'r argymhelliad y dylai'r llwybr graddedigion aros fel y mae, mae'r penderfyniad i adolygu yn y lle cyntaf wedi achosi ansicrwydd a llawer o niwed i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn y DU.

Mae materion geowleidyddol hefyd wedi effeithio ar ein cymuned. Mae rhyfel Israel-Gaza wedi peri gofid a her aruthrol i lawer o aelodau'r Brifysgol. Rydyn ni wedi cynnig cymorth i staff a myfyrwyr dros y flwyddyn a byddwn yn parhau i wneud hynny am gyhyd ag sydd ei angen. Fel llawer o gampysau eraill, gwelson ni brotestwyr o blaid Palestina'n sefydlu gwersyll ar Rodfa'r Bedol ger y Prif Adeilad. Yn dilyn nifer o gyfarfodydd gyda'r gwersyll, gadawodd ei aelodau'n wirfoddol, a daeth y gwersyll i ben yn heddychlon ganol mis Gorffennaf.

Wrth i mi fyfyrio ar y flwyddyn, mae wedi bod yn llwyddiannus ac yn heriol. Dyma fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd ac rwy'n edrych ymlaen at weld y gwaith rydyn ni wedi'i wneud ar ein strategaeth yn dechrau cael effaith. Yn ôl yr arfer, mae cryfder Caerdydd i'w weld yn ei phobl, ei chymuned.

Mae ein traddodiad o gefnogi ein gilydd ar adegau o argyfwng wedi parhau ac rwy'n hynod falch o'r gwahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud gartref a ledled y byd.

**Yr Athro Wendy Larner**
Is-Ganghellor
27 Tachwedd 2024



# Tueddiadau allweddol ym maes Addysg Uwch

## Mae Prifysgol Caerdydd yn parhau i ymateb i dueddiadau yng Nghymru a San Steffan, gan ymaddasu i'r agendâu polisi gwahanol a geir yn sgil datganoli.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o newidiadau gwleidyddol sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys dau Brif Weinidog newydd mewn byr amser a chyfnod o gynnwrf gwleidyddol sylweddol rhwng y ddau benodiad. Rydyn ni hefyd wedi gweld nifer o newidiadau yng nghyfansoddiad y cabinet a diwedd ar y cytundeb cydweithredu rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru.

Mae addysg uwch yng Nghymru wedi parhau i wynebu nifer o heriau anodd yn ymwneud â chyllid, ac mae pob prifysgol yng Nghymru yn cymryd camau i unioni eu diffygion. Mae'r heriau ariannu hyn wedi codi o nifer o ffynonellau gan gynnwys; lleihad yng ngwerth ffioedd dysgu domestig, marchnad heriol ar gyfer recriwtio rhyngwladol, a chyd-destun ehangach cyllid cyhoeddus.

Y pryder mwyaf uniongyrchol fu cais Llywodraeth y DU ar i'r Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (MAC) adolygu'r llwybr fisa i raddedigion. Er bod MAC yn argymell cadw'r llwybr Graddedigion ar ei ffurf bresennol, roedd hyn yn dilyn cyfnod o gasglu tystiolaeth sylweddol yn y sector addysg uwch. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr heriau i brifysgolion os bydd mudo'n parhau'n fater gwleidyddol allweddol.

Yn fwy cadarnhaol, cododd Llywodraeth Cymru ffioedd dysgu o £9,000 i £9,250, er bod hyn ochr yn ochr â gostyngiad yng nghyllideb CCAUC. Mae'n annhebygol y bydd cynnydd sylweddol yn y gyllideb a ddyrennir i addysg uwch yng Nghymru yn y tymor byr. O ganlyniad, mae ffrydiau ariannu CCAUC – megis grantiau addysgu a chyllid ymchwil – yn debygol o weld pwysau pellach. Nodwn y penderfyniad gan San Steffan y bydd modd cynyddu ffioedd Lloegr yn 2025/26 i £9,535 ond rydyn ni'n dal i aros am benderfyniadau pellach gan Lywodraeth Cymru am yr hyn mae hynny'n ei olygu i Ffioedd Cymru. Yn y cyfamser, bydd angen i ni amsugno'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ychwanegol i Gyflogwyr a gyhoeddwyd yn Natganiad Cyllideb Hydref y Canghellor.

Mae addysg uwch ledled Cymru hefyd yn paratoi ar gyfer trosglwyddo pwerau maes o law o CCAUC i Medr (yr enw newydd gan y Comisiwn ar Addysg Drydyddol ac Ymchwil). Bydd hyn yn dod ag addysg uwch, addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion a dysgu oedolion ynghyd mewn un man ar gyfer rheoleiddio a chynllunio o 1 Awst 2024. Mae'r Datganiad o Flaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cipolwg ar waith Medr.

Mae'r datganiad hwn yn mabwysiadu dull graddol ond mae'n canolbwyntio ar:

- Roi dysgwyr wrth galon y system.
- Cyfraniad cymdeithasol ac economaidd.
- Cefnogi cynaliadwyedd ariannol, a chyfeirio hefyd at wahaniaethu cynyddol rhwng darparwyr.

Mae'r datganiad yn parhau i ystyried bod symudedd cymdeithasol ac ymdrin ag anghydraddoldeb addysg yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, gan adeiladu ar thema bwysig ym mholisi Llywodraeth Cymru dros y 25 mlynedd diwethaf.

Bydd Medr yn arwain at gydweithio agosach rhwng addysg uwch ac addysg bellach, gan adeiladu ar bartneriaethau presennol o amgylch cyrsiau penodol a chenhadaeth ddinesig.

Yn yr un modd, er mai amser cyfyngedig y mae Llywodraeth newydd Cymru wedi'i gael i weithredu ar ymchwil ac arloesi, rydyn ni wedi bod yn awyddus i hyrwyddo rôl Prifysgol Caerdydd fel sefydliad angori yn economi de Cymru, gan adeiladu ar ein sefydliadau ymchwil ac arloesi a'n cysylltiadau ag ystod eang o bartneriaid ledled y rhanbarth. Rydyn ni'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio'n gryfach ar greu swyddi dros y blynyddoedd nesaf, gyda phwyslais arbennig ar swyddi gwyrdd.

Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi dweud eu bod yn disgwyl perthynas well o gydweithio yn dilyn etholiad cyffredinol y DU ac mae hyn yn debygol iawn o effeithio ar bolisi ymchwil ac arloesi ac agendâu newydd rhanbarthol a seiliedig ar leoedd, wrth i Lywodraeth y DU geisio gosod rhywbeth yn lle rhaglen Ffyniant Bro y llywodraeth flaenorol.

Yn olaf, mae llawer o'n sgyrsiau gyda swyddogion etholedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi ymdrin â'r Sgwrs Fawr a'r adolygiad strategol. Mae hyn wedi arwain at sawl cyfarfyddiad defnyddiol gydag Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli Prifysgol Caerdydd ac wedi cyfrannu adborth defnyddiol i'n sgyrsiau.

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

## Adroddiad gan bwyllgorau allweddol y Corff Llywodraethu

Mae Cyngor y Brifysgol wedi sefydlu pedwar prif bwyllgor, ac mae'n penodi eu haelodau i oruchwylio agweddau amrywiol ar fusnes y Brifysgol: y Pwyllgor Archwilio a Risg; y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau; y Pwyllgor Llywodraethu; a'r Pwyllgor Taliadau. Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol, cylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r Cyngor, ac aelod annibynnol o'r Cyngor yn Gadeirydd. Gall y prif bwyllgorau sefydlu is-bwyllgorau, megis yr Is-bwyllgor Enwebiadau sy'n is-bwyllgor allweddol a grëwyd i ystyried a chytuno ar argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau allweddol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risg

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Dr Robert Weaver (Cadeirydd) | Annibynnol | 6/6 |
| Aneesa Ali (penodwyd 01 Ionawr 24) | Annibynnol | 2/2 |
| Pers Aswani | Annibynnol | 6/6 |
| Dónall Curtin (ymddiswyddodd 13 Tachwedd 23) | Annibynnol | 3/3 |
| Suzanne Rankin | Annibynnol | 4/6 |
| Dr Nick Starkey (penodwyd 01 Ionawr 24) | Annibynnol | 2/2 |
| Agnes Xavier-Phillips | Annibynnol | 4/6 |

Nid yw Cadeirydd y Cyngor nac aelodau staff na myfyrwyr yn y sefydliad yn aelodau o'r Pwyllgor. Nid yw'r aelodau'n unigolion sydd â chyfrifoldebau rheoli gweithredol yn y sefydliad nac yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Penodwyd dau aelod annibynnol i'r Pwyllgor yn ystod 2023-24 yn dilyn ymarfer recriwtio a gefnogwyd gan asiantaeth chwilio allanol yn dilyn ymddiswyddiad un aelod.

### Prif gyfrifoldebau

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg rôl allweddol o ran cynghori a chynorthwyo'r Cyngor i oruchwylio amgylchedd sicrwydd a rheoli'r Brifysgol. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys:

- Asesu a chynghori'r Cyngor ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli a llywodraethu risg y sefydliad, a'r rheolaethau a gweithdrefnau mewnol i hyrwyddo cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- Goruchwylio trefniadau archwilio allanol a mewnol, gan gynnwys cynghori'r corff llywodraethu ynghylch penodi'r darparwyr archwilio, a goruchwylio natur a chwmpas archwiliadau allanol a mewnol ac effeithiolrwydd y prosesau archwilio; a
- Goruchwylio agweddau archwilio ar ddatganiadau ariannol y Brifysgol, gan gynnwys barn yr archwilwyr annibynnol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad rheolaeth fewnol ac unrhyw fater perthnasol a fynegir yn llythyr sylwadau'r Archwiliwr Allanol.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cyd-fynd yn agos ag arweiniad Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar bwyllgorau archwilio ac mae'r Pwyllgor yn talu sylw dyledus i'r canllawiau hyn wrth weithredu.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg chwe gwaith yn ystod 2023-24, gan gynnwys dau gyfarfod arbennig a gynhaliwyd ym mis Medi 2023 i ystyried datganiad ymddiswyddo'r Pennaeth Archwilio Mewnol a drafftio Barn Pennaeth Archwilio Mewnol, a gwneud argymhellion ar benodi Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro.

Mynychodd yr Archwilwyr Allanol holl gyfarfodydd arferol y Pwyllgor, ac roeddent yn bresennol i ystyried y Datganiadau Ariannol blynyddol (gan gynnwys adolygiad busnes hyfyw), llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr a barn ffurfiol yr Archwiliwr Allanol, yn ogystal ag i gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol a'r strategaeth.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu cofrestr risg ac adroddiadau manwl y Brifysgol, gan gynnwys y rheini gan archwilio mewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol, ymatebion a chynlluniau gweithredu'r rheolwyr, a chynnydd gydag argymhellion archwilio mewnol ac allanol uchel eu blaenoriaeth. Bu'r Pwyllgor yn monitro cynnydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad a phrosiect i fapio rheolaethau allweddol y Brifysgol, ac yn goruchwylio adolygiad allanol o Archwilio Mewnol, a datblygu Cofrestr Risg Strategol newydd, yn dilyn cyflwyno Polisi a meddalwedd Rheoli Risg newydd.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar werth am arian, cwynion, data a gyflwynwyd yn allanol, a Sero Net, mapiau sicrwydd ac ystâd y Brifysgol. Daeth adroddiadau rheolaidd i law'r Pwyllgor hefyd ar ddigwyddiadau difrifol, chwythu'r chwiban, ymgyfreitha a chydymffurfiaeth ariannol. Cynhaliodd y Pwyllgor hunanwerthusiad blynyddol o effeithiolrwydd a nododd un maes ar gyfer hyfforddiant i'r Pwyllgor yn ystod 2024-25.

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

## Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| John Shakeshaft | Annibynnol | 4/4 |
| Angie Flores Acuña (tymor wedi dod i ben ar 30 Mehefin 24) | Myfyriwr | 4/4 |
| Beth Button (penodwyd 05 Mawrth 24) | Annibynnol | 2/2 |
| Madison Hutchinson (penodwyd o 01 Gorffennaf 24) | Myfyriwr | - |
| Chris Jones | Annibynnol | 4/4 |
| Jan Juillerat | Annibynnol | 4/4 |
| Yr Athro Urfan Khaliq | Cyflogai | 4/4 |
| Yr Athro Wendy Larner (o 01 Medi 23) | Cyflogai | 4/4 |
| Micaela Panes | Myfyriwr | 4/4 |
| Yr Athro Colin Riordan (tan 31 Awst 23) | Cyflogai | - |
| David Selway | Annibynnol | 4/4 |
| Yr Athro Damian Walford Davies | Cyflogai | 3/4 |
| Jennifer Wood | Annibynnol | 4/4 |
| Patrick Younge | Annibynnol | 3/4 |

Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys dau aelod sydd â phrofiad ariannol perthnasol a sicrhawyd mewn rôl yn seiliedig yn bennaf ar gyllid.

### Prif gyfrifoldebau


Cylch gorchwyl eang y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yw cynghori'r Cyngor a'i gynorthwyo ar faterion ariannol ac adnoddau'r Brifysgol. Mae'n monitro cynigion ar gyfer cyflawniad, cysoni adnoddau a pherfformiad nodau strategol y Brifysgol. Mae ganddo ddyletswyddau penodol mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Dyrannu Adnoddau, gan gynnwys dyrannu arian i Undeb y Myfyrwyr
- Rheolaeth ariannol, gan gynnwys buddsoddi a bancio.
- Rheoli Ystadau a'r Seilwaith Digidol.
- Rheoli Adnoddau Dynol.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24, gan gynnwys cyfarfod arbennig i gymeradwyo'r Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2025-27. Parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio busnes ei ddau is-bwyllgor: yr Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol, sy'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth, polisïau a rhaglenni gweithgarwch o ran cynaliadwyedd amgylcheddol; a'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio, sy'n monitro ac yn cynghori ar strategaeth fuddsoddi'r Brifysgol a'i threfniadau bancio. Cymeradwyodd y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig i'r Is-bwyllgor Buddsoddi a Bancio, ynghyd â phenodi aelod allanol newydd.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn adolygu perfformiad yr ystâd, trwy dderbyn Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr Ystadau, argymhelliad o Strategaeth Preswylfeydd arfaethedig, bu'n adolygu nifer o achosion busnes ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd a hefyd derbyniodd ddiweddariadau rheolaidd ar weithgareddau'r Brifysgol ym maes seiberddiogelwch. Un eitem allweddol o fusnes oedd trafod y strategaeth newydd arfaethedig a'r cynllun i symud ymlaen, ynghyd â'r gyllideb ar gyfer 2024-25. Parhaodd y Pwyllgor i dderbyn diweddariadau ariannol rheolaidd, goruchwylio cyllid i Undeb y Myfyrwyr (drwy'r Grant Bloc blynyddol ac Adolygiad Cytundeb Ariannol Undeb y Myfyrwyr) a chymeradwyodd fân ddiwygiadau i'r Rheoliadau Ariannol a'r Fframwaith Dirprwyo Awdurdod Ariannol. Cafodd y Pwyllgor hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o recriwtio myfyrwyr ar gyfer 2023/24, cyflwyniad ar ganlyniadau adolygiad Meincnodi Tribal ar gyfer 2021/22 a diweddariad ar y Ffyrdd Gwell o Weithio.



# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

## Y Pwyllgor Llywodraethu

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Judith Fabian (Cadeirydd) | Annibynnol | 3/3 |
| Yr Athro Fonesig Janet Finch | Annibynnol | 2/3 |
| Angie Flores Acuña (tymor wedi dod i ben ar 30 Mehefin 24) | Myfyriwr | 3/3 |
| Yr Athro Adam Hedgecoe | Cyflogai | 3/3 |
| Madison Hutchinson (penodwyd 01 Gorffennaf 24) | Myfyriwr | - |
| Jan Juillerat | Annibynnol | 3/3 |
| Yr Athro Wendy Larner (o 01 Medi 23) | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Mark Llewellyn (penodwyd 01 Awst 24) | Cyflogai | - |
| Dr Caroline Rae (tymor wedi dod i ben 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Colin Riordan (tan 31 Awst 23) | Cyflogai | - |
| David Selway | Annibynnol | 2/3 |
| Yr Athro Damian Walford Davies | Cyflogai | 3/3 |
| Patrick Younge | Annibynnol | 2/3 |

### Prif gyfrifoldebau

Rôl allweddol y Pwyllgor Llywodraethu yw cynghori'r Cyngor a'i gynorthwyo mewn perthynas ag effeithiolrwydd strwythur a fframwaith llywodraethu'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Lefel cydymffurfiaeth y Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill, gan gynnwys darpariaethau Deddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg.
- Materion Cyfansoddiadol a chyfreithiol, gan gynnwys y Siarter, Statudau a'r Deddfiadau.
- Enwebu a phenodi Aelodau Annibynnol.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Pwyllgor Llywodraethu wedi sefydlu pum is-bwyllgor:

- Enwebiadau
- Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Safonau Biolegol
- Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu dair gwaith yn ystod 2023-24. Bu'r Pwyllgor yn adolygu Fframwaith Llywodraethu'r Brifysgol ac yn argymell diweddariadau cysylltiedig i'r Ordinhadau a'r Cynllun Dirprwyo. Bu hefyd yn goruchwylio'r Adolygiad tair blynyddol o Effeithiolrwydd Llywodraethu oedd yn cynnwys adolygiad allanol o'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Senedd; arolwg o effeithiolrwydd llywodraethu a weinyddwyd ac a feincnodwyd yn allanol; a dadansoddiad mewnol o ddata cydraddoldeb amrywiaeth a chynhwysiant aelodau'r Cyngor dros y tair blynedd diwethaf.

Adolygodd y Pwyllgor nifer o ddogfennau sicrwydd blynyddol, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, PREVENT, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1996, gofynion diogelu, rheoliadau Fisâu a Mewnfudo'r DU ac Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu fatrics sgiliau a data cydraddoldeb ac amrywiaeth yr aelodau annibynnol i ystyried gofynion cyfansoddiad corff llywodraethu effeithiol ac effeithlon, a goruchwyliodd benodi pum aelod annibynnol newydd, Dirprwy Gadeirydd newydd y Cyngor a phrentis Lywodraethwr drwy'r Is-bwyllgor Enwebiadau. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y cynllun ymsefydlu a datblygu blynyddol, a goruchwyliodd adolygiadau perfformiad blynyddol Cadeirydd y Cyngor ac aelodau'r Cyngor.

## Yr Is-bwyllgor Enwebiadau

| Aelod | Presenoldeb |
|---|---|
| Judith Fabian (Cadeirydd) (Annibynnol) | 1/1 |
| Angie Flores Acuña (tymor wedi dod i ben ar 30 Mehefin 24) (Myfyriwr) | 1/1 |
| Madison Hutchinson (penodwyd 25 Medi 24) (Myfyriwr) | - |
| Dr Juan Pereiro Viterbo (penodwyd 30 Ionawr 24) (Staff – Aelod Senedd o'r Cyngor) | - |
| Yr Athro Stephen Riley (tymor wedi dod i ben 31 Rhagfyr 23) (Staff – Aelod Senedd o'r Cyngor) | 1/1 |
| John Shakeshaft (Annibynnol) | 1/1 |
| Dr Robert Weaver (penodwyd 25 Gorffennaf 24) (Annibynnol) | - |
| Patrick Younge (Annibynnol) | 1/1 |

### Prif gyfrifoldebau

Rôl yr Is-bwyllgor Enwebiadau yw ystyried a chytuno ar argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau allweddol, gan gynnwys penodi ac ailbenodi Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol i'r Cyngor a'i bwyllgorau.

Mae'r is-bwyllgor yn sicrhau bod trefniadau recriwtio aelodau annibynnol yn cael eu cyflawni trwy broses benodi glir a thryloyw sy'n rhoi sylw dyledus i sgiliau a phrofiad cyffredinol y corff llywodraethu, cydbwysedd rhwng gwybodaeth am y sector a gwybodaeth y tu hwnt i'r sector, ac ymrwymiadau i amrywiaeth a chynwysoldeb.

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r is-bwyllgor ar un achlysur yn ystod 2023-24 i gytuno ar y disgrifiad rôl a'r dull o recriwtio aelodau annibynnol y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, gan gynnwys cyfansoddiad y paneli llunio rhestr fer a chyfweld i weithio gyda'r cwmni chwilio allanol a benodwyd, Aspen People Ltd. Goruchwyliodd y Pwyllgor hefyd benodi Is-Gadeirydd newydd y Cyngor a Phrentis-Lywodraethwr. Ymgymerwyd â'r gwaith o recriwtio ar gyfer swyddi aelodau annibynnol yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023, a'r broses benodi ar gyfer yr Is-Gadeirydd yn ystod mis Chwefror 2024.

Recriwtiwyd y prentis-lywodraethwr trwy Gynllun Prentisiaeth Llywodraethwyr Perrett Laver. Y nod yw annog amrywiaeth ar fyrddau, a hysbysebwyd y swydd yn allanol.

## Y Pwyllgor Taliadau

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Jan Juillerat (Cadeirydd) | Annibynnol | 2/2 |
| Yr Athro Fonesig Janet Finch | Annibynnol | 2/2 |
| Suzanne Rankin (penodwyd 02 Hydref 23) | Annibynnol | 2/2 |
| Patrick Younge | Annibynnol | 2/2 |

Mae gan y Pwyllgor Taliadau aelodaeth gwbl annibynnol o aelodau annibynnol y Cyngor (sy'n cynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd).  Ni fydd Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio'r Pwyllgor Taliadau. Gwahoddir y Cyfarwyddwr AD (a ailenwyd yn Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant o 2024-25) i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyhoeddir polisi tâl y Brifysgol yn flynyddol ar ein gwefan (rhagor o wybodaeth ar dudalen 21).

### Prif gyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Taliadau, gyda chyngor gan y Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-swyddogion, yn datblygu'r strategaeth a'r polisi gwobrwyo cyffredinol i gwmpasu cydnabyddiaethau ariannol, budd-daliadau, amodau cyflogaeth a thaliadau diswyddo uwch-swyddogion a staff y Brifysgol, gan gynnwys Deoniaid a Phenaethiaid Ysgol.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu taliadau ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Is-Ganghellor a'r rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol iddynt, gan roi ystyriaeth i fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am daliadau, buddion ac amodau cyflogaeth yn y Sector Addysg Uwch ac mewn mannau eraill, fel y bo'n briodol, a metrigau a data perfformiad perthnasol.

Pennir pecyn taliadau'r Is-Ganghellor yn ôl sawl ffactor, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- brofiad yr Is-Ganghellor yn y sector addysg uwch o ran arwain, rheoli, ac yn academaidd.
- ehangder y cyfrifoldebau arwain ar gyfer un o brifysgolion mwyaf y DU.
- y cyfrifoldebau ariannol ar gyfer sefydliad sydd ag incwm blynyddol o dros £625 miliwn; ac sy'n cyfrannu mwy na £3.7 biliwn i economi'r DU, gan gynhyrchu £6.40 am bob £1 a wariwn ac sy'n cefnogi 1 o bob 135 o swyddi yng Nghymru.

### Crynodeb o'r busnes

Yn ystod 2023-24, adolygodd y Pwyllgor allbwn Adolygiad Cyflogau Uwch 2023 a chymeradwyodd redeg Adolygiad Cyflogau Uwch Cyfyngedig 2024, gan ganolbwyntio ar adolygiadau ecwiti. Gohiriodd hefyd y penderfyniad ar adolygiad Bandio 2024 tan y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2024. Derbyniodd y diweddariad blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ac o ran Ethnigrwydd ac ar Gyflog Cyfartal a Llywodraethu Cyflogau Uwch Swyddogion. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ei adolygiad blynyddol o Gôd Taliadau Staff Uwch AU y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion, a chadarnhaodd fod y Brifysgol wedi mabwysiadu'r Côd. Mae'r Pwyllgor, trwy'r Cadeirydd, yn adrodd i'r Cyngor o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

## Y Senedd

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Yr Athro Wendy Larner | Cyflogai | 3/3 |
| Angie Flores Acuña (tan 30 Mehefin 24) | Myfyriwr | 3/3 |
| Yr Athro Rudolf Allemann | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Stuart Allen (tan 22 Mai 24) | Cyflogai | 2/2 |
| Yr Athro Stuart Allan (penodwyd 08 Mai 24) | Cyflogai | 1/1 |
| Yr Athro Rachel Ashworth | Cyflogai | 3/3 |
| Dr Thomas Beach | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Roger Behrend (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai<br>Cyflogai | 0/3<br>0/3 |
| Yr Athro Anthony Bennett | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Emma Blain | Cyflogai | 3/3 |
| Shola Bold (penodwyd 01 Gorff 24) | Myfyriwr | - |
| Yr Athro Kate Brain | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Gill Bristow | Cyflogai | 1/3 |
| Dr Andreas Buerki | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Christine Bundy | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Cindy Carter | Cyflogai | 1/3 |
| Eve Chamberlain (penodwyd 01 Gorff 24) | Myfyriwr | - |
| Yr Athro David Clarke | Cyflogai | 3/3 |
| Lauren Cockayne | Cyflogai | 1/3 |
| Susan Cousins (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Dave Cowan (tan 07 Mai 24) | Cyflogai | 0/2 |
| Yr Athro Vicki Cummings | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Juliet Davis | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Lina Dencik (tan 01 Ionawr 24) | Cyflogai | 0/1 |
| Michelle Deininger (penodwyd 01 Ionawr 24) | Cyflogai | 0/2 |
| Dr David Doddington | Cyflogai | 3/3 |
| Dr Luzia Dominguez (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 1/3 |
| Dr Derek Dunne | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Dominic Dwyer | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Edwin Egede | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Rachel Errington (penodwyd 01 Ionawr 24) | Cyflogai | 1/2 |
| Catrin Edith Parry (penodwyd 01 Gorff 2024) | Myfyriwr | - |
| Fflur Evans | Cyflogai | 1/3 |
| Yr Athro Dylan Foster Evans | Cyflogai | 3/3 |
| Helen Evans (tan 31 Rhagfyr 23) | Cyflogai | 0/1 |
| Graham Getheridge | Cyflogai | 1/3 |
| Yr Athro Hayley Gomez (penodwyd 01 Rhagfyr 23) | Cyflogai | 1/2 |
| Yr Athro Julian Gould-Williams | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Clare Griffiths (penodwyd 01 Awst 24) | Cyflogai | - |
| Yr Athro Mark Gumbleton | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Thomas Hall | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Natasha Hammond-Browning | Cyflogai | 2/3 |
| Emma Heady (aelod dirprwyedig tan fis Mai 2024) | Cyflogai | 1/2 |
| Yr Athro Adam Hedgecoe | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Monika Hennemann (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Jonathan Hewitt | Cyflogai | 1/3 |
| Madison Hutchinson | Myfyriwr | 2/3 |
| Yr Athro Aseem Inam | Cyflogai | 0/3 |
| Yr Athro Nicola Innes | Cyflogai | 1/3 |
| Claire Jaynes (penodwyd 01 Ionawr 24) | Cyflogai | 1/2 |
| Dr Nicholas Jones | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Dafydd Jones | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Kathryn Jones (penodwyd 23 Mai 24) | Cyflogai | 0/1 |
| Dr Hesam Kamalipour | Cyflogai | 3/3 |
| Dr Tahl Kaminer | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Deborah Kays (penodwyd 01 Mehefin 24) | Cyflogai | 0/1 |
| Yr Athro Andrew Kerr | Cyflogai | 1/3 |
| Yr Athro Urfan Khaliq | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Alan Kwan (aelod dros dro ar gyfer 1 cyfarfod) | Cyflogai | 1/1 |
| Yr Athro Mark Llewellyn (penodwyd 01 Chwefror 24) | Cyflogai | 1/2 |
| Yr Athro Eshwar Mahenthiralingam | Cyflogai | 3/3 |
| Alex Meers | Myfyriwr | 1/1 |
| Claire Morgan | Cyflogai | 3/3 |
| Ana Nagiel Escobar (penodwyd 01 Gorff 2024) | Myfyriwr | - |
| Rebecca Newsome (aelod sy'n dychwelyd o fis Mai 2024) | Cyflogai | 0/1 |
| Yr Athro Gerard O'Grady | Cyflogai | 3/3 |
| Dr James Osborne (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 1/3 |
| Deio Owen (tan 30 Mehefin 24) | Myfyriwr | 3/3 |
| Joanne Pagett | Cyflogai | 0/3 |
| Micaela Panes | Myfyriwr | 3/3 |
| Dr Vassiliki Papatsiba (penodwyd 01 Mai 24) | Cyflogai | 1/1 |
| Dr Juan Pereiro Viterbo | Cyflogai | 2/3 |

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Yr Athro John Pickett (penodwyd 01 Medi 23 tan 31 Mai 24) | Cyflogai | 0/2 |
| Dr Jenny Pike | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Simon Pope (penodwyd 01 Awst 24) | Cyflogai | - |
| Abyd Quinn-Aziz (tan 31 Gorff 24) | Cyflogai | 1/3 |
| Dr Caroline Rae (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 2/3 |
| Michael Reade | Cyflogai | 2/3 |
| Kate Richards | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Stephen Riley | Cyflogai | 1/3 |
| Dominic Roche | Cyflogai | 1/3 |
| Noah Russell (tan 30 Mehefin 2024) | Myfyriwr | 3/3 |
| Yr Athro Gavin Shaddick (penodwyd 01 Mai 24) | Cyflogai | 1/3 |
| Yr Athro Karl Michael Schmidt (penodwyd 01 Awst 24) | Cyflogai | - |
| Yr Athro Katherine Shelton | Cyflogai | 3/3 |
| Dr Andy Skyrme | Cyflogai | 0/3 |
| Yr Athro Peter Smowton (tan 31 Tachwedd 23) | Cyflogai | 1/1 |
| Zbig Sobiesierski | Cyflogai | 1/1 |
| Helen Spittle | Cyflogai | 3/3 |
| Georgia Spry | Myfyriwr | 2/3 |
| Tracey Stanley | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Phil Stephens (penodwyd 01 Mai 24) | Cyflogai | 0/1 |
| Yr Athro Patrick Sutton | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Catherine Teehan | Cyflogai | 2/3 |
| Grace Thomas | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Jonathan Thompson | Cyflogai | 3/3 |
| Yr Athro Damian Walford Davies | Cyflogai | 3/3 |
| Matt Walsh | Cyflogai | 2/3 |
| Dr Catherine Walsh (tan 31 Gorffennaf 24) | Cyflogai | 2/3 |
| Lisa Watkins (tan 27 Tachwedd 23) | Cyflogai | 1/1 |
| Yr Athro Ian Weeks (tan 31 Rhagfyr 23) | Cyflogai | 1/1 |
| Yr Athro David Whitaker (tan 29 Chwefror 24) | Cyflogai | 0/1 |
| Yr Athro Roger Whitaker | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro John Wild | Cyflogai | 2/3 |
| Yr Athro Martin Willis (tan 31 Ionawr 24) | Cyflogai | 1/1 |
| Yr Athro Jianzhong Wu | Cyflogai | 2/2 |

### Prif gyfrifoldebau

Mae'r Senedd wedi'i sefydlu gan Siarter y Brifysgol, sy'n rhoi cyfrifoldeb iddi am gael trefn ar faterion academaidd y Brifysgol, a hynny ym meysydd addysgu ac ymchwil fel ei gilydd, a phwerau i lunio Rheoliadau Academaidd. Mae'n tynnu ei haelodaeth o blith staff academaidd, staff gwasanaethau proffesiynol a myfyrwyr y Sefydliad. Mae'r Senedd yn parhau i adolygu polisi addysgol y Brifysgol ac yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor fod materion academaidd y Brifysgol yn cael eu rheoli mewn modd priodol.

Yn ei thro, mae'r Senedd wedi sefydlu paneli sefydlog ac is-bwyllgorau i'w chefnogi i gyflawni ei chyfrifoldebau, megis y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Is-bwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Senedd dair gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24. Roedd meysydd allweddol o ran busnes strategol yn cynnwys diweddariadau ar ganlyniadau a chamau gweithredu Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS), diweddariadau ar waith yn ymwneud â diwylliant ymchwil a'r Rhaglen Rhagoriaeth Ymchwil, a chyflwyniad ar strategaeth newydd arfaethedig y Brifysgol. Derbyniodd ac ystyriodd y Senedd adroddiad Adolygiad Dwysiambr yr adolygwyr allanol a derbyniodd ddiweddariadau ar gynnydd yn y maes. Derbyniodd y Senedd hefyd ddiweddariad ar yr adolygiad o drefniadau Llywodraethu Addysg.

Ystyriodd y Senedd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol, yr Adroddiad Gwella Blynyddol a chymeradwyodd nifer o gynigion i amrywio rheoliadau a pholisïau academaidd. Derbyniodd y Senedd Ymateb y Sefydliad i Farn y Myfyriwr 2023 a derbyniodd Farn y Myfyriwr 2024. Derbyniwyd adroddiadau busnes rheolaidd gan is-bwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

## Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

| Aelod | Math |
|---|---|
| Yr Athro Colin Riordan (Cadeirydd) (tan 31 Awst 23) | Cyflogai |
| Yr Athro Wendy Larner (Cadeirydd) (o 01 Medi 23) | Cyflogai |
| Yr Athro Rudolf Allemann | Cyflogai |
| Hayley Beckett (o 16 Ebrill 24 tan 09 Medi 24) | Cyflogai |
| Laura Davies (o 01 Chwefror 24) | Cyflogai |
| Sally-Ann Efstathiou (o 10 Medi 24) | Cyflogai |
| Rashi Jain (tan 16 Chwefror 24) | Cyflogai |
| Yr Athro Urfan Khaliq | Cyflogai |
| Dr David Langley (o 30 Ebrill 24) | Cyflogai |
| Daniel Lawrence (o 14 Hydref 24) | Cyflogai |
| Susan Midha (tan 19 Mawrth 24) | Cyflogai |
| Claire Morgan | Cyflogai |
| TJ Rawlinson (tan 30 Ionawr 24) | Cyflogai |
| Yr Athro Stephen Riley (o 1 Ionawr 24) | Cyflogai |
| Claire Sanders (tan 21 Mehefin 24) | Cyflogai |
| Dr Paula Sanderson (o 08 Gorffennaf 24) | Cyflogai |
| Yr Athro Gavin Shaddick, (o 8 Mai 24) | Cyflogai |
| Yr Athro Damian Walford Davies | Cyflogai |
| Yr Athro Ian Weeks (tan 31 Rhagfyr 23) | Cyflogai |
| Yr Athro Roger Whitaker | Cyflogai |
| Darren Xiberras | Cyflogai |

Mae pob aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd uwch wythnosol. O ystyried amlder y cyfarfodydd hyn, ni chofnodir y presenoldeb yn y tabl uchod.

### Prif gyfrifoldebau

Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yw uwch dîm gweithredol y Brifysgol. Mae Telerau ac Amodau Cyllid CCAUC yn diffinio'r Uwch-dîm Gweithredol yn unol â diffiniad Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) ar gyfer 'personél rheoli allweddol'; hynny yw, "y personau hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddwr (boed yn weithredol ai peidio) yr endid hwnnw".

Cylch gwaith cyffredinol y Bwrdd yw cynghori'r Is-Ganghellor wrth iddo/iddi gyflawni ei (d)dyletswyddau yn rôl y Prif Swyddog Gweithredol, gan gynnwys datblygu a gweithredu strategaeth, cynlluniau gweithredol, polisïau a gweithdrefnau, gosod cyllidebau, a monitro perfformiad gweithredu ac ariannol.

### Crynodeb o'r busnes

Drwy gydol 2023-24, roedd y Bwrdd yn gweithio ar Y Sgwrs Fawr, sef y broses gyfranogol ar gyfer datblygu strategaeth newydd y Brifysgol - 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd'. Yn cyd-fynd â datblygu'r strategaeth roedd rhaglen waith ar gyfer datblygu arweinyddiaeth y Brifysgol i gyflawni ein dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys neilltuo mwy o amser yng nghyfarfodydd wythnosol y Bwrdd ar gyfer trafodaethau strategol yn ogystal â thri diwrnod cwrdd i ffwrdd estynedig. Roedd meysydd gweithgaredd allweddol eraill yn cynnwys goruchwylio Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio a Chyllidebu i nodi opsiynau ar gyfer tynnu costau allan o'r sefydliad, cymeradwyo'r achos dros newid Gwasanaeth Ymchwil y Dyfodol, Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd 2025-27 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.



# Datganiad Blynyddol ar Bolisi Tâl

**Mae'r Polisi Tâl hwn yn egluro'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch tâl, yn arbennig tâl uwch-aelodau o staff.**

## Tâl uwch-aelodau o staff

Mae pob uwch-aelod o staff yn cael ei gynnwys ym Mholisi Tâl Uwch-aelodau o Staff y Brifysgol, a gyhoeddir yn flynyddol. Mae'r polisi hwn yn adolygu perfformiad bob dwy flynedd ar draws pedwar categori eang ac yn caniatáu gwobrau ar sail perfformiad, yn ogystal ag adolygu ecwiti. Defnyddir data o Arolwg o Dâl Uwch-aelodau o Staff Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau ac Arolwg Grŵp Russell i roi tystiolaeth ar gyfer gwneud unrhyw addasiadau cyflog.

Y Pwyllgor Tâl sy'n pennu'r polisi, a gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl yn Ordinhadau'r Brifysgol. Y Pwyllgor Tâl yw'r corff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sut mae'r Brifysgol yn ymdrin â thâl uwch-aelodau o staff.

Yn rhan o'r rôl hon, mae'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyflog yr unigolion uchaf yn y Brifysgol, gan gynnwys cyflog yr Is-Ganghellor.

Cyngor y Brifysgol, sef prif awdurdod y Brifysgol, sy'n penodi aelodau'r Pwyllgor Tâl, ac mae'r Pwyllgor yn atebol i'r Cyngor hwn.

Mae'r Pwyllgor Tâl yn adolygu ac yn pennu tâl, buddion ac amodau cyflogaeth y Llywydd a'r Is-Ganghellor a'r rhai sy'n adrodd iddynt yn uniongyrchol.

Mae'n awdurdodi'r Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-aelodau o Staff i wneud argymhellion ynglŷn â thâl athrawon ac uwch-aelodau o staff nad yw'r Pwyllgor ei hun yn ymdrin â nhw.

Mae nifer y staff sy'n cael eu talu dros £100,000 yn cael ei chyhoeddi yn y cyfrifon ariannol ac wedi'i rhannu'n fandiau cyflog o £10,000. Mae'r treuliau a ad-dalwyd yn uniongyrchol i uwch-aelodau o staff sy'n aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol hefyd yn cael eu cyhoeddi. Mae hawliadau treuliau a thaliadau a wnaed i uwch-aelodau o staff y Brifysgol yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol y Brifysgol. Mae'r rhain yn berthnasol i bob aelod o'r staff ac maent yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol gan Gyngor y Brifysgol.

## Tâl yr Is-Ganghellor

Pennir tâl yr Is-Ganghellor gan y Pwyllgor Taliadau, sy'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol o'r Cyngor, drwy'r broses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau Staff. Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor hefyd yn cael ei adolygu yn unol â dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer y sector Addysg Uwch.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno asesiadau perfformiad i'r Pwyllgor Tâl yn rhan o'r broses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau Staff. Mae'r penderfyniad terfynol ar y gwobrau a roddir ar gyfer asesiadau perfformiad cymharol yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Taliadau Yn unol â'r broses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau Staff, mae cyflog yr Is-Ganghellor hefyd yn cael ei asesu yn erbyn pryderon ynghylch ecwiti a'r farchnad.

Ymhlith y ffactorau sy'n cael eu defnyddio i adolygu perfformiad yr Is-Ganghellor yw:

- arweinyddiaeth, rheolaeth, a phrofiad academaidd yr Is-Ganghellor yn y sector addysg uwch.
- hyd a lled yr arweinyddiaeth a chyfrifoldebau ariannol dros y Brifysgol.
- Perfformiad y Brifysgol yn unol â'r strategaeth a'r metrigau y cytunwyd arnynt.

## Tâl grwpiau eraill o staff

Mae mwyafrif y staff eraill ar raddfa dâl y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol (NFA) ac yn dod o dan strwythur graddio'r Brifysgol, sy'n cynnwys naw gradd. Mae methodoleg gwerthuso rolau y broses Dadansoddi Rolau Addysg Uwch (HERA) a HAY yn cefnogi'r graddau hyn.

Mae staff ar raddfeydd cyflog y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol yn cael codiad cyflog blynyddol sy'n seiliedig ar feithrin rhagor o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, a hynny hyd nes iddynt gyrraedd brig amrediad craidd y raddfa dan sylw. Maent hefyd yn cael unrhyw godiad cyflog y cytunir arno'n genedlaethol.

Mae staff clinigol ar y Raddfa Gyflog Glinigol, sydd yr un fath â graddfeydd cyflog y GIG. Mae staff clinigol yn cael codiad cyflog blynyddol sy'n seiliedig ar feithrin rhagor o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, a hynny hyd nes iddynt gyrraedd brig amrediad y raddfa. Mae ymgynghorwyr clinigol hefyd yn ennill dyfarniadau ymrwymiad sydd uwchlaw brig amrediad y raddfa ymgynghorol.

Mae'r Cynllun Gwobrwyo Cyfraniad Rhagorol yn cydnabod perfformiad a chyfraniad eithriadol drwy wneud taliadau untro a symud staff i fyny ar y raddfa dâl.

## Cyflogwr Cyflog Byw

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyflog byw achrededig ac, o ganlyniad, mae pob aelod o staff.

## Cymhareb Tâl

Mae'r cymarebau rhwng cyflog yr Is-Ganghellor a chyflog canolrifol staff, ynghyd â chyfanswm tâl yr Is-Ganghellor a chyfanswm tâl canolrifol staff, wedi'u cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

## Polisi gadael

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cael ei hysbysu ddwywaith y flwyddyn am unrhyw gytundebau setlo, gan gynnwys unrhyw daliadau diswyddo gwirfoddol, ar gyfer athrawon, cyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol ac uwch-aelodau o staff, ynghyd â manylion y taliad diswyddo a'r arbediad i'r Brifysgol. Bydd unrhyw ddiswyddiadau sy'n ymwneud ag academyddion ac uwch-staff yn gorfod dilyn prosesau diswyddo'r Brifysgol.

# Adolygiad Ariannol

## Cyflwynodd y Brifysgol ddiffyg gweithredol o £31.2 miliwn yn 2023/24 cyn amhariadau a'r newid yn narpariaethau'r cynllun pensiwn.

Mae'r sector Addysg Uwch ar drobwynt sylfaenol, gyda'r potensial y bydd polisïau Llywodraeth y DU a Chymru yn y dyfodol effeithio ar berfformiad ariannol. Rydyn ni'n wynebu heriau wrth ddiwallu anghenion buddsoddi ar gyfer cyfleusterau a pholisïau amgylcheddol ac wedi parhau i wynebu heriau economaidd difrifol yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024. Mae costau cynyddol wedi parhau i roi straen ar gyllideb y brifysgol ac er gwaethaf y gostyngiad mewn chwyddiant yn ystod y flwyddyn, mae'r lefelau uchel cynharach wedi cael effaith barhaol. Roedd y twf mewn refeniw ffioedd dysgu yn is na'r disgwyl. Fe'i rhwystrwyd gan effaith cyfyngiadau fisa newydd ac ansicrwydd economaidd byd-eang parhaus ar y farchnad myfyrwyr rhyngwladol. Mae cyfraddau llog wedi parhau'n uchel yn ystod y flwyddyn sydd wedi arwain at incwm buddsoddi uwch ac mae gwerth ein portffolio buddsoddi hefyd wedi cynyddu sy'n adlewyrchu perfformiad y marchnadoedd byd-eang.

Rydyn ni'n canolbwyntio ar gynllunio ariannol strategol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gan gynnwys cyllidebu gofalus a monitro perfformiad ariannol i gyd-fynd ag amcanion strategol.

Mae ein hymrwymiad i gynnig profiad addysgol rhagorol i fyfyrwyr o bob cefndir a phrofiad yn parhau, gan gynhyrchu gwybodaeth newydd a darparu buddion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Rydyn ni'n cydnabod effaith heriau economaidd ar ein cymuned a byddwn yn parhau i gefnogi myfyrwyr a staff trwy ddarparu profiad cadarnhaol mewn amgylchedd campws diogel.

Mae gan y Brifysgol hylifedd tymor byr digonol i'n galluogi i ddelio â'r elfennau ansicr hyn. Fodd bynnag, rydyn ni'n ymdrechu i ddychwelyd sylfaen costau'r Brifysgol i sefyllfa lle gallwn fforddio talu am ein holl weithgarwch ar sail hirdymor cynaliadwy.

Mae'r diffyg gweithredu sylfaenol o £31.2 miliwn yn cysoni â chyfanswm y gwarged o £177.3 miliwn fel a ganlyn:

| Crynodeb o ganlyniadau'r grŵp | 2023/24 £miliwn | 2022/23 £miliwn |
|---|---|---|
| Cyfanswm y gwarged cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 177.3 | 28.9 |
| Amhariad ar ailbrisio asedau | - | 3.0 |
| (Enillion)/colledion ar brisio buddsoddiadau | (36.9) | 5.6 |
| Colledion ar waredu asedau sefydlog | 0.2 | 2.3 |
| (Enillion) / colledion actiwarïaidd ar bensiynau | 3.4 | (15.5) |
| **(Diffyg)/Gwarged cyn enillion/ (colledion) eraill** | **144.0** | **24.3** |
| Symudiadau pensiwn eraill | (5.8) | (10.2) |
| Credyd y ddarpariaeth pensiwn USS | (162.8) | (27.4) |
| Colledion/(enillion) eraill | (6.6) | 0.6 |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu sylfaenol** | **(31.2)** | **(12.7)** |

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 yn cyfuno canlyniadau'r Brifysgol, ei his-gwmnïau University College Cardiff Consultants Limited ac International Learning Exchange Limited ("Taith"), a chyd-fenter Medicentre Caerdydd.

### Cynnydd o 2.0% yn yr incwm i £649 miliwn


Yn 2023/24 tyfodd cyfanswm yr incwm o £636.4 miliwn i £649.1 miliwn yn bennaf oherwydd:

- twf mewn ffioedd dysgu (cynnydd o £17.7 miliwn neu 6% i £328 miliwn). Roedd hyn yn dilyn gostyngiad mewn incwm ffioedd dysgu yn 2022/23. Ein disgwyliadau eleni oedd i ffioedd dysgu adlamu ymhellach nag y gwnaethant – credwn na chyflawnwyd y disgwyliadau hyn yn bennaf oherwydd ffactorau'r amgylchedd allanol a nodwyd eisoes uchod.
- incwm arall (cynnydd o £4.3 miliwn neu 4.7% i £95.1 miliwn).
- rhoddion a gwaddolion (cynnydd o £2.8 miliwn neu 199% i £4.2 miliwn). O'r twf hwn roedd £1.3 miliwn yn cynrychioli trosglwyddiad tir o Gyngor Dinas Caerdydd i'r Brifysgol yng nghyfleusterau chwaraeon y Brifysgol yn ardal Llanrhymni'r ddinas. Roedd hyn yn rhan o bartneriaeth ehangach rhwng y Brifysgol, Cyngor Dinas Caerdydd a Chlwb Pêl-droed Dinas

# Adolygiad Ariannol

Caerdydd i wella ansawdd y cyfleusterau hyn ar gyfer y Brifysgol a'i myfyrwyr, chwaraeon elitaidd y ddinas a thrigolion y ddinas. Er bod trosglwyddo tir yn cael ei gydnabod fel incwm yng nghyfrifon y Brifysgol ni wnaed unrhyw daliadau arian parod gwirioneddol fel rhan o'r trafodyn hwn; ac

- incwm buddsoddi (cynnydd o £2 miliwn neu 21% i £11.7 miliwn).
- Gwrthbwyswyd hyn gan ostyngiad mewn incwm ymchwil (gostyngiad o £7.1 miliwn neu 5.3% i £126.5 miliwn) a grantiau cyrff cyllido (gostyngiad o £7 miliwn neu 7.7% i £83.2 miliwn).





Mae ein 27,649 o fyfyrwyr yn cynnwys y canlynol:

| Nifer y myfyrwyr | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Israddedigion | 22,416 | 21,791 |
| Ôl-raddedig a Addysgir | 3,743 | 3,942 |
| Ymchwil Ôl-raddedig | 1,490 | 1,388 |
| **Cyfanswm** | **27,649** | **27,121** |
| Cartref | 22,836 | 22,533 |
| Tramor | 4,813 | 4,588 |
| **Cyfanswm** | **27,649** | **27,121** |

*Wedi'i ailddatgan o'r flwyddyn flaenorol ar ôl cadarnhau niferoedd terfynol y myfyrwyr

Gostyngodd cyllid cyffredinol CCAUC £7 miliwn, gan gynnwys gostyngiad o £5 miliwn mewn incwm grant rheolaidd.





Rhoddwyd mesurau rheoli costau ar waith yn ystod y flwyddyn i reoli pwysau ariannol.

Cynyddodd cyfanswm gwariant, ac eithrio'r newidiadau i ddarpariaethau pensiwn, 4.8% i £680.2 miliwn. Mae'r cynnydd mewn gwariant i'w briodoli'n bennaf i gynnydd mewn costau staff a gwariant ar Adeiladau (a ysgogwyd yn bennaf gan chwyddiant yng nghostau cyfleustodau).

Cynyddodd costau staff 5.4% yn y flwyddyn sy'n adlewyrchu'n bennaf ddyfarniad cyflog o 3% ym mis Awst 2023, a chrynhoi blwyddyn lawn o'r codiad cyflog a wnaed ym mis Chwefror 2023. Cynyddodd niferoedd cyfartalog staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) 1.3% i 6,253 yn bennaf mewn meysydd academaidd gan adlewyrchu newidiadau i arferion cyflogaeth ar gyfer ymchwilwyr Ôl-raddedig. Roedd costau staff fel cyfran o'r incwm yn 59.0%, sy'n gynnydd ar y flwyddyn flaenorol (57.1%). Mae rheolaethau recriwtio a chynllun diswyddo gwirfoddol wedi'u cyflwyno i Flwyddyn Ariannol 24/25 i reoli a lleihau costau staff.

Cynyddodd costau gweithredu £8.3 miliwn i £234.6 miliwn yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd costau cyfleustodau a chynnal a




chadw cynyddol. Mae gwariant wedi'i gyfyngu i feysydd busnes-gritigol lle bo'n bosibl i leddfu pwysau ariannol.

## Darpariaeth Pensiwn USS wedi'i ddileu

Mae Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), y mae Prifysgol Caerdydd yn aelod-gyflogwr ohono, yn darparu pensiynau i staff academaidd a phroffesiynol. Mae datganiadau ariannol y Brifysgol yn adlewyrchu'r prisiad actiwaraidd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023, pan symudodd y cynllun o ddiffyg i sefyllfa ased. O'r herwydd, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i chydnabod yng nghyfrifon blynyddol 23/24. Rhyddhau darpariaeth y flwyddyn flaenorol sy'n cyfrannu'n bennaf at warged cynhwysfawr y Brifysgol am y flwyddyn.

## Gwarged arian parod gweithredol o £1.8 miliwn

Cyflawnodd y Brifysgol fewnlif arian gweithredol yn ystod y flwyddyn o £1.8 miliwn neu 0.3% o incwm. Ar ôl gwasanaethu dyled, gwariant asedau sefydlog pellach a thynnu arian mewn buddsoddiadau, cynyddodd arian parod a chronfeydd arian parod wrth gefn y Brifysgol £69.2 miliwn i £105.4 miliwn (gweler y Datganiad Llif Arian ar dudalen 54).


Ar 31 Gorffennaf 2024 cyfanswm cronfeydd arian parod wrth gefn y Brifysgol a buddsoddiadau cyfredol oedd £426 miliwn (2023 £427

miliwn), er bod hyn yn cynnwys £75.7 miliwn wedi'i neilltuo'n Gronfa Ad-dalu Bondiau (gweler Nodyn 24) a chronfa waddol o £53.1 miliwn.

Mae'r Brifysgol wedi cynnal cronfeydd wrth gefn digonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr, ond mae ymdrechion yn canolbwyntio ar ddychwelyd i sefyllfa gref i fynd i'r afael â heriau ariannol yn y dyfodol.

## Buddsoddiadau

Roedd y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 yn flwyddyn dda i farchnadoedd ariannol byd-eang. Mae perfformiad ein portffolios buddsoddi yn adlewyrchu hyn gyda balansau buddsoddi yn cynyddu £36.9 miliwn (gostyngiad o £5.6 miliwn yn 2022/23) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, aeth y Brifysgol i gost llog net o £1.5 miliwn, gostyngiad o £2.1 miliwn ar gost y flwyddyn flaenorol.




## Benthyciadau

Roedd cyfanswm y benthyciadau yn £426.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, gyda £420.3 miliwn o hyn yn gyfanswm y bond cyhoeddus. Cyhoeddwyd y ddyled Bond Cyhoeddus hon ar werth enwol o £400 miliwn a chyfradd llog enwol o 3.0% y flwyddyn ac mae'n ad-daladwy yn 2055. Mae Moody's wedi asesu'r bond yn A1 gyda rhagolwg sefydlog.

Mae'r Brifysgol, hyd yma, wedi neilltuo £58.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn i gronfa ad-dalu bondiau sy'n cael ei buddsoddi ar sail enillion llwyr gyda'r nod o allu ariannu ad-dalu'r bond o £400 miliwn yn 2055. Ar 31 Gorffennaf 2024 prisiad y gronfa oedd £75.7 miliwn.

Roedd gan y Brifysgol Gyfleuster Credyd Cylchol tair blynedd o £20 miliwn gyda Lloyds Bank i dalu gofynion cyfalaf gweithio. Ni ddefnyddiwyd y cyfleuster a daeth i ben ym mis Gorffennaf 2024. Yn dilyn dyddiad y fantolen mae'r Brifysgol wedi cytuno ar gyfleuster credyd cylchdro newydd o £60 miliwn gyda HSBC.

## Cryfder y Fantolen

Ar 31 Gorffennaf 2024, roedd asedau net cyfunol y Brifysgol wedi cynyddu 26.1% i £855 miliwn (£678 miliwn yn 2023) gyda £506 miliwn neu 57% o hyn yn cynrychioli cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig. Ysgogir hyn yn bennaf gan gyfrifo pensiynau USS a symudodd y cynlluniau i warged yn y prisiad diweddaraf.

Mae'r Brifysgol wedi rheoli heriau niferus y flwyddyn ddiwethaf yn llwyddiannus oherwydd ymrwymiad sylweddol ein staff. Er na chânt eu hadlewyrchu ar fantolen y Brifysgol, ein staff yw ein hased pwysicaf a mwyaf gwerthfawr o hyd.

## Sicrhau cynaliadwyedd

Mae'r dirwedd ariannol ar gyfer prifysgolion wedi dod yn fwyfwy heriol. Yn y tymor byr bydd ansicrwydd economaidd byd-eang a'r sefyllfa geo-wleidyddol yn parhau i osod heriau o ran rhagweld a chyflawni sefyllfa ariannol gref.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i godi'r cap ar ffioedd dysgu myfyrwyr domestig i £9,250 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, disgwylir i'r refeniw dysgu domestig gynyddu yn 2024/25. Mae'r gostyngiadau yng ngrantiau'r corff cyllido Medr, yr asiantaeth sy'n cymryd lle CCAUC yn 2024/25, wedi mwy na gwrthbwyso hyn. Nodwn y penderfyniad gan San Steffan y bydd modd cynyddu ffioedd Lloegr yn 2025/26 i £9,535 ond rydyn ni'n dal i aros am benderfyniadau pellach gan Lywodraeth Cymru am yr hyn mae hynny'n ei olygu i Ffioedd Cymru. Yn y cyfamser, bydd angen i ni amsugno'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ychwanegol a gyhoeddwyd yn Natganiad Cyllideb Hydref y Canghellor.

Yn unol â strategaeth newydd y Brifysgol, byddwn yn parhau i gystadlu am fyfyrwyr yn y farchnad ryngwladol hynod gystadleuol. Er ei bod yn hanfodol ein bod yn gallu parhau i ddenu a chadw myfyrwyr dawnus o'r DU a thramor, byddwn yn mynd ati i geisio amrywio ein ffrydiau incwm. Mae hyn yn cynnwys incwm ymchwil ac edrych ar gyfleoedd refeniw newydd. Mae Prifysgol Caerdydd yn cydweithio â menter i feithrin arloesedd a chefnogi twf economaidd. Mae'r cydweithio hwn yn helpu i gynhyrchu incwm ychwanegol ac yn cryfhau rôl y brifysgol yn yr economi leol.

Bydd gostwng cyfraddau chwyddiant yn golygu na fydd yr heriau ariannol yn cynyddu mor gyflym ag y maent wedi'i wneud yn ddiweddar. Bydd angen i ni barhau i reoli ein sylfaen costau yn ofalus yn 24/25. Mae hyn yn cynnwys cyfyngu recriwtio i swyddi sy'n hanfodol i'r busnes, cynnig cynllun diswyddo gwirfoddol a lleihau maint yr ystâd lle bo modd. Rydyn ni wedi esbonio'n glir i'r staff na allwn ddiystyru'r angen am ddiswyddiadau gorfodol wrth i ni symud drwy'r cyfnod hwn.

Ein metrig perfformiad ariannol allweddol yw sicrhau gwarged gweithredu cyn incwm buddsoddi a dibrisiant o fwy na 12% o'r incwm. Mae hyn yn ein galluogi i gynhyrchu digon o lifau arian i gynnal a gwella cyfleusterau'r Brifysgol a chadw cronfeydd wrth gefn sy'n ddigonol i ymdopi ag unrhyw heriau economaidd rhesymol ragweladwy. Yn 2023-24, cyflawnwyd 6.4% (10.7% yn 2022-23) mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r Brifysgol yn sganio'r gorwel risg yn barhaus ac yn diweddaru ei chofrestr risgiau yn rheolaidd. Mae pob risg yn cael ei graddio yn nhermau effaith a thebygolrwydd, ac mae camau lliniaru risg yn cael eu

cofnodi a'u monitro. Mae'r gofrestr risgiau yn cael ei thrafod a'i monitro gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a chan y Cyngor. Dangosir y prif risgiau i'r Brifysgol a'r modd y cânt eu lliniaru yn y tablau ar dudalennau 40 i 47.


Mae ymrwymiadau cyfalaf y Brifysgol o £19.4 miliwn (2023 £20.0 miliwn) yn sgil buddsoddiad hanfodol yn yr ystâd. Mae ein hymrwymiadau prydles gweithredu o £37.1 miliwn (£38.4 miliwn yn 2023) hefyd yn llai wrth i'r Brifysgol geisio cael gwared ar eiddo ar brydles lle bo modd.

## Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Mae polisi cronfeydd wrth gefn y Brifysgol yn cydbwyso'r gofyniad ar i'r Brifysgol wario ei hincwm o fewn amser rhesymol i'w dderbyn a'r angen i reoli ansicrwydd a sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, a thrwy hynny ddiogelu gweithgareddau'r Brifysgol yn y dyfodol.

Mae cenhadaeth y Brifysgol yn ymrwymiad hirdymor ac er bod y Cyngor yn gwario'r holl arian y mae'n ei dderbyn at y genhadaeth o fewn amser rhesymol i'w dderbyn, mae hefyd yn ystyried ei bod yn ddoeth cadw cronfa hylifol o "gronfeydd rhydd" i sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor gwaith y Brifysgol.
Wrth bennu lefel y "cronfeydd rhydd" i'w cadw wrth gefn, mae'r Cyngor yn ystyried anghenion y Brifysgol yn y dyfodol a risgiau ariannol posibl. Yn benodol, mae'r Cyngor yn ystyried, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau:

- y rhagolygon ar gyfer lefelau incwm yn y blynyddoedd i ddod, gan gymryd i ystyriaeth ddibynadwyedd pob ffynhonnell incwm a'r rhagolygon ar gyfer agor ffynonellau newydd.
- y rhagolygon gwariant yn y blynyddoedd i ddod ar sail gweithgaredd a gynllunnir.
- cyllid sydd ei angen ar gyfer anghenion seilwaith penodol a datblygiadau cyfalaf.
- ei ddadansoddiad o unrhyw anghenion, cyfleoedd, trefniadau wrth gefn neu risgiau yn y dyfodol nad yw eu heffeithiau yn debygol o gael eu lliniaru gydag incwm os a phan fyddant yn codi.
- ei allu i dalu ei ad-daliadau dyled wrth iddynt ddod yn ddyledus. I'r perwyl hwn mae'r Brifysgol wedi sefydlu "Cronfa Ad-dalu Bondiau" ar wahân (gweler nodyn 24 am fanylion pellach).




- ei asesiad, ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, o'r tebygolrwydd y bydd pob un o'r anghenion, cyfleoedd, cynlluniau wrth gefn neu risgiau hyn yn codi a'r canlyniadau i'r Brifysgol os na fydd yn gallu eu diwallu.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r polisi hwn ac yn asesu a chyfrifo lefel y "cronfeydd rhydd" bob blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi gosod y lefel ddisgwyliedig o "gronfeydd rhydd" anghyfyngedig ar £100 miliwn sy'n cynrychioli tua dau fis o wariant y Brifysgol.

Nid yw'r "cronfeydd rhydd" hyn yn cynnwys arian a godwyd drwy ddyroddi dyled hirdymor, sydd wedi'i ddynodi ar gyfer gwariant ar brosiectau buddsoddi strategol y disgwylir iddynt sicrhau enillion hirdymor, a chronfeydd cyfyngedig a chronfeydd gwaddoledig, na ellir eu defnyddio ond ar gyfer at y dibenion y cawsant eu rhoi i'r Brifysgol.

O'r £426 miliwn o arian parod a buddsoddiadau'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2024, mae £41 miliwn ar gael i'w wario.

**Darren Xiberras**
**Prif Swyddog Ariannol**

**John Shakeshaft**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

27 Tachwedd 2024

# Adroddiadau Amgylcheddol

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth o ran cynaliadwyedd a gwella ein perfformiad amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw creu dyfodol cynhwysol, cynaliadwy a chadarn i'n cymuned gan sicrhau buddiannau amgylcheddol i Gaerdydd a Chymru yn ogystal â'r byd ehangach.

Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'n gwerthoedd ac er mwyn ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ym mhob agwedd o'n gweithgareddau academaidd a'n gwasanaethau gweithredol.

Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd trwy addysg, lledaenu gwybodaeth a chyfranogiad unigol, gan alluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol, yn enwedig o ran ein datganiad ynghylch Argyfwng Hinsawdd a'n nod i fod yn garbon sero net (Cwmpasau 1 a 2) erbyn 2030. Byddwn yn galluogi ein myfyrwyr, ein graddedigion, a'n staff i ddod yn ddinasyddion cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas ac yn weithgar o fewn eu cymunedau. Byddwn ni'n sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ystyriaeth bwysig wrth wneud pob penderfyniad mawr, yn hyrwyddo materion ac egwyddorion cynaliadwyedd gyda'r holl staff, y myfyrwyr a rhanddeiliaid, ac yn defnyddio ein hymchwil arloesol i wella cynaliadwyedd byd-eang.


Mae ein nodau sylfaenol yn deillio ac wedi'u haddasu o Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, Deddf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru a Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:


- Prifysgol lewyrchus – Cymuned arloesol, gynhyrchiol, a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur, gan gynnwys gweithredu yn achos y newid yn yr hinsawdd.
- Prifysgol gydnerth – Prifysgol sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol ac ynddo ecosystemau iach a gweithredol sy'n cynorthwyo cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, gan ymgorffori'r gallu i addasu i newid.
- Prifysgol iachach – Prifysgol sy'n darparu cyfleusterau er mwyn hwyluso ac annog staff a myfyrwyr i wneud dewisiadau iachach o ran teithio, bwyd a ffordd o fyw, sydd yn eu tro yn helpu i wella lles a lleihau llygredd yn lleol ac yn fyd-eang.
- Prifysgol sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Prifysgol a fydd yn ystyried effaith ei gweithgareddau ar ddatblygu cynaliadwy byd-eang a llesiant byd-eang. Byddwn ni'n prynu ynni carbon sero ac yn mabwysiadu arferion defnyddio cyfrifol ar gyfer yr holl nwyddau a gwasanaethau rydyn ni'n eu caffael a'u defnyddio. Byddwn ni hefyd yn mynd ati i alluogi ein hymchwil arloesol i wella cynaliadwyedd byd-eang.

Ein nodau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24 yw:

- Byddwn ni'n meincnodi ein hôl troed carbon gyda phrifysgolion eraill a Sector Cyhoeddus Cymru.
- Byddwn yn cyhoeddi Map at Sero Net, yn amlinellu'r camau y mae angen i ni eu cymryd i gyflawni carbon sero net (Cwmpasau 1 a 2).
- Byddwn ni'n datblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd, a cherrig milltir sy'n cyd-fynd â'r map sero net a'n huchelgeisiau cynaliadwyedd ehangach. Cefnogir ein strategaeth gan gynllun gweithredu blynyddol o fesurau.
- Byddwn ni'n parhau gyda'r rhaglen o "gamau cyflym" i ddatgarboneiddio ein hystâd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni, megis goleuadau LED, paneli solar ffotofoltaig, uwchraddio cyfarpar, ac ehangu ein pwmp gwres cyfredol.

# Adroddiadau Amgylcheddol




- Byddwn ni'n parhau i ystyried a chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwres carbon isel ledled yr ystâd, gan gynnwys ymgeisio am gyllid ar gyfer gwelliannau i ffabrig yr adeiladau.
- Byddwn ni'n datblygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy i helpu i ddeall ac, yn y pen draw, i liniaru allyriadau o'n cadwyn gyflenwi. Mae'r gweithgarwch hwn yn cyfrif am y rhan fwyaf o'n hallyriadau Cwmpas 3.
- Byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i ystyried teithiau busnes carbon isel i staff, sy'n gyfran fawr o'n hallyriadau Cwmpas 3 ar ôl ein cadwyn gyflenwi. Yna byddwn yn dechrau ystyried teithio myfyrwyr.
- Byddwn ni'n parhau i gynnal achrediad i System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001.
- Byddwn ni'n cynyddu newid ymddygiad a gweithgareddau ymgysylltu ar draws y Brifysgol ac yn hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad ymhlith ein swyddogion cydymffurfio amgylcheddol.
- Byddwn ni'n cynyddu cyfranogiad yn LEAF, sy'n canolbwyntio ar ein labordai ac yn adfer Effaith Werdd i'n swyddfeydd a'n mannau addysgu yn gyffredinol.
- Byddwn ni'n parhau i weithio tuag at ein cynllun gweithredu bioamrywiaeth (ERBAP), gan sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau ar draws yr ystâd.

## Allyriadau carbon

Mae Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol wedi'i sefydlu dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor ac mae'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'n gwaith carbon sero net dros y blynyddoedd i ddod. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni carbon sero net ar gyfer Cwmpas 1 (allyriadau uniongyrchol) a 2 (allyriadau anuniongyrchol) erbyn 2030 (yr amserlen i'w hadolygu yn haf 2024, pan fydd ein map trywydd yn cael ei ddrafftio, i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon cyn unrhyw wrthbwyso), a chyn 2050 ar gyfer Cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol o'n gweithgareddau). Dros y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi bod yn datblygu Map Trywydd at Sero Net ar gyfer Cwmpas 1 a 2 a fydd yn helpu i nodi'r prosiectau a'r gweithgareddau sydd angen eu cyflawni wrth weithio at sero net. Ein nod yw cyhoeddi'r map trywydd yn hydref 2024.

Yn ogystal â chyflwyno ein hôl troed carbon 2022/23 i Lywodraeth Cymru fel rhan o ofynion Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus, rydyn ni hefyd wedi adrodd ar ein hallyriadau ar gyfer 2022/23 gan ddefnyddio Fframwaith Allyriadau Carbon Safonol yr EAUC (Cymdeithas Amgylcheddol y Prifysgolion a'r Colegau). am y tro cyntaf. Mae fframwaith EAUC, sy'n seiliedig ar y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, yn safon adrodd wirfoddol a ddatblygwyd ar gyfer y sector Addysg Uwch. Mae safonau adrodd Cwmpas 1 a 2 yn gyson ar draws canllawiau Llywodraeth Cymru a EAUC, gyda'r ddau fframwaith yn dangos mai ein hallyriadau oedd 14,016 t$CO_2$e (Cwmpas 1) a 11,097 t$CO_2$e (Cwmpas 2).

Cafwyd gwelliant o ran casglu data Cwmpas 3 yn 2022/23, gydag adroddiadau ehangach ar allyriadau o ganlyniad i gymudo a theithiau busnes staff ar gyfer y ddau ôl troed. At hynny, mae fframwaith EAUC yn adrodd ar allyriadau Cwmpas 3 gyda lefel uwch o fanylder; mae'n cyfrifo allyriadau caffael ar sail gwariant gan ddefnyddio'r offeryn Allyriadau Cadwyn Gyflenwi Addysg Uwch (HESCET), sy'n cyd-fynd â chategoriadau Addysg Uwch, tra bo Llywodraeth Cymru yn defnyddio codau Dosbarthu Diwydiannol Safonol (SIC) ar gyfer ei chyfrifiadau. Mae fframwaith EAUC hefyd yn cwmpasu teithio myfyrwyr, yn wahanol i fframwaith Llywodraeth Cymru. Felly mae ein Cwmpas 3 a chyfanswm yr allyriadau yn amrywio'n fawr ar draws y ddau fframwaith. O dan ôl troed EAUC, ein hallyriadau Cwmpas 3 oedd 140,301 t$CO_2$e, o'i gymharu â 71,492 t$CO_2$e fel y cyfrifwyd dan ganllawiau Llywodraeth Cymru; cyfanswm ein hallyriadau ar gyfer 2022/23 oedd 165,313 t$CO_2$e yn ôl SCEF EAUC a 96,606 t$CO_2$e yn ôl adroddiad Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Er y byddwn yn parhau i gyflwyno ein hôl troed blynyddol i Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n cynnig mabwysiadu ôl troed yr EAUC i fesur cynnydd at sero net.

## Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi

Mae'r rhan fwyaf o'n hallyriadau cwmpas 3 yn ymwneud â nwyddau a brynwyd, gwasanaethau a gwaith. Adroddir ar yr allyriadau hyn yn flynyddol o fewn olion traed EAUC a Llywodraeth Cymru. Er bod yr offer adrodd wedi bod yn ddefnyddiol i sefydlu gwaelodlin, mae angen offer mwy cywir i fonitro cynnydd. Mae'r Gwasanaethau Caffael wedi penodi Arweinydd Caffael Cyfrifol sydd wedi datblygu Map Trywydd o gyflawniadau allweddol dros y 3 blynedd nesaf sy'n ymwneud â pholisi, proses, hyfforddiant, gwaelodlin a recriwtio. Mae'r Map Trywydd 3 blynedd yn dechrau gyda 'Pholisi Caffael Cyfrifol' a 'Chod Ymddygiad Cyflenwyr' a gymeradwywyd ym mis Mai 2024 gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ac a gaiff eu lansio ym mis Gorffennaf 2024 a mis Ionawr 2025 yn eu tro - a chaiff y ddau eu hymgorffori yn y broses gaffael. Mae'r Gwasanaethau Caffael hefyd wedi cynnal Interniaeth Caffael Cyfrifol lwyddiannus ers mis Chwefror 2023 sydd wedi bod yn hollbwysig i'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf.

# Adroddiadau Amgylcheddol

## Cludiant a Theithio

Mae cynllun teithio ymbarél y Brifysgol (2022-2027) wedi'i gymeradwyo i fynd i'r afael â'r effaith y mae teithio i'r Brifysgol yn ei chael ar yr amgylchedd, yr ardal leol ac iechyd a llesiant staff a myfyrwyr. Mae'n gosod dulliau teithio llesol (ar droed, ar feic, ar olwyn) ar frig hierarchaeth deithio gytunedig. Mae'r strategaeth bum mlynedd, sy'n cyd-fynd â pholisi lleol a chenedlaethol ac arfer gorau, yn cynnwys dull canolbwyntiedig bob blwyddyn ar elfennau allweddol o'n gweithrediadau trafnidiaeth. Ochr yn ochr â'r adolygiad canolbwyntiedig, mae yna gynllun gweithredu o fesurau a fydd yn annog ac yn cefnogi'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy. Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 bydd ffocws y cynllun teithio ar ystyried teithio myfyrwyr (gan gynnwys adolygu teithiau rhyngwladol myfyrwyr).

## Gwastraff ac Ailgylchu

Yn ystod 2022/23, roedd y ffocws ar ddatblygu tîm i sbarduno Lleihau Gwastraff ar gyfer y Brifysgol. Ymunodd ein Rheolwr Lleihau Gwastraff â'r Brifysgol ddechrau mis Gorffennaf 2023. Mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar gwblhau Archwiliadau Gwastraff ac Ailgylchu o adeiladau allweddol y Brifysgol i ddeall y sefyllfa bresennol a nodi cyfleoedd pellach i leihau gwastraff ac ailgylchu. Mae ansawdd casglu'r data gwastraff wedi gwella'n fawr ac mae'n fwy cynhwysfawr nag erioed, gyda'r holl ffrydiau gwastraff bellach wedi'u casglu. Mae'r data ar gyfer 2021/22 wedi'u gosod fel gwaelodlin newydd ar gyfer mesur ac adrodd ar ein cyflawniadau wrth leihau gwastraff ac ailgylchu.

Mae ein cynllun gwastraff ac ailgylchu cyffredinol wedi parhau i weithredu'n dda, ac mae mentrau newydd yn cael eu datblygu, er enghraifft cyflwyno cynllun ailddefnyddio dodrefn ar draws y Brifysgol. Byddwn ni hefyd yn cyflwyno mwy o weithgareddau cyfathrebu am wastraff i godi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr o bwysigrwydd ailgylchu gyda'r nod o annog ymddygiad ailgylchu mwy effeithiol a mwy o gyfranogiad. Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, bydd y ffocws ar ddatblygu Strategaeth Lleihau Gwastraff mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Caffael, a bydd hyn yn cynnwys mentrau newid ymddygiad sylweddol i ddargyfeirio deunydd ailgylchu o'r ffrwd wastraff gyffredinol a lleihau gwastraff yn gyffredinol. Bydd ffocws allweddol arall ar wella ansawdd deunyddiau wedi'u hailgylchu, yn unol â nodau'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024.

## Safleoedd Effaith THEs

Safleoedd Effaith y *Times Higher Education (THE)* yw'r unig dabl perfformiad byd-eang sy'n asesu prifysgolion yn unol â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Mae dangosyddion wedi'u graddnodi yn cynnig cymariaethau cynhwysfawr a chytbwys ar draws tri maes eang: ymchwil, allgymorth a stiwardiaeth.

**Eleni syrthiodd y brifysgol dri safle i safle 55 o blith 1,963 o sefydliadau byd-eang. Er bod hwn yn gwymp, roedd sgôr cyffredinol caerdydd wedi gwella o 91.2% i 91.6%.**

Roedd safle canradd Caerdydd wedi gwella hefyd. Eleni, mae Caerdydd yn y 2.8% uchaf o sefydliadau'n fyd-eang. Y llynedd, gan ei bod yn safle 52 o blith 1,591 o sefydliadau, roedd Caerdydd yn y 3.3% uchaf, sy'n golygu bod safle cymharol y Brifysgol wedi gwella.

Cyflwynodd Prifysgol Caerdydd ddata ar 12 o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig, sef cynnydd o ddau o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr NDCau ychwanegol oedd NDC9: Diwydiant, Arloesi a Seilwaith, a NDC 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

Bellach, mae gan Brifysgol Caerdydd dri NDC yn y 50 uchaf, o gymharu â phedwar y llynedd::

- NDC14: Bywyd o dan y Dŵr - 9fed safle, i lawr o 6ed (3ydd yn y DU)
- NDC15: Bywyd ar y Tir – 36ain, i lawr o 11eg (15fed yn y DU)
- NDC16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf - 47ain, i fyny o 81ain (10fed yn y DU)

Mae NDC12: Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol a NDC3: Iechyd Da, wedi disgyn allan o'r 50 uchaf.

Syrthiodd y Brifysgol o safle 87 y llynedd i safle rhwng 201 a 300 eleni o ran NDC17 sy'n orfodol: Partneriaethau i Gyflawni'r Nodau.

Cynhyrchir y safle cyffredinol o'r sgôr ar gyfer NDC gorfodol 17 (22%), ynghyd â'r tri cryfaf oblith y NDCau eraill a gyflwynwyd (26% yr un). Mae sgôr y safle cyffredinol yn gyfartaledd o gyfanswm sgorau'r ddwy flynedd ddiwethaf.

## Rhwydwaith Hyrwyddwyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC)

Eleni mae'r Tîm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ADC) wedi datblygu a darparu trosolwg o gynllun gweithredu ADC ar gyfer 2024-2030, sy'n amlygu camau gweithredu angenrheidiol ar lefel sefydliadol i gyflawni trawsnewid cynaliadwy cyfannol. Mae'r cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a chefnogaeth yr Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Mae'r Grŵp Llywio a Rhwydweithiau ADC y Colegau wedi cyfarfod yn rheolaidd i gefnogi datblygiad y cynllun gweithredu a chyflawni'r camau gweithredu cychwynnol ar gyfer y cyfnod Ionawr – Medi 2024. Mae'r rhain wedi cynnwys: cysylltu â Dyfodol Myfyrwyr i barhau i ymgorffori cynaliadwyedd a gwerthoedd cynaliadwy drwy eu holl weithgareddau; atgyfnerthu cysylltiadau ag Undeb y Myfyrwyr gyda chyd-amcan i gofrestru ar gyfer fframwaith SOS Responsible Futures, cefnogi prosiect 1 mewn 5 i hyrwyddo traethodau hir a phrosiectau ar bynciau cynaliadwyedd, cynnydd tuag at bresenoldeb ar y we ar gyfer ADC a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, lansio rhwydwaith Cynaliadwyedd Sprout Egin i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, hyrwyddo llais myfyrwyr ar Gynaliadwyedd, a gwreiddio gwerthuso NDC mewn prosesau ail-

ddilysu rhaglenni fel peilot mewn Cemeg.

Hefyd lansiwyd menter labordai byw ym mis Mehefin, sy'n gyfle i fod yn greadigol a chyflwyno heriau bywyd go iawn i fyfyrwyr, gan sbarduno Prifysgol Caerdydd i fod yn labordy byw. Cafodd y digwyddiad dderbyniad cadarnhaol a chofrestrodd 14 o staff Gwasanaethau Proffesiynol; Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr a 43 o gynrychiolwyr o hanner yr Ysgolion academaidd i ddod i'r digwyddiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cyflwynwyd cyfres o gefnogaeth i staff addysgu a dysgu yn ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a hynny trwy gydweithio â'r Academi Dysgu ac Addysgu. Mae hyn wedi cynnwys diweddariadau pellach i becyn cymorth ar-lein y Gwasanaeth Datblygu Addysg a chyflwyno cyfres o weithdai i gefnogi a datblygu dealltwriaeth staff a gweithrediad Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy mewn ymarfer addysgu (o ddechreuwyr i arbenigwyr). Mae ADC hefyd wedi'i phlethu trwy gymrodoriaeth yr AAU a hyfforddiant cymrodoriaeth uwch.

Ym mis Medi 2023, treialwyd gweithgaredd ymsefydlu grŵp â ffocws ar gynaliadwyedd i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf Prifysgol Caerdydd mewn Pensaernïaeth yng Ngholeg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg. Y nod yw galluogi myfyrwyr i adeiladu cymunedau a meithrin ymdeimlad o berthyn yn eu Hysgol a'u carfan yn ystod y cyfnod sefydlu trwy ymgysylltu â phwnc pwysig cynaliadwyedd a'r argyfwng hinsawdd.  Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn ac mae cyflwyno'r un peth mewn Ysgolion a Cholegau eraill ym mis Medi 2024 dan ystyriaeth.


## Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Ecosystemau a Bioamrywiaeth (ERBAP)

Yn 2022-23 cwblhawyd ein gofynion adrodd ar fioamrywiaeth mewn perthynas ag adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Yn y flwyddyn academaidd hon adolygwyd a diweddarwyd ein Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Ecosystemau a Bioamrywiaeth (ERBAP) i sicrhau bod ein gweithgareddau bioamrywiaeth yn parhau'n berthnasol. Mae'r ERBAP diwygiedig yn nodi cyfres o dargedau i'w cyrraedd dros y tair blynedd nesaf rhwng 2024 a 2026.

Mae ein cyflawniadau yn ystod y deuddeg mis diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Sefydlu wyth o Hybiau Bioamrywiaeth ar draws y Brifysgol, dan ofalaeth staff a myfyrwyr sy'n wirfoddolwyr.
- Cynnal gweithdai 'Adeiladu Cartrefi ar gyfer Bywyd Gwyllt' i staff a myfyrwyr y Brifysgol a grwpiau cymunedol lleol a chynnal gweithdai adeiladu gwestai gwenyn, tai adar a draenogod, gyda chyfanswm o 70 o bobl yn cymryd rhan.
- Cofrestru ar gyfer ymgyrch 'No Mow May' Plantlife am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.
- Mabwysiadu trefn dorri/tocio newydd, gan gytuno ar fesurau er budd natur a'r amgylchedd.
- Cofrestru i fod yn hyb ar gyfer Rhaglen Genedlaethol Monitro Draenogod yng Nghymru, mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd a Phartneriaeth Natur Leol Caerdydd ac rydyn ni ar hyn o bryd yn monitro ein safle cyntaf yng Nghaerdydd gyda chamerâu bywyd gwyllt.
- Ym mis Mai 2024, dyfarnwyd Grant Cymunedol WWF-Cymru i ni i gefnogi prosiect peilot 'Ffrindiau Byd Natur: Cysylltu â'n cymdogion trwy fyd natur'. Y nod yw dod â chymunedau at ei gilydd drwy greu amgylchedd trefol llawn natur sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac yn cysylltu pobl â natur ac â'i gilydd. Bydd y prosiect peilot yn bwydo i mewn i brosiect ehangach Gwyrddio Cathays.
- Fel rhan o'r prosiect 'Ffrindiau Byd Natur' cynhaliwyd dau fioblitz peillio ar y campws ar Heol Maendy dros yr haf, gan weithio gyda dwy ysgol gynradd leol, trigolion Heol Maendy, a myfyrwyr y Brifysgol. Hyd yn hyn, mae tua 90 o bobl wedi cymryd rhan yn y prosiect.
- Gyda chefnogaeth Coed Caerdydd, plannwyd saith o goed cyll yn Neuadd Tal-y-bont, naw coeden ffrwythau yng nghefn Adeilad Bute a thua 550 o goed gwrych ar Gaeau Chwarae Llanrhymni.




TO THE BALCONY

# Adroddiadau Amgylcheddol

## Campws Cyfeillgar i Ddraenogod

Dyfarnwyd Achrediad Arian Campws Cyfeillgar i Ddraenogod i'r Brifysgol ym mis Chwefror 2023, ac rydyn ni ar y trywydd cywir i dderbyn Achrediad Aur eleni. Bu'n flwyddyn arall o weithgareddau llwyddiannus a drefnwyd gan ein Hybiau Bioamrywiaeth, sydd wedi arwain at ymwybyddiaeth ehangach o'r bygythiadau y mae draenogod a bywyd gwyllt arall yn eu hwynebu, ac yn gam ymarferol at wella cynefinoedd a hyrwyddo bioamrywiaeth ar draws ein hystâd.

Mae ein Hybiau Bioamrywiaeth yn cynnal nifer o sesiynau codi sbwriel ac arolygon draenogod yn ystod y flwyddyn. Maen nhw hefyd wedi llwyddo i godi arian i Gymdeithas Gwarchod Draenogod Prydain a phedwar gwasanaeth achub draenogod lleol. Rydyn ni bellach yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth achub draenogod lleol, yn cyflenwi tai draenogod a gorsafoedd bwydo a grëwyd o baledi pren iddyn nhw, a throsglwyddo eitemau o ffrwd wastraff y Brifysgol, sydd bellach yn cael eu hailddefnyddio i helpu draenogod. Hefyd, mae gennym bellach o leiaf 27 o 'hyrwyddwyr draenogod' ar y campws wedi'u cofrestru'n swyddogol ar Hedgehog Street.

Cafodd yr ERBAP a'r Campws Cyfeillgar i Ddraenogod eu cynnwys yn un o fodiwlau Ysgol y Biowyddorau a chafwyd y prosiect terfynol israddedig cyntaf yn canolbwyntio ar ddraenogod y campws.

Parhawyd â'n gwaith allgymorth ac ymgysylltu drwy drefnu cyflwyniadau mewnol ac allanol, cynnal cyfres o ddigwyddiadau neu gyflwyno ein stondin ymgysylltu yn ystod Wythnos y Glas, Gŵyl Wyddoniaeth Caerdydd, Wythnos Cynaliadwyedd, Wythnos Ymwybyddiaeth Draenogod, pythefnos Iechyd, Amgylchedd a Lles Cadarnhaol (PHEW), ac yn So, What STEM? a Graddio Ysgolion Cynradd Prifysgol Caerdydd. Hefyd cyflwynwyd cyfres o sesiynau ar ddraenogod mewn ysgolion cynradd lleol a grwpiau cymunedol.

## Newid Camau Caerdydd

Mae Newid Camau yn rhaglen wobrwyo rad ac am ddim i ymuno â hi a ariennir gan y Brifysgol. Mae wedi'i chynllunio i helpu staff a myfyrwyr i symud o gwmpas mewn modd mwy cynaliadwy. Mae'n gwobrwyo teithio cynaliadwy yn achos teithiau cymudo a hamdden i'r campws ac oddi arno, ac yn annog pobl i gerdded, rhedeg, olwyno a beicio'n rheolaidd i ddibenion iechyd a llesiant.

Cofnodwyd 162,000 o deithiau llesol a chynaliadwy ar ap Newid Camau Caerdydd rhwng mis Medi 2023 a mis Gorffennaf 2024, gyda'r cyfartaledd yn 333 o deithiau fesul cyfranogwr. Er bod hyn yn ostyngiad yn nifer y teithiau a gofnodwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae defnyddwyr yr ap yn gwneud llawer mwy o deithiau cynaliadwy (cynnydd o 162 i 333 fesul defnyddiwr). Mae nifer cyfartal o staff a myfyrwyr yn defnyddio'r rhagle.

- Dywedodd 35% o'r defnyddwyr eu bod yn cerdded yn amlach gyda 24% yn cerdded ar ddau ddiwrnod ychwanegol neu fwy yr wythnos o'i gymharu â chyn ymuno â'r fenter.
- Dywedodd 23% o ddefnyddwyr eu bod yn beicio'n amlach. Dywedodd 14% o ddefnyddwyr eu bod wedi dechrau beicio ar ôl ymuno â'r fenter.
- Dywedodd 12% o ddefnyddwyr eu bod yn teithio ar fws yn amlach.
- Dywedodd 58% o ddefnyddwyr eu bod yn gyrru'n llai aml yn gyffredinol.
- Mae tua 78,000 o siwrneiau wedi disodli teithiau car un person, sy'n cyfateb i osgoi llosgi 34,200 kg o $CO_2$.

## Arlwyo Cynaliadwy

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ennill statws Prifysgol Masnach Deg, a gyflawnwyd gyda chefnogaeth y gymuned staff a myfyrwyr, sydd wedi ymgysylltu â digwyddiadau Masnach Deg ac arolwg bwyd cynaliadwy. Rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, bydd Caffi Green Shoots yn cymryd rhan yng nghynllun cwpanau amlddefnydd FOR Cardiff, sef ap lle gallwch fenthyca cwpan amlddefnydd drwy ddefnyddio ap FOR Cardiff wrth y til. Trwy ein prosiectau 'Bwydydd PC' i greu cymuned o amgylch bwyd cynaliadwy, iach a maethlon, mae Prifysgol Caerdydd wedi cyrraedd rownd derfynol y Gwobrau Gynau Gwyrdd ar gyfer Iechyd, Bwyd a Diod ar y Campws. Yn y prosiectau eleni bydd arlwywyr yn gosod codau goleuadau traffig effaith carbon ar eu bwydlenni, ac yn creu tudalennau gwe newydd gyda ffocws ar rannu a chyfathrebu ein prosiectau bwyd cynaliadwy a gwastraff bwyd.

Rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid lletygarwch i helpu i gynyddu'r prosesau ailgylchu gwastraff bwyd. Rydyn ni hefyd yn trydaneiddio ein ceginau trwy gael gwared ar y cyfarpar nwy a diweddaru'r cyfarpar presennol i fod yn fwy ynni-effeithlon. Mae tryciau bwyd symudol Fan Hapus hefyd ar gael i gefnogi digwyddiadau ymgysylltu ar draws y campws, gan gyrchu cymaint o gynnyrch Cymreig lleol ac eitemau Masnach Deg â phosibl.

# Adroddiad Ystadau

Mae Ystâd y Brifysgol yn gweithio at yr amcanion allweddol a amlinellir yn Strategaeth Dros Dro Ystadau 2023-25.

- **Strategol**: Bydd yr ystâd yn cefnogi nodau strategol y Brifysgol o ran ei maint a'i diwyg, profiad myfyrwyr, a'r hyn y mae ein hymchwil yn canolbwyntio arno.
- **Cynaliadwy**: Bydd pob prosiect yn cyfrannu at ein targedau Sero Net.
- **Effeithiol**: Bydd y lle'n cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, bydd cyfanswm y lle'n cael ei leihau a'i ddefnyddio'n well.
- **Teg**: Bydd ein hystâd yn un hygyrch, a bydd dyraniad y lle yno'n deg ac yn dryloyw gan gyfeirio at arferion cydnabyddedig o ran lleoedd gwaith.

Caiff yr Ystâd ei rheoli i leihau maint cyffredinol yr ystâd, cynyddu effeithlonrwydd, hygyrchedd, tegwch, a gweithio at nodau sero net y Brifysgol.

Mae cyflwyno tîm sy'n gweithio at Sero Net a chynaliadwyedd o fewn Ystadau wedi galluogi gwell casglu data, archwilio cyfleoedd ariannu a dechrau'r map trywydd i gyflawni Sero Net Cwmpas 1 a 2 a thynnu sylw at oblygiadau hynny ar yr ystâd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi dechrau nifer o brosiectau sy'n targedu triniaeth gyfannol yr ystâd waddol o ran uchelgais strategol, cynaliadwy ac effeithlonrwydd.

Mae symud gwasanaethau proffesiynol o Dŷ McKenzie, 33/34 Plas y Parc a 118 Heol Maendy yn un o'r camau cyntaf i leihau maint cyffredinol yr ystâd a'i gwneud yn fwy effeithlon. Cynhelir y rhaglen gyffredinol o Resymoli Ystadau dros nifer o flynyddoedd wrth i anghenion y Brifysgol yn y dyfodol gael eu pennu a'u cynllunio.

Mae'r Brifysgol wedi llwyddo i gael benthyciad gan Salix sydd wedi galluogi rhaglen o ymyriadau gan gynnwys cyflwyno goleuadau LED ledled y Brifysgol a gosod mwy o baneli solar. Mae'r benthyciad ar gyfradd llog sy'n is na lefel y farchnad ac mae'r contract yr ymrwymir iddo ar gyfer y gwaith yn gwarantu y bydd yr arbedion a wneir drwy'r gwaith arbed ynni yn ad-dalu'r benthyciad. Ynghyd â chryfhau'r tîm Net sero, uwchraddio ein systemau rheoli Adeiladau, a datblygu ein data cyfleustodau, rydyn ni'n cynyddu ein heffeithlonrwydd ynni ac yn gweithio



## Adroddiad Ystadau

tuag at ein huchelgeisiau sero net.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd gwaith adnewyddu i ddarparu hyb y myfyrwyr newydd yn yr Ysgol Busnes, gofod newydd ar gyfer y Rhaglen Addysg Broffesiynol Barhaus a'r Iaith Saesneg a Llyfrgell y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i fynd i'r afael â rhestr o waith cynnal a chadw sydd wedi cronni, effeithlonrwydd ynni ac ailfodelu ac adnewyddu y tu mewn.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd agorwyd cyfleusterau newydd yr Ysgol Gofal Iechyd ar y safle yng Ngorllewin Parc y Mynydd Bychan, sy'n cynnwys gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau presennol y 1950au sydd wedi eu troi'n fannau gwych i addysgu ac ar gyfer myfyrwyr.

Er mwyn gwella profiad hygyrchedd ar draws y campws mae AccessAble wedi lansio canllaw i Brifysgol Caerdydd ar y wefan. Mae hwn yn ganllaw hygyrchedd sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n cynnwys gwybodaeth am hygyrchedd y campws, adeiladau, a'r cyfleusterau sydd ar gael i'r holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Trwy'r wybodaeth a gasglwyd ac arolygon ychwanegol rydyn ni'n cynnal rhaglen barhaus o welliannau hygyrchedd sydd eleni wedi cynnwys rampiau parhaol newydd a lifftiau grisiau i fannau yn y Prif Adeilad rhestredig, agoriadau awtomatig ychwanegol ar gyfer nifer o ddrysau ar draws y campws, yn ogystal ag adnewyddu'r lifftiau'n llawn yn yr adeilad academaidd uchaf.

Mae arolwg Cyflwr newydd wedi'i gwblhau sy'n nodi gostyngiad yn y costau cynnal a chadw sydd wedi cronni i'r Brifysgol. Caiff y wybodaeth hon ei rheoli a'i defnyddio i bennu cynllun cynnal a chadw rhagweithiol parhaus.

Mae'r Strategaeth Ystadau Preswyl wedi'i chwblhau. Mae'n nodi'r cyflenwad a'r ansawdd sydd eu hangen ar gyfer ein llety Prifysgol ar gyfer y dyfodol a'r gwaith adnewyddu, dymchwel ac adeiladu newydd sydd ei angen i gyflawni hyn. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud nawr i nodi opsiynau ariannu a chyflawni ar gyfer cam cyntaf rhaglen breswyl.

Mae'r Brifysgol yn parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer Ysbyty Athrofaol newydd a gofod addysgu ac ymchwil cysylltiedig.





# Datganiad o Fudd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig (rhif 1136855). Ei diben yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb. Mae ei Siarter Frenhinol, a ddyfarnwyd yn y lle cyntaf yn 1884, yn nodi ei threfniadau cyfansoddiadol a'i hamcanion.

Mae'r amcanion hynny'n ymgorffori'r egwyddor syml o hyrwyddo addysg, gan alluogi'r Brifysgol i gynnal gwaith ymchwil, addysgu, arholi, a dyfarnu graddau. Mae'r amcanion hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau i ddatblygu cymeriad myfyrwyr, i hybu iechyd a llesiant – yn enwedig yng Nghymru – ac i gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o'r Grŵp Russell o brifysgolion ymchwil ddwys, ac mae o'r farn bod ymchwil sylfaenol yn hanfodol i ddyheadau dynol ac yn hollbwysig o ran datblygu arteffactau diwylliannol, technolegau a gwasanaethau sy'n gwella ansawdd bywyd i bawb. Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y modd i adrodd am fudd i'r cyhoedd, yn enwedig ei chanllawiau atodol ynghylch hyrwyddo addysg.

Mae strategaeth newydd y Brifysgol – Ein dyfodol, gyda'n gilydd – yn egluro ein llwybr hyd at 2035: sef cyd-greu a rhannu gwybodaeth newydd a darparu byd gwell i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n mapio sut y bydd Prifysgol Caerdydd yn gwella iechyd a lles staff a myfyrwyr; yn dangos sut y byddwn yn cyflawni cynaliadwyedd ariannol trwy arallgyfeirio incwm; ac yn esbonio sut y bydd boddhad a phrofiad myfyrwyr yn gwella. Mae'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i ymgysylltu dinesig ac yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer ymchwil ac arloesi fydd yn golygu y caiff y Brifysgol ei chydnabod yn fyd-eang fel arloeswr.

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd y strategaeth yn adeiladu ar ein hymdeimlad cryf o le yng Nghaerdydd, de Cymru a Chymru yn ehangach. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddefnyddio ein cryfderau ymchwil, arbenigedd, a gwybodaeth i helpu'r llywodraeth, gwasanaethau iechyd a chymdeithas yn ehangach i gefnogi economi dan arweiniad sgiliau. Byddwn yn hyrwyddo prosiectau allweddol sy'n cefnogi ein cymuned amrywiol, a byddwn yn parhau i gyfoethogi a dathlu ein hunaniaeth Gymreig a diwylliant Cymraeg ein campws.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y myfyrwyr yw darparu profiad rhagorol, ansawdd uchel i fyfyrwyr, gan sicrhau bod deilliannau'r graddedigion – boed hynny'n waith, yn addysg bellach neu'n deithio – ymhlith y gorau yn y sector, a'u bod yn gallu cyfrannu at weithlu medrus. Gan adeiladu ar ein hanes cadarn o ehangu cyfranogiad, byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn cael manteisio ar fuddion addysg uwch ac yn cael cymorth i gyflawni eu potensial - amcan sydd hefyd yn cyplysu â gwaith ar gadw myfyrwyr a'u llwyddiant.

Bydd ymchwil y Brifysgol yn helpu i ddatrys heriau mawr mewn meysydd megis newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, iechyd, diogelwch, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol Mae ein cyfleusterau pwrpasol yn caniatáu cydweithrediadau arloesol â diwydiant, llywodraeth a chymdeithas yn ehangach, ac yn cynnig gwell cymorth i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gwaith arloesi a hyfforddiant entrepreneuraidd. Bydd ein hymchwil yn parhau i gael ei chymhwyso'n ymarferol yn ein cymunedau gyda chynnydd yn nifer y cwmnïau deillio rydym ni'n eu creu.

Wrth i ni gydweithio i gyd-greu ein dyfodol, bydd agwedd fyd-eang yn rhedeg trwy'r holl weithgareddau. Byddwn yn meithrin partneriaethau gwirioneddol ddwyochrog gyda sefydliadau ledled y byd a byddwn yn anelu at gau'r bwlch o ran canlyniadau gradd myfyrwyr o wahanol ethnigrwydd.

Dros y deng mlynedd nesaf, drwy ein strategaeth, rydym yn ymrwymo i ddarparu byd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae statws cyfreithiol y Brifysgol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn y lle cyntaf gan y Frenhines Victoria yn 1884 i sefydlu Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy. Nodir amcanion, pwerau a fframwaith llywodraethu y Brifysgol yn ei Siarter a'i Statudau ategol, y cymeradwyodd y Cyfrin Gyngor y diwygiadau diweddaraf iddynt yn 2022.

Mae egwyddorion sylfaenol wedi'u hymgorffori yn y Siarter, megis pŵer y Brifysgol i addysgu, arholi, cynnal ymchwil a dyfarnu graddau. Mae'r Siarter hefyd yn rhoi 'awdurdod goruchaf' i'r Cyngor, yn sefydlu'r Senedd ar gyfer 'trefnu materion academaidd', ac yn sefydlu'r Llywydd a'r Is-Ganghellor fel 'prif swyddog academaidd a gweithredol' a Chadeirydd y Senedd.

Cofrestrwyd y Brifysgol fel elusen yn 2010 (1136855).

## Y Cyngor

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu, ac yn rhinwedd hynny'n brif awdurdod y Brifysgol, sy'n golygu mai'r Cyngor, yn y pen draw, sy'n atebol am ymddygiad a gweithgaredd y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol ac am gytuno ar gyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth). Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 a Chod Ymarfer Pwyllgor Archwilio'r CUC (Mai 2020).

Wrth lunio'r datganiad hwn, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw i'r canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau:

(i) bod ymarfer y Brifysgol yn gyson â phob elfen o God Llywodraethu AU y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion; a

(ii) bod polisïau ac arferion codi arian y Brifysgol yn cyd-fynd yn llwyr â gofynion y Rheoleiddiwr Codi Arian a nodir yng Nghod Ymarfer Codi Arian y Brifysgol. Ni chafwyd unrhyw gŵynion am godi arian yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae ymrwymiad y Brifysgol i holl gyllidwyr y Brifysgol, ac ymrwymiadau ychwanegol i roddwyr dyngarol i'r Brifysgol, ar gael ar wefan y Brifysgol: https://www.cardiff.ac.uk/cy/donate/other-ways-to-give/funders-rights

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r Siarter Lywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn ymrwymiadau'r Siarter; cymeradwyo strategaeth newydd y Brifysgol 'Prifysgol Caerdydd: ein dyfodol, gyda'n gilydd, ein llwybr at 2035' a map trywydd i gefnogi'r gwaith o'i chyflawni ym mis Gorffennaf 2024, sy'n cynnwys nifer o DPAau diwylliant, a fydd yn galluogi gweithredu llawn yn ystod 2024-25. Rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaeth oedd ymgynghori eang â rhanddeiliaid mewnol ac allanol drwy arolygon, gweithdai a chyfweliadau, gan gynnwys staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, cymunedau Caerdydd, athrawon a myfyrwyr addysg bellach, dysgwyr 'hŷn', Llywodraeth Cymru a Busnes. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn y dyfodol bydd yn defnyddio'r un model ymgysylltu effeithiol wrth ddatblygu'r strategaeth newydd.

Mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau o effeithiolrwydd y Cyngor yn rheolaidd, a chynhaliwyd yr adolygiad allanol diwethaf yn 2024. Roedd yr adolygiad yn cynnwys tair elfen: adolygiad allanol o'r berthynas ddwysiambr rhwng y Cyngor a'r Senedd; arolwg o effeithiolrwydd llywodraethu a weinyddir ac a feincnodir yn allanol; a dadansoddiad mewnol o ddata cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Cyngor. Daeth

adroddiad yr adolygiad allanol i'r casgliad y gellid sicrhau'r Cyngor y nodwyd bod llywodraethu academaidd yn 'gwella'. Cymeradwyodd y Cyngor gynllun gweithredu i gefnogi gweithredu ar argymhellion y tair elfen yn yr adolygiad ym mis Mai 2024. Cynhelir yr adolygiad effeithiolrwydd allanol nesaf yn ystod blwyddyn academaidd 2027-28.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd ac mae'n ceisio gwneud ei gwaith mewn modd cyfrifol. Mae ganddi Bolisi Chwythu'r Chwiban (Datgan Budd y Cyhoedd) ar waith er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol i fynegi pryderon sy'n berthnasol i'r cyhoedd.

Mae gan y Cyngor fwyafrif o aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol (a ddisgrifir fel aelodau annibynnol). Mae aelodau'r Cyngor yn cynnwys staff a myfyrwyr hefyd. Caiff aelodau annibynnol y Cyngor eu recriwtio mewn modd agored, teg a thryloyw, a rhoddir sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywiaeth, yr angen i gydbwyso sgiliau ac arbenigedd, yn ogystal â lleoliad daearyddol. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i amrywiaeth yn yr ystafell bwrdd, rydyn ni'n parhau i adeiladu ar gamau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i hyrwyddo a datblygu diwylliant a llywodraethu cynhwysol (mewnol) trwy fynd i'r afael ag amrywiaeth yn y pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau. Rydyn ni'n parhau i ddefnyddio ac adolygu data cydraddoldeb i lywio prosesau ar gyfer recriwtio a sefydlu aelodau annibynnol.

Cadarnhaodd yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu diweddar fod aelodaeth y Cyngor i raddau helaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y sefydliad, gan gynnwys mewn perthynas â rhywedd ac ethnigrwydd, a'i fod yn perfformio'n dda o gymharu â chyrff llywodraethu eraill yn y sector. Nododd yr adolygiad diweddaraf o ddata cydraddoldeb amrywiaeth a chynhwysiant y Cyngor fod cyflawni mwy o amrywiaeth mewn perthynas ag oedran a chrefydd yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer recriwtio aelodau annibynnol yn ystod 2024-25 fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar ôl gwneud cynnydd eisoes mewn perthynas ag amrywiaeth oedran fel rhan o ymarfer recriwtio 2023-24. Mae'r Is-bwyllgor Enwebiadau (is-bwyllgor y Pwyllgor Llywodraethu) yn gyfrifol am oruchwylio'r broses recriwtio ac argymell aelodau annibynnol newydd i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Caiff holl seddi gwag aelodau annibynnol y Cyngor eu hysbysebu'n allanol gydag asiantaeth allanol yn cefnogi'r gweithgaredd recriwtio, yn ogystal â'u hysbysu i staff, myfyrwyr ac aelodau presennol y Cyngor, a chroesewir datganiadau o ddiddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig.

Rydyn ni'n parhau i fod yn bartner lansio ar gyfer Cynllun Prentisiaeth Llywodraethwyr Perrett Laver, a phenodwyd ein pedwerydd prentis-lywodraethwr yn olynol yn ddiweddar. Mae'r cynllun yn cefnogi amrywiaeth mewn ystafelloedd bwrdd trwy alluogi cronfa amrywiol a thalentog o ymgeiswyr nad oes ganddynt fel arall brofiad mewn ystafelloedd bwrdd, i gael y profiad hwnnw.

Nid yw aelodau annibynnol yn cael unrhyw dâl am y gwaith y maent yn ei wneud i'r Brifysgol ar wahân i ad-dalu treuliau. Wrth gael eu penodi i'r Cyngor, gofynnir i aelodau lenwi ffurflen Cofrestr Buddiannau.

Mae'r Gofrestr Buddiannau bresennol ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan:
https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/governance/council

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor yn cael cyflwyniad i'r Brifysgol a'u cyfrifoldebau fel aelod o'r corff llywodraethu ac yn cael cefnogaeth mentor yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn aelod. Ceir rhaglen ddatblygu flynyddol sy'n canolbwyntio ar feysydd datblygu allweddol a rhannu gwybodaeth, ac mae'n creu cyfleoedd trafod rhwng aelodau'r Cyngor a Thîm Gweithredol y Brifysgol. Cesglir adborth gan holl aelodau'r Cyngor i lywio'r amserlen ddatblygu flynyddol, ac adolygir y pecyn sefydlu bob blwyddyn i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i aelodau newydd yn gyfredol.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cynnal gwerthusiad blynyddol gyda holl aelodau'r Cyngor a defnyddir yr adborth hwn i lywio a gwella effeithiolrwydd y corff llywodraethu. Cynhaliodd Cadeirydd y Cyngor gyfarfodydd adolygu blynyddol yn ystod gwanwyn 2024 a chynhaliwyd adolygiad blynyddol Cadeirydd y Cyngor gan Is-Gadeirydd y Cyngor, sydd hefyd yn cyflawni rôl yr Uwch Lywodraethwr Annibynnol, yn ystod haf 2024. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd, a drefnwyd yn 2023-24 drwy arolwg hunanarfarnu.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24, cyfarfu'r Cyngor chwe gwaith a chymeradwyodd Strategaeth newydd a map trywydd y Brifysgol, Cyllideb 2024-25, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-2028, Strategaeth Preswylfeydd, nifer o achosion busnes, a chynlluniau gweithredu yn dilyn yr Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu, a'r Adolygiad Allanol o Archwilio Mewnol. Bu'r Cyngor yn monitro cynnydd ar draws amrywiol weithgareddau'r Brifysgol, gan gynnwys ansawdd a safonau, profiad myfyrwyr, cyllid, perfformiad ystadau, Sero Net, Rhyddid Mynegiant, a dyletswydd gofal i staff/myfyrwyr.

## Swyddog Atebol

Yr Is-Ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae'n atebol i'r Cyngor am gynnal a hybu effeithlonrwydd a threfn dda'r Brifysgol.

O dan Delerau ac Amodau Ariannu rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-Ganghellor yw Swyddog Atebol y Brifysgol ac, yn rhinwedd y swydd honno, gallai gael cais i ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

## Rheolaeth

A hithau'n Brif Weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-Ganghellor gyfrifoldeb dros ddatblygu strategaeth sefydliadol, adnabod a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos sefydliadol. Mae'r Profost a'r Dirprwy Is-Ganghellor, y Rhag Is-Gangellorion, Deoniaid y Brifysgol a'r uwch-swyddogion proffesiynol oll yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd â'r prif awdurdod.

# Aelodaeth y Cyngor

Bu pawb a restrwyd isod yn Ymddiriedolwyr yr Elusen trwy gydol y flwyddyn dan sylw yn yr Adroddiad hwn. Oni nodir fel arall, roeddent hefyd yn y swyddi hynny ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad.

| Enw | Categori | Presenoldeb yn y Cyngor |
|---|---|---|
| 1. **Beth Button** (penodwyd 01 Ionawr 24) | Annibynnol | 4/4 |
| 2. **Judith Fabian** | Annibynnol | 6/6 |
| 3. **Yr Athro Fonesig Janet Finch** | Annibynnol | 5/6 |
| 4. **Angie Flores Acuña** (tymor wedi dod i ben ar 30 Mehefin 24) | Myfyriwr | 5/5 |
| 5. **Madison Hutchinson** (penodwyd 01 Gorffennaf 24) | Myfyriwr | 1/1 |
| 6. **Chris Jones** | Annibynnol | 6/6 |
| 7. **Jan Juillerat**, Is-Gadeirydd y Cyngor (tymor wedi dod i ben 31 Gorffennaf 24) | Annibynnol | 6/6 |
| 8. **Yr Athro Urfan Khaliq** | Cyflogai | 6/6 |
| 9. **Yr Athro Wendy Larner**, yr Is-ganghellor | Cyflogai | 6/6 |
| 10. **Jeremy Lewis** | Annibynnol | 6/6 |
| 11. **Stephen Mann** (penodwyd 01 Ionawr 24) | Annibynnol | 4/4 |
| 12. **Deio Owen** (tymor wedi dod i ben 30 Mehefin 23) | Myfyriwr | 5/5 |
| 13. **Micaela Panes** (penodwyd o 01 Gorffennaf 24) | Myfyriwr | 1/1 |
| 14. **Dr Juan Pereiro Viterbo** | Cyflogai | 6/6 |
| 15. **Suzanne Rankin** | Annibynnol | 3/6 |
| 16. **Siân Rees** (penodwyd 01 Ionawr 24) | Annibynnol | 4/4 |
| 17. **Yr Athro Stephen Riley** (tymor wedi dod i ben 31 Rhagfyr 23) | Cyflogai | 2/2 |
| 18. **Dr Pretty Sagoo** (tymor wedi dod i ben 31 Rhagfyr 23) | Annibynnol | 1/2 |
| 19. **David Selway** | Annibynnol | 5/6 |
| 20. **John Shakeshaft** | Annibynnol | 5/6 |
| 21. **Yr Athro Katherine Shelton** (penodwyd 22 Mehefin 24) | Cyflogai | 2/3 |
| 22. **Yr Athro Damian Walford Davies** | Cyflogai | 5/6 |
| 23. **Dr Robert Weaver** | Annibynnol | 6/6 |
| 24. **Dr Catrin Wood** | Cyflogai | 6/6 |
| 25. **Jennifer Wood** | Annibynnol | 6/6 |
| 26. **Agnes Xavier-Phillips** | Annibynnol | 3/6 |
| 27. **Patrick Younge**, Cadeirydd y Cyngor | Annibynnol | 6/6 |

Adolygir presenoldeb aelodau gyda Chadeirydd y Cyngor fel rhan o'r broses adolygu aelodau'n flynyddol, oni bai y'i trafodwyd eisoes yn ystod y flwyddyn.

Rhaid i'r Brifysgol fabwysiadu diffiniad o annibyniaeth ar gyfer aelodau annibynnol cyrff llywodraethu er mwyn darparu dull cadarn o nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau.[1]

## Aelodaeth y Cyngor



**Y rhes flaen (Ch i Dd):** Yr Athro Fonesig Janet Finch, Angie Flores Acuña, Jan Juillerat, Yr Athro Wendy Larner, Patrick Younge, Julie-Anne Johnston, Millicent Ele

**Yr ail res (Ch i Dd):** Yr Athro Stephen Riley, Judith Fabian, Agnes Xavier-Phillips, Jennifer Wood, David Selway, Dr Juan Pereiro Viterbo, Jeremy Lewis

**Y drydedd res (Ch i Dd):** Chris Jones, Claire Morgan, Dr Catrin Wood, Suzanne Rankin, Yr Athro Damian Walford Davies, Deio Owen, Yr Athro Urfan Khaliq, Darren Xiberras

### Sut caiff annibyniaeth ei diffinio a'i phrofi?

Mae yna nifer o amgylchiadau a allai atal person rhag cael ei benodi'n aelod annibynnol o'r corff llywodraethu. Mae Is-bwyllgor Enwebiadau'r Corff Llywodraethu yn goruchwylio'r broses benodi ac yn gyfrifol am ystyried y ffactorau hyn.

Mewn ymateb i Ymrwymiad i Weithredu Siarter y Prifysgolion yng Nghymru, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu Datganiad o Annibyniaeth yn seiliedig ar ganllawiau Grŵp Ysgrifenyddion Cymru, gan gynnwys Diffiniad o Annibyniaeth ac Egwyddorion Annibyniaeth ar gyfer aelodau annibynnol. Mae'r Brifysgol yn diffinio 'uwch-gyflogeion' fel aelodau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn y cyd-destun hwn.

Mae'r broses gadarn ar gyfer sicrhau annibyniaeth trwy recriwtio a hyfforddi aelodau hefyd wedi'i nodi yn y Datganiad Annibyniaeth. Wrth ystyried ceisiadau a chyfweld â darpar lywodraethwyr newydd, bydd paneli recriwtio yn penderfynu a oes gan yr unigolyn unrhyw berthnasoedd neu statws a allai arwain at wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch, fel y'u diffinnir yn yr Egwyddorion Annibyniaeth ac yn cynnwys perthyn i unrhyw uwch gyflogai i sefydliad sy'n cael mantais ariannol gan y Brifysgol.

Mae Datganiad Annibyniaeth y Brifysgol ar gael ar dudalennau gwe llywodraethu'r Brifysgol yn:

https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/governance/council

### Sut y mae'r corff llywodraethu'n rheoli gwrthdrawiad buddiannau?

Mae Cofrestr Buddiannau holl aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei chynnal gan Ysgrifennydd y Cyngor ac mae ar gael yn gyhoeddus ar dudalennau gwe llywodraethu'r Brifysgol yn:

https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/governance/council

Os oes gan unrhyw aelod o Bwyllgor unrhyw fuddiant ariannol neu fuddiant arall, uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract neu gontract arfaethedig neu fater arall sy'n ymwneud â thrafodiadau ariannol, caiff y buddiant hwnnw ei ddatgelu i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae pob Pwyllgor yn gofyn i aelodau a swyddogion ddatgelu unrhyw fuddiannau ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor, ac ni fydd yr Aelod yn cymryd unrhyw ran bellach yn y gwaith o ystyried neu drafod, neu bleidleisio ar, unrhyw sefyllfa o ran hynny. Nid ystyrir bod gan aelod o unrhyw Bwyllgor fuddiant ariannol neu bersonol mewn materion sy'n cael eu trafod dim ond am ei fod yn aelod o staff neu'n fyfyriwr yn y Brifysgol.

Fel y nodir yn adran 4 y Datganiad Annibyniaeth, mae Ysgrifennydd y Brifysgol (fel Clerc y corff llywodraethu) yn atebol am dynnu sylw at faterion annibyniaeth neu wrthdaro i'r Cadeirydd.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd, ac mae'n ceisio cynnal ei materion mewn modd cyfrifol. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) yn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon ynghylch unrhyw wrthdaro buddiannau nad yw, yn eu barn hwy, wedi cael sylw trwy'r gweithdrefnau presennol.

1. Ffynhonnell: Mae'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion Cymru – Ymrwymiad i Weithredu ar gael yn https://www.hefcw.ac.uk/cy/document/universities-in-wales-governance-charter-commitments/

# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Brifysgol. Ar yr un pryd, mae'n diogelu arian y cyhoedd yn ogystal â chronfeydd ac asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt

## Prif Risgiau a System Reoli Fewnol

Mae'r system reoli fewnol wedi'i chreu i reoli yn hytrach na dileu'r risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gellir ei roi yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system reoli fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i amlygu'r prif risgiau a allai atal polisïau, nodau ac amcanion y Brifysgol rhag cael eu cyflawni. Y nod yw gwerthuso natur a maint y risgiau hyn a'u rheoli yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y system hon o reolaeth fewnol yn ddigonol ar y cyfan ac wedi gweithredu'n effeithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, a'i bod yn cyd-fynd â chanllawiau CCAUC.

Yn ei rôl o fod yn gorff llywodraethu, mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth yn cael ei chynnal ac am adolygu effeithiolrwydd y trefniadau. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y sefydliad, ac yn cael adroddiadau sicrwydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch rheolaeth fewnol. Yn ystod 2023-24, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi monitro cynllun gweithredu i fynd i'r afael â nifer o argymhellion a wnaed gan Archwiliwr Allanol y Brifysgol i gryfhau'r system rheolaeth fewnol ac wedi casglu bod cynnydd da wedi'i wneud i sicrhau bod yr amgylchedd rheoli yn gadarn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiadau rheolaidd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ddigamsyniol rydd i weithredu mewn modd annibynnol wrth fynd ar drywydd ei fusnes proffesiynol, ac ni chaiff ei lyffetheirio o ran cwmpas ei waith na'i adroddiadau. Rhoddir barn annibynnol ar bob adroddiad sy'n ymwneud â digonolrwydd ac effeithiolrwydd system reoli fewnol y Brifysgol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Cyflwynir crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn Adroddiad Mewnol. Mae hyn yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol ar gyfer darpariaeth rheoli risgiau, rheoli mewnol, llywodraethu a gwerth am arian, ac ansawdd data.

O ystyried cwblhau'r cynllun archwilio cymeradwy ar gyfer 2023-24 a'r wybodaeth ategol, mae trefniadau'r Brifysgol ar gyfer rheoli a llywodraethu risg a gwerth am arian ac ansawdd data yn ddigonol ac yn effeithiol ar y cyfan.

Yr Is-Ganghellor yw Swyddog Atebol y Brifysgol, sy'n gyfrifol am roi sicrwydd clir i CCAUC fod gan y sefydliad bolisi effeithiol o reoli risgiau. Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol yw'r Prif Swyddog Risg, sy'n gyfrifol am hyrwyddo dulliau effeithiol o reoli risgiau ar draws y Brifysgol.

Uwch dîm rheoli'r Brifysgol yw Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, sy'n darparu adolygiadau risg strategol, her a chyngor i'r Is-Ganghellor, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli risgiau'r sefydliad. Cyflwynir y gofrestr risg strategol a'r dogfennau ategol i aelodau'r Bwrdd ar adegau a ddiffinnir ymlaen llaw i gael eu hargymell i'w cynnwys yn y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Cyngor. Nododd asesiad Aeddfedrwydd Risg 2023/2024 a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol mewn

# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

cydweithrediad â'r Tîm Cydymffurfiaeth a Risg ddosbarthiad aeddfedrwydd 'diffiniedig' gyda'r gwelliannau a gyflawnwyd yn cynnwys; cyflwyno polisi rheoli risg newydd - cymeradwywyd ym mis Tachwedd 2023, caffael a chyflwyno meddalwedd rheoli risg - cyflwynwyd ym mis Tachwedd 2023, adnoddau mewnrwyd staff newydd, adnoddau hyfforddi haenog a chynllun gwella rheoli risg heb eu hystyried ond i'w cynnwys yng nghyfarfod yr adolygiad asesu aeddfedrwydd nesaf. Nododd archwiliad 2024 a gyflawnwyd gan TIAA ar brosesau rheoli risg sgôr sicrwydd o ddigonol gydag 1 ystyriaeth ganolig a 2 ystyriaeth wedi'u nodi sydd oll wedi'u cynnwys yn y cynllun gwella rheoli risg sydd i'w gyflawni dros gylch o bum mlynedd.

Fel y manylir yn y polisi rheoli risg, mae hierarchaeth cofrestr risg ar waith lle mae cofrestrau ar lefelau gwasanaeth proffesiynol, ysgol a choleg (a reolir yn lleol) yn bwydo i'r gofrestr risg strategol yn unol â throthwyon sgorio/pwyntiau sbarduno a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Mae'r holl risgiau'n cyd-fynd â datganiadau Archwaeth a Goddefgarwch Risg y Sefydliad y cytunwyd arnynt ac sy'n caniatáu nodi themâu a phatrymau risg yn ymwneud â meysydd fel enw da, cyllid, cydymffurfiaeth ac ati. Mae rheoli risg prosiectau a rhaglenni'n eistedd y tu allan i'r hierarchaeth gyda rheoli risg prosiectau'n cyd-fynd â'r Fframwaith Rheoli Risg Prosiectau a Rhaglenni.

Cyflwynir adroddiadau risg ar lefel strategol yn unol â pholisi rheoli risg sydd wedi'i fynegi'n glir. Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cynhyrchu portffolio cytbwys o amlygiad i risg sy'n canolbwyntio ar drin themâu risg, sy'n cyd-fynd â'n categorïau effaith Archwaeth Risg a Goddefgarwch. Trefnir rheoli risg gweithredol ar lefel leol gyda llinellau adrodd clir a llywodraethu cyson.

Mae risg yn gyfrifoldeb ar yr holl staff ac cheir trefniadau i alluogi pob aelod o staff i gyfrannu at nodi, rheoli ac adrodd am risgiau. Mae'r adroddiad radar risgiau strategol a safle mewnrwyd y staff yn ddwy enghraifft yn unig o offer risg a gyflwynwyd i hybu rhyngweithio, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o risg ledled y sefydliad.

Ysgogodd yr adolygiad plymio dwfn strategol (2023/2024) y Perchnogion Risg i ystyried ac alinio categorïau archwaeth/goddefgarwch risg ac ail-sgoriwyd risgiau yn unol â meini prawf a matrics sgorio diwygiedig. Canlyniad y gwaith hwn yw bod nifer uwch o risgiau'n cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol ariannol 2023-2024 ac mae hyn o ganlyniad i nodi categoreiddio effaith risg ac ail-sgorio'r llwyfan risg strategol yn unol â'r meini prawf sgorio newydd ac yn unol â'r amgylchedd presennol a ffactorau risg sy'n dod i'r amlwg.

Darperir y crynodebau amgaeedig gan Berchnogion Risg penodedig ac maent yn cynnig trosolwg o'r prif fesurau lliniaru a'r sefyllfa bresennol.

## Prif Risgiau

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2022-2023 | Crynodeb risg 2023-2024 |
|---|---|---|
| **Cydymffurfiaeth Rheoleiddiol**<br><br>**Digwyddiad Risg:** Os bydd y Brifysgol yn methu â nodi, diffinio, cofnodi a chyfathrebu gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol (megis Safonau'r Gymraeg, gwarchod SoDdGA, GDPR, rheoliadau cynyddol lym UKVI, deddfwriaeth treth, PREVENT, ICO, MEDR ac ati) | Mae Map Sicrwydd Risg manwl wedi cael ei ddatblygu mewn perthynas â Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol, a chynhaliwyd adolygiad dilynol i amlinellu'r meysydd lle byddai mesurau ychwanegol yn cael yr effaith fwyaf o ran lleihau'r risg ar gyfer y meysydd risg uwch.<br><br>Yn ogystal, mae'r Grŵp Sicrwydd a Risg wedi goruchwylio'r gwaith o greu map gwres sicrwydd risg. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i adnabod y meysydd risg uwch yn rhwydd, a hynny trwy ddefnyddio mesurau megis canfyddiadau'r archwiliad mewnol mewn perthynas â lefel y sicrwydd sydd ar waith, a'r effaith ar y Brifysgol pe bai'r risg honno'n crisialu. | Mae gan Brifysgol Caerdydd Fap Sicrwydd Risg manwl ar gyfer Cydymffurfiaeth Rheoleiddiol sy'n dangos sut mae'r Brifysgol yn deall, yn mynegi ac yn cydymffurfio â'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Mae'r map sicrwydd yn rhestru'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer pob maes cydymffurfio yn y Brifysgol a'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle yn ogystal â'r tair llinell ar gyfer gweithredu, monitro a sicrwydd sy'n ymwneud â phob maes cydymffurfio. Mae adolygiad o'r map ar y gweill, a fydd yn cynnwys mapio fframweithiau cydymffurfio i ddangos dealltwriaeth o'r gofynion cydymffurfio penodol ar gyfer pob maes cydymffurfiaeth gyfreithiol/rheoleiddiol a sut y caiff prosesau eu cymhwyso, eu monitro a sut yr adroddir ar sicrwydd. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd cyfweliadau ag ysgolion ac adrannau gwasanaethau proffesiynol ar draws y brifysgol i fesur hyder mewn meysydd rheoleiddiol a ddiffinnir yn benodol. Bydd y gwaith hwn yn helpu i nodi unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu o fewn y prosesau a chaiff rhaglen waith ei datblygu i gefnogi unrhyw weithgareddau gwella sydd eu hangen. Cefnogir y gwaith hefyd gan y Map Gwres Sicrwydd Risg, sy'n galluogi'r Brifysgol i nodi meysydd risg uwch yn hawdd yn defnyddio mesurau megis canfyddiadau archwilio mewnol i adolygu'r lefelau sicrwydd sydd ar waith ar gyfer pob maes. Mae angen diweddaru'r Map Risg Sicrwydd yn rheolaidd i adlewyrchu datblygiadau mewn trefniadau cydymffurfio. Mae hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth y Brifysgol o sut y caiff y risg ei lliniaru, lle mae angen rhagor o waith a pha gamau y gellir eu cymryd pe bai elfen o'r risg yn dod i'r amlwg. |

# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

## Prif Risgiau parhad

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2022-2023 | Crynodeb risg 2023-2024 |
|---|---|---|
| **Diogelwch Seiber a Gwybodaeth**<br>**Digwyddiad Risg:** Pe bai'r Brifysgol yn dioddef ymosodiad seiber a/neu doriad diogelwch gwybodaeth | Mae gan Brifysgol Caerdydd ymagwedd aml-haenog at seiberddiogelwch.<br>Rydyn ni'n paratoi ac yn adolygu ein gallu i ymateb i ymosodiadau seiber drwy gynllunio senarios a phrofi effeithiolrwydd cynlluniau wrth gefn ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb. Mae'r Brifysgol yn cael ei harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwyr seiber, ac, ar hyn o bryd, mae wedi'i hachredu ar gyfer cydymffurfiaeth Cyber Essentials (y sicrwydd seiber a ddarperir gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol) a PCI DSS. Mae gan y Brifysgol fodiwl hyfforddiant diogelwch gwybodaeth gorfodol i'r holl staff.<br>Rydyn ni wedi amddiffyn y Brifysgol trwy ddefnyddio'r offer seiberddiogelwch gorau posibl.<br>Rydyn ni'n canfod bygythiadau gan ddefnyddio'r data cudd-wybodaeth bygythiadau cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf. | Mae gan Brifysgol Caerdydd ymagwedd aml-haenog at Ddiogelwch Seiber a Gwybodaeth.<br>Rydyn ni'n paratoi ac yn adolygu ein gallu i ymateb i ymosodiadau seiber a thoriadau data trwy gynllunio senarios a phrofi effeithiolrwydd cynlluniau wrth gefn ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb.<br>Mae'r Brifysgol yn cael ei harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwyr seiber, ac, ar hyn o bryd, mae wedi'i hachredu ar gyfer cydymffurfiaeth Cyber Essentials (dyma sicrwydd seiber a ddarperir gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol). Mae gan y Brifysgol fodiwl hyfforddiant diogelwch gwybodaeth gorfodol i'r holl staff.<br>Rydyn ni wedi diogelu'r Brifysgol trwy ddefnyddio'r offer seiberddiogelwch a'r rheolaethau llywodraethu gwybodaeth gorau posibl. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli risgiau diogelwch seiber a gwybodaeth er mwyn lleihau amlygiad y brifysgol i fygythiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg.<br>Rydyn ni'n canfod bygythiadau gan ddefnyddio'r data cudd-wybodaeth bygythiadau cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf, ynghyd â chyfres lawn o offer monitro. |
| **Cynaliadwyedd Ariannol**<br>**Digwyddiad Risg:** Os daw'r Brifysgol yn ariannol anghynaliadwy yn y tymor canolig i'r hirdymor | Mae'r Brifysgol yn arfer modd manwl o reoli a monitro'r gyllideb.<br>Mae trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng adrannau Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr a Chyllid i fodelu incwm ffioedd.<br>Mae prosiectau Ymchwil a Newid yn cael eu hasesu ar gyfer enillion ar fuddsoddiad i wneud yn siŵr bod y buddiannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni.<br>Mae proses gynllunio integredig wedi'i lansio i sicrhau bod cynlluniau academaidd ac ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno.<br>Mae'r newid yn yr amgylchedd ariannol allanol, yn enwedig o ran chwyddiant, wedi arwain at bwysau sylweddol o ran costau, a hefyd at aflonyddwch diwydiannol gan na all cyflogau gadw'n gyfwastad â chostau byw. Rydyn ni'n parhau i ymdrechu i sicrhau twf incwm ychwanegol mewn perthynas ag incwm ffioedd dysgu tramor, ac rydyn ni'n rheoli ein sylfaen costau yn ofalus. | Mae'r Brifysgol yn arfer modd manwl o reoli a monitro'r gyllideb. Mae trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng adrannau Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr a Chyllid i fodelu incwm ffioedd. Mae prosiectau Ymchwil a Newid yn cael eu hasesu ar gyfer enillion ar fuddsoddiad i wneud yn siŵr bod y buddiannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni. Mae proses gynllunio integredig wedi'i lansio i sicrhau bod cynlluniau academaidd ac ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno. Mae'r newid yn yr amgylchedd ariannol allanol, yn enwedig o ran chwyddiant, wedi arwain at bwysau sylweddol o ran costau, a hefyd at risg uwch o aflonyddwch diwydiannol gan na all cyflogau gadw'n gyfwastad â chostau byw. Mae polisïau'r Llywodraeth mewn perthynas â mewnfudo wedi cynyddu'r risg o ran incwm ffioedd myfyrwyr tramor ac felly mae angen rheoli ein costau'n ofalus. Mae camau lliniaru ar waith i gynnal sefyllfa ariannol gadarn i'r Brifysgol. |

# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

## Prif Risgiau parhad

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2022-2023 | Crynodeb risg 2023-2024 |
|---|---|---|
| **Carbon Sero-net**<br>**Digwyddiad Risg:** Os na fydd y Brifysgol yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei huchelgeisiau o gyflawni sero carbon net (Cwmpas 1 a 2) erbyn 2030 | Mae'r Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol Strategol wedi nodi'r staffio sy'n ofynnol i alluogi newid sylweddol. Mae'r gwaith o recriwtio staff proffesiynol yn y maes hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br>Yn ystod haf 2022, cwblhawyd dadansoddiad o'n hadeiladau sy'n allyrru'r mwyafswm o garbon; rydyn ni bellach yn datblygu prosiectau i sicrhau bod mentrau byrdymor yn cael yr effaith fwyaf posibl.<br>Rydyn ni'n archwilio cynlluniau benthyciadau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i alluogi buddsoddiad mewn cynlluniau byrdymor a thymor canolig i leihau carbon.<br>Rydyn ni'n cadarnhau gwaelodlinau allyriadau carbon y Brifysgol, yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, erbyn Mehefin 2023. Mae rhaglen plannu coed mewn partneriaeth â Choed Caerdydd ar y gweill.<br>RRydyn ni'n cwblhau ein polisi gwrthbwyso carbon yn awr a byddwn yn drafftio ein map trywydd i sero net (cwmpasau 1 a 2) erbyn 2030.<br>Mae'r Brifysgol yn aelod o Grŵp Strategaeth Un Blaned Cyngor Dinas Caerdydd a grwpiau Prifysgolion y DU sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol. | Mae'r Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol wedi parhau i ysgogi a rhoi sicrwydd ar gynnydd tuag at nodau sero net. Er bod rheolaethau a chamau gweithredu wedi lleihau ein statws risg, mae'r risg honno'n parhau'n sylweddol, ac mae wedi'i chadw ar y gofrestr sefydliadol. Mae gwaith i sefydlu gwaelodlin ar gyfer allyriadau carbon y Brifysgol wedi'i gwblhau, ac mae adroddiadau blynyddol ar ein hallyriadau bellach wedi'u sefydlu. Mae llwyddiant gyda benthyciad Salix gan Lywodraeth Cymru yn galluogi enillion cyflym o ran lleihau allyriadau carbon ar draws yr ystâd ochr yn ochr â mesurau rheoli ynni eraill. Mae ysgogiadau a mesurau lliniaru allweddol yn cynnwys gwaredu elfennau o'r ystâd gwaddol, dadansoddi'r arolwg o gyflwr yr holl ystadau, ymrwymo adnoddau i wella mesuryddion, mabwysiadu polisi Caffael Cynaliadwy, gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen teithio busnes, a gwaith Swyddog Ymgysylltu newydd. Bydd gwaith asesu opsiynau cynhwysfawr ar yr her sero net (cwmpas 1 a 2) yn arwain yn fuan at fap trywydd manwl. Bydd arweinyddiaeth academaidd yn y maes hwn yn gwella cyn hir gyda phenodi Deon Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Brifysgol. |
| **Safonau Academaidd ac Ansawdd Addysg**<br>**Digwyddiad Risg:** Os nad yw safon ac ansawdd yr addysg yn bodloni anghenion neu ddisgwyliadau rhanddeiliaid | Mae'r risg nad yw safon ac ansawdd yr addysg yn bodloni anghenion neu ddisgwyliadau rhanddeiliaid yn risg a reolir gan y Brifysgol. Y ffactorau cyfrannol a nodwyd yw effaith weddilliol COVID, effaith barhaus y Gweithredu Diwydiannol cenedlaethol, a chymhwyso cyson ar weithdrefnau a phrosesau yn annigonol. Mae cynllun trin risg ar waith i liniaru'r risg gan gynnwys themâu rheoli ar gyfer monitro addysg a gweithgareddau llais myfyrwyr, hyfforddiant, gweithgareddau amddiffyn ail reng, ac adrodd gan systemau sefydliadol a chysgodol. | Mae gan Brifysgol Caerdydd system ansawdd academaidd sefydledig i reoli risg a gwella profiad myfyrwyr, sy'n cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol ac yn cyd-fynd â normau'r sector.<br>Cyflwynir Adroddiad Ansawdd Blynyddol i'r Senedd a'r Cyngor sy'n cadarnhau'r dull a sail y dystiolaeth ar gyfer adolygiad parhaus o safonau academaidd ac ansawdd yr addysg, a sut y caiff risgiau eu rheoli.<br>Y prif feysydd risg a mesurau lliniaru yw canlyniadau'r NSS sydd, os ydynt yn is na'r meincnod, yn cael eu lliniaru gan gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt sydd wedi arwain at ganlyniadau gwell yn NSS 2024. Caiff gwallau mewn trawsgrifiadau a marciau asesu myfyrwyr eu lliniaru gan y Prosiect Prosesu Marciau sydd wedi'i sefydlu a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â materion a nodwyd. Mae bylchau rhwng canlyniadau gradd da (1af a 2-1) myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y DU a myfyrwyr gwyn y DU yn cael eu lliniaru gan gamau a gymerir trwy'r Prosiect Addysg Gynhwysol a fydd yn cyfrannu at ddileu'r bwlch dyfarnu Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig. |

# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

## Prif Risgiau parhad

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2022-2023 | Crynodeb risg 2023-2024 |
|---|---|---|
| **Yr Ysgol Deintyddiaeth**<br>Digwyddiad Risg:<br>Os bydd yr Ysgol Deintyddiaeth yn methu â darparu'r cyfleusterau addysgu clinigol angenrheidiol i fodloni cymwyseddau PSRB a graddedigion a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru | Mae'r risg i weithgareddau craidd yr Ysgol Deintyddiaeth sydd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl o fewn yr Ysbyty Deintyddol, cyfleuster sy'n eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac a reolir ganddo, yn risg a reolir gan y Brifysgol. Yr Ysgol Deintyddiaeth yw'r unig ysgol ddeintyddol yng Nghymru, a'i phrif amcan yw hyfforddi darpar ddeintyddion, therapyddion deintyddol, a hylenwyr deintyddol ar gyfer Cymru a thu hwnt. Gyda'r prinder dybryd a pharhaus o ddeintyddion y GIG a phractisau deintyddol ledled Cymru, mae'r gweithgaredd hwn yn hanfodol ac yn wleidyddol. Mae gallu'r ysgol i ddarparu hyfforddiant clinigol hanfodol i fyfyrwyr yn dibynnu'n fawr ar argaeledd gweithgaredd clinigol o fewn yr adeilad. Mae cynllun trin risg wedi'i gyflwyno i liniaru'r risg ar ffurf cynlluniau cynnal a chadw adeiladau, blaenoriaethu rolau recriwtio a pholisi a gweithdrefnau gwell. | Mae gan Brifysgol Caerdydd bartneriaeth strategol sefydledig â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n galluogi mesurau cadarn ar gyfer lliniaru risg a monitro ystâd Ysbyty Deintyddol y Brifysgol trwy strwythurau llywodraethu ffurfiol. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng rheolwyr yr Ysgol Deintyddiaeth a Chyfarwyddiaeth Ddeintyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn galluogi trafod diweddariadau rheolaidd, gydag unrhyw bryderon yn cael eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen trwy reolaeth y ddau sefydliad.<br><br>Yn 2023/24, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd Prifysgol raglen waith cynnal a chadw sylweddol ar bibellau mewn dau o glinigau addysgu'r Ysbyty. I ddigolledu myfyrwyr am golli gweithgaredd clinigol yn sgil y gwaith, cyflogwyd staff addysgu clinigol ychwanegol, a threfnwyd sesiynau addysgu clinigol yn 2023/24 i sicrhau nad oedd unrhyw fyfyriwr yn dioddef a'u bod yn derbyn profiad clinigol tebyg i garfannau blaenorol. Mae uwchraddio rhannol i'r seilwaith wedi gwella dibynadwyedd y cyfleusterau ar gyfer gweithgarwch clinigol myfyrwyr. Mae gweithgarwch yr Ysgol Deintyddiaeth yn monitro data o arolygon myfyrwyr, yr offeryn adrodd amserlenni cleifion, cwynion, a phaneli myfyrwyr/staff yr ysgol i ddeall y problemau/risgiau i brofiad myfyrwyr a staff a nodi oriau a gollwyd.<br><br>Mae meysydd risg yn yr Ysgol Deintyddiaeth yn parhau i gael eu monitro trwy asesiadau risg ac arolygon cyflwr adeiladu a fydd yn llywio'r gwaith o flaenoriaethu gwaith ystadau'r Bwrdd Iechyd yn yr Ysgol yn y dyfodol. Mae gwaith yn parhau i gyflawni'r camau hyn. |

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2023-2024 |
|---|---|
| **Lles a llesiant myfyrwyr**<br>Digwyddiad Risg: Os nad yw'r Brifysgol yn darparu cymorth lles, llesiant ac iechyd meddwl digonol neu briodol | Mae lles, diogelwch a llesiant myfyrwyr y Brifysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r brifysgol gyda'r risg yn cael ei lliniaru, ei rheoli, a'i hadrodd trwy amrywiol drefniadau. I liniaru yn erbyn y galw cynyddol am les a llesiant, mae cynllunio adnoddau yn digwydd yn flynyddol trwy'r Broses Gynllunio Integredig ac yn cael ei reoli trwy gydol y flwyddyn gan uwch reolwyr llinell.<br><br>Mae platfform Bywyd Myfyrwyr yn darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau myfyrwyr ochr yn ochr ag ymgysylltu a chydgysylltu traws-sefydliadol i gefnogi lles a llesiant myfyrwyr. Mae'r Weithdrefn Ymyrraeth Cymorth i Fyfyrwyr, a ddarperir gan y Tîm Ymyrraeth Myfyrwyr, yn rhoi cyngor a chymorth perthnasol i staff. Mae'r Brifysgol yn darparu nifer o wasanaethau cymorth allanol i fyfyrwyr ar ffurf therapi siarad (Rhannu Problem) a Champws Siarad 24/7, llinell ffôn argyfwng wedi'i staffio'n broffesiynol a fforwm trafod rhwydwaith cymdeithasol rhwng cymheiriaid sydd ar gael yn ogystal â darpariaeth cwnsela'r Brifysgol. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i ymateb i Fynd i'r Afael â Cham-drin, Trais ac Aflonyddu Rhywiol yn Erbyn Menywod, mae Strategaeth Iechyd Meddwl newydd y Brifysgol yn cael ei datblygu ynghyd â Strategaeth Mwy Diogel y Brifysgol ar gyfer Hunanladdiad. Bydd argymhellion yr adolygiad o Fywyd Preswyl 2023 yn cael eu mabwysiadu i wella'r gwaith o liniaru'r risg hon ymhellach. |

# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

## Prif Risgiau parhad

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2023-2024 |
| --- | --- |
| **Yr Amgylchedd Dysgu**<br>**Digwyddiad Risg:** Os nad yw'r amgylchedd dysgu yn cefnogi cyflwyno rhaglenni a dysgu o ansawdd uchel | Mae Prifysgol Caerdydd yn darparu amgylchedd dysgu diogel i staff a myfyrwyr, gan sicrhau bod rhaglenni a dysgu o ansawdd uchel yn cael eu darparu.<br>Mae ffactorau risg sy'n cyfrannu fel ansawdd a defnyddioldeb adeiladau, systemau a thechnoleg, prosesau ac addysgu, ein hymagwedd a'n gweledigaeth strategol, sgiliau, cefnogaeth ac ymroddiad ein staff, ein cyllideb a disgwyliadau a boddhad myfyrwyr oll yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun i drin y risgiau.<br>Ymhlith y rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith mae cyflwyno pecyn cymorth a gwasanaeth addysg i gefnogi academyddion i gynllunio'r cwricwlwm. Mae dangosfwrdd Black Board Ultra wedi galluogi adolygu defnydd a nodi cymorth yn y dyfodol. Mae adnewyddu mannau addysgu a Thechnoleg Gwybodaeth/Technoleg Clyweled i safon Gofod Dysgu Corfforol ac ailwampio gofodau addysgu yn eu tro wedi gwella defnyddioldeb ac ansawdd mannau addysgu a phrofiad y defnyddiwr. Mae gwiriadau technoleg gofod addysgu a gwasgariad daearyddol Technegwyr TG, yn ffisegol ac o bell, wedi galluogi ymateb cyflym i fethiannau mewn mannau addysgu sydd wedi gwella profiad myfyrwyr a staff yn yr amgylchedd dysgu.<br>Mae camau gweithredu cadarn ar waith i liniaru'r risg ymhellach yn y dyfodol a'r nod yw edrych ar sefydlu cyllideb ac adnoddau digonol yn flynyddol i gynnal ffabrig, seilwaith, gosodiadau a ffitiadau a chynllun buddsoddi sy'n canolbwyntio ar ddefnyddioldeb, ansawdd, a chyfanswm y gwasanaethau. Bydd datblygu Cynllun Gwella Blynyddol y Llyfrgell ar gyfer mannau astudio ar draws y campws, gan flaenoriaethu mannau ar gyfer buddsoddi mewn cydweithrediad ag Ystadau'r Brifysgol, yn cefnogi'r maes gwaith hanfodol hwn ymhellach. |
| **Atgyweirio a Chynnal a Chadw Ystadau**<br>**Digwyddiad Risg:** Os nad yw adeiladau'r Brifysgol mewn cyflwr digonol i sicrhau y darperir gwasanaeth | Mae atgyweirio a chynnal a chadw'r ystâd yn parhau i fod angen buddsoddiad sylweddol. Rheolir y risg trwy flaenoriaethu ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw trwy gydymffurfiaeth, iechyd a diogelwch, profiad myfyrwyr a chynlluniau parhad busnes. Cwblhawyd arolwg cyflwr newydd a chyflwynwyd system ystadau i alluogi cynllunio a rhaglennu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ystadau yn rhagweithiol. Mae mwy o waith monitro cydymffurfiaeth, profi, ac adolygu a thendro contractau cynlluniedig wedi dechrau i leihau gwaith cynnal a chadw adweithiol. Cyflwynwyd fframweithiau contractwyr i alluogi mwy o ystwythder a chymorth o ran adnoddau mewnol i wneud gwaith cynnal a chadw adweithiol. Mae'r Brifysgol a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gweithio i sefydlu lefel a lleoliad cywir i'r gofod sydd ei angen ar y Brifysgol a'r gwaith cynnal a chadw cysylltiedig sydd ei angen i liniaru'r risgiau presennol ar safle cyffredinol yr Ysbyty Athrofaol. |
| **Incwm Ymchwil**<br>**Digwyddiad Risg:** Os bydd incwm ymchwil yn gostwng o dan drothwy derbyniol | Mae gan Brifysgol Caerdydd bortffolio ymchwil mawr ac amrywiol gyda chefnogaeth gan amrywiaeth o gyllidwyr ac mae'n cydnabod pwysigrwydd y ffrwd incwm hon i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad. Mae wedi buddsoddi mewn rhaglen o newid ar raddfa fawr i greu dull un-Brifysgol o gefnogi ceisiadau a dyfarniadau ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gweithredu system ar-lein newydd a model darparu newydd ar gyfer timau gwasanaethau proffesiynol sy'n cefnogi gweithgareddau ymchwil.  Yn ogystal, mae canllawiau costio a phrisio yn cael eu hadolygu er mwyn adennill costau i'r eithaf. Er mwyn sicrhau gallu a chystadleurwydd, buddsoddwyd mewn Sefydliadau Arloesi i adeiladu màs critigol o amgylch meysydd cryfder. Mae buddsoddi mewn seilwaith ffisegol wedi cynnwys comisiynu'r Parc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (SPARK) a'r Ganolfan Ymchwil Drosi i sicrhau bod y brifysgol mewn sefyllfa dda i ymgeisio am grantiau ar raddfa fawr. Mae ymgysylltiad parhaus â chyllidwyr allanol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i hyrwyddo cynlluniau cyllid Ewropeaidd yn dilyn ailgysylltu â Horizon Europe. |



# Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau

## Prif Risgiau parhad

| Teitl y brif risg | Crynodeb risg 2023-2024 |
|---|---|
| **Ymchwil yn y Dyfodol**<br>Digwyddiad Risg: Os bydd incwm ymchwil yn gostwng o dan drothwy derbyniol | Mae gan Brifysgol Caerdydd ymyriadau i gefnogi cynnal a gwella ansawdd ymchwil. Bellach ceir adnodd pwrpasol drwy'r tîm Rhagoriaeth Ymchwil i helpu i gefnogi adrannau academaidd gyda rhaglen gydlynol o weithgarwch. Mae cylchoedd cynllunio, gweithredu ac adolygu gweithgarwch wedi'u cyflwyno ym mhob ysgol academaidd sy'n cynnwys uwch reolwyr a'r Rhag Is-Ganghellor dros Ymchwil, Arloesedd a Menter. Mae'r brifysgol hefyd wedi ail-fuddsoddi mewn cynllun Absenoldeb Ymchwil ar draws y sefydliad i roi amser ychwanegol i gydweithwyr gyflawni ymchwil allweddol. Mae tîm Diwylliant Ymchwil yn darparu cymorth ar gyfer newidiadau diwylliannol sy'n cyd-fynd â chryfhau'r amgylchedd ymchwil ehangach. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynllun gweithredu a ddatblygwyd yn dilyn dadansoddi Arolwg Diwylliant Ymchwil ledled y sefydliad a gynhaliwyd yn 2022. Mae rhaglen 'Ignite' a ariennir gan Ymddiriedolaeth Wellcome yn cynorthwyo cydweithwyr i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu diwylliant ymchwil cadarnhaol. |
| **Targedau recriwtio Myfyrwyr Rhyngwladol heb eu cyrraedd**<br>Digwyddiad Risg: Os na fyddwn yn cyrraedd ein targedau recriwtio myfyrwyr (Rhyngwladol) | Fel pob prifysgol yn y DU, mae Prifysgol Caerdydd yn dibynnu ar gynhyrchu incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr er mwyn ariannu gweithgareddau ymchwil ac addysgu. Mae'r anawsterau a wynebir gan y sector wedi'u cofnodi'n dda ac yn cynnwys: llai o ddiddordeb mewn astudiaethau prifysgol ymhlith myfyrwyr chweched dosbarth sy'n hanu o Gymru; mwy o gystadleuaeth am fyfyrwyr rhyngwladol o UDA, Canada ac Awstralia; gwell ansawdd yn y ddarpariaeth ddomestig i fyfyrwyr yn Tsieina a De-ddwyrain Asia, sy'n golygu bod llai o fyfyrwyr yn cael eu hannog i fynd dramor; a myfyrwyr rhyngwladol yn peidio â dod i'r DU oherwydd y bygythiad gan Lywodraeth flaenorol y DU i gyfyngu ar gyfleoedd fisa i fyfyrwyr rhyngwladol. Caiff y sefyllfa recriwtio myfyrwyr ei monitro'n ddyddiol a'i hadrodd yn fisol i'r Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol. Mae camau lliniaru ar waith lle bynnag y bo modd. |
| **Fisâu a Mewnfudo y DU**<br>Digwyddiad Risg: Os caiff trwydded noddwr Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI) ei hatal neu ei dirymu | Mae gan y Brifysgol ddull amlddisgyblaethol o barhau i gydymffurfio â rheoliadau cydymffurfio myfyrwyr rhyngwladol Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI). Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein rheolaethau UKVI yn rheolaidd, gan brofi gweithdrefnau i gynnal y dystiolaeth a'r cronfeydd data gofynnol i gefnogi gofynion adrodd UKVI. Rydym yn rheoli risgiau'n rhagweithiol i leihau'r bygythiad i drwydded noddi llwybr myfyrwyr y Brifysgol. Heb y drwydded honno ni fyddem yn gallu recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Ceir trafodaeth reolaidd rhwng yr adrannau gwasanaethau proffesiynol sy'n gyfrifol am daith myfyrwyr rhyngwladol er mwyn sicrhau bod prosesau sy'n cyfrannu at brofiad cadarnhaol myfyrwyr yn rhedeg yn llyfn, yn ogystal â sesiynau hyfforddi a diweddaru rheolaidd gyda staff academaidd a'r ysgolion. Mae camau lliniarol ar waith i gynnal safle cadarn y Brifysgol ar gyfer ymweliadau archwilio arfaethedig yr UKVI, gan gynnwys awtomeiddio prosesau adrodd, monitro polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn rheolaidd, a sefydlu rhwydweithiau mewnol sy'n rhoi cyfleoedd i rannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth â fisâu myfyrywr a gweithgareddau ymgysylltu i staff y Brifysgol. |
| **Diogelwch a Lles Staff**<br>Digwyddiad Risg: Os na all y Brifysgol gynnal ei hymrwymiad i iechyd, diogelwch a lles staff gan gynnwys ei dyletswydd gofal statudol (ystyriaeth i ddiogelwch corfforol a seicolegol) | Mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio dull aml-haenog i fonitro rheolaeth diogelwch, iechyd, yr amgylchedd a lles (SHEW).<br>Mae'r Brifysgol wedi'i hardystio i safonau rhyngwladol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch, rheolaeth amgylcheddol, a diogelwch seicolegol. Mae system reoli SHEW y Brifysgol yn cael ei harchwilio'n rheolaidd gan ddarparwr archwilio allanol yn ogystal ag archwiliadau SHEW mewnol parhaus a reolir yn ganolog a throsolwg lleol o faterion SHEW. Mae'r brifysgol yn monitro perfformiad SHEW trwy ei Phwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles sydd hefyd yn gyfle i ymgynghori â'r Undebau Llafur cydnabyddedig. Mae Pwyllgorau SHEW ar lefel Coleg/Gwasanaethau Proffesiynol yn bwydo i'r Pwyllgor Iechyd Diogelwch a Lles. Mae gwasanaeth cynghori canolog yn cefnogi'r sefydliad i reoli materion SHEW, a ategir gan rwydwaith o Swyddogion Diogelwch, Swyddogion Cydymffurfiaeth Amgylcheddol a Chysylltiadau Urddas a Lles lleol. Mae gan y Brifysgol hefyd fynediad at ddarpariaeth iechyd galwedigaethol a rhaglen cymorth i weithwyr i gefnogi. |

# Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd

Yn unol â Siarter y Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reolaeth fewnol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod Datganiadau Ariannol y Brifysgol a'r Grŵp yn cael eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a'r gyfraith gymwys), Siarter y Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a Telerau ac Amodau Ariannu gan CCAUC, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (2019), Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, trwy ei Swyddog Atebol, baratoi Datganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, datganiadau sy'n rhoi darlun cywir a theg o faterion y Brifysgol a'i his-gwmnïau, ac o'i hincwm a gwariant, ei henillion a cholledion, o newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, ac o lifau arian parod am y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigon i ddangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a'r Grŵp a datgelu, ar unrhyw adeg a chyda manwl gywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp, ynghyd ag i'w alluogi i sicrhau bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â'r gyfraith gymwys a rheoliadau.

Y Cyngor sy'n gyfrifol hefyd am ddiogelu asedau'r Brifysgol a'r Grŵp ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

**Wrth lunio'r Datganiadau Ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor:**

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson wedi hynny.
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (rhifyn 2019).
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth.
- nodi p'un a yw Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU, sy'n cynnwys FRS 102, wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau mewn busnes.

**Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:**

- sicrhau bod arian a geir gan CCAUC, Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido eraill yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y cafodd ei ddarparu yn unig ac yn unol â Thelerau ac Amodau Ariannu a Chod Rheoli Ariannol CCAUC; ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC neu unrhyw gorff Cyllido arall eu pennu o bryd i'w gilydd.
- sicrhau bod yr incwm, lle bo hynny'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol CCAUC.
- sicrhau bod rheolaethol ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill.
- diogelu asedau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau a rhwystro a chanfod twyll, a
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Er hynny, y cyfan y gall unrhyw system reoli ariannol fewnol ei wneud yw darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled o bwys.

Ar ran y Cyngor
**Yr Athro Wendy Larner**
Swyddog Atebol
27 Tachwedd 2024

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Caerdydd

## ADRODD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

### 1. Nid yw ein barn wedi'i haddasu

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Caerdydd ("y Sefydliad") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Sefydliad o'r Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Sefydliad o'r Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Sefydliad o'r Sefyllfa Ariannol, a'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Sefydliad o'r Llif Arian, ynghyd â'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y Grŵp a'r Sefydliad ar 31 Gorffennaf 2024, yn ogystal ag o incwm a gwariant, ac enillion a cholledion y Grŵp a'r Sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ynghyd â'r newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn, a'r llifoedd arian;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu y DU, gan gynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan Siarteri a Statudau'r Sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr), ac rydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a luniwyd o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi ei sicrhau yn sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Cawsom ein penodi gyntaf gan y Cyngor i fod yn archwilydd ar 7 Gorffennaf 2022. Y tair blynedd ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 yw'r cyfnod ymgysylltu di-dor llwyr. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC fel y'u cymhwysir i endidau budd y cyhoedd rhestredig, ac rydym yn parhau i fod yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny.  Ni ddarparwyd unrhyw wasanaethau nad oeddent yn wasanaethau archwilio ac a waherddir gan y safon honno.

| Trosolwg | | |
|---|---|---|
| **Perthnasedd:** datganiadau ariannol y grŵp yn eu cyfanrwydd | £6.3 miliwn<br>(2023: £6.07 miliwn)<br>0.97% o gyfanswm incwm y Grŵp<br>(2023:0.95%) | |
| **Cwmpas** | 100% o gyfanswm incwm y Grŵp<br>(2023: 100%) | |
| | **Materion archwilio allweddol** | **Newid ers 2023** |
| **Risgiau mynych** | Grantiau Ymchwil ac Incwm Contractau | ◀▶ |
| | Prisiad o Ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd | ◀▶ |

## 2. Materion archwilio allweddol: ein hasesiad o risgiau camddatganiad perthnasol

Y materion archwilio allweddol yw'r materion hynny a oedd, yn ein barn broffesiynol, o'r pwys mwyaf wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y risgiau asesedig pwysicaf o ran camddatganiad perthnasol (boed hynny o ganlyniad i dwyll neu beidio) a nodwyd gennym, gan gynnwys y rhai a gafodd yr effaith fwyaf ar: y strategaeth archwilio gyffredinol; y modd y cafodd adnoddau eu dyrannu yn yr archwiliad; a'r broses o gyfarwyddo ymdrechion y tîm ymgysylltu. Isod, rydym yn crynhoi'r materion archwilio allweddol, (sy'n ddigyfnewid ers 2023), mewn trefn ostyngol o ran arwyddocâd i'r archwiliad, wrth ffurfio ein barn archwilio uchod, ynghyd â'n gweithdrefnau archwilio allweddol i fynd i'r afael â'r materion hynny ac, fel sy'n ofynnol ar gyfer endidau budd y cyhoedd, ein canlyniadau a ddeilliodd o'r gweithdrefnau hynny. Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn, ac mae ein canlyniadau'n seiliedig ar weithdrefnau yr ymgymerwyd â nhw, yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, ac at ddiben yr archwiliad hwnnw yn unig, ac wrth ffurfio ein barn arnynt, ac, o ganlyniad, maent yn atodol i'r farn honno, ac nid ydym yn darparu barn ar wahân ar y materion hyn.

| | Y risg | Ein hymateb |
|---|---|---|
| **Grŵp a Sefydliad: Grantiau Ymchwil ac Incwm Contractau**<br><br>(£127 miliwn (2023: £133 miliwn)) | **Incwm 2023-24**<br><br>Mae'r Sefydliad yn rheoli nifer sylweddol o brosiectau o amryw o ffynonellau cyhoeddus a phreifat, ac iddynt amrywiaeth o ofynion cytundebol o ran trin costau uniongyrchol a gorbenion a gofynion eraill o ran tystiolaeth/cydymffurfedd.<br><br>Rhoddir cyfrif am grantiau ymchwil ac incwm contractau o dan y Model Cyflawni. Yn y rhan fwyaf o achosion, oni chaiff ei wahardd yn benodol, tybir mai gwariant ar y prosiect a ariennir gan y grant yw'r amod o ran cyflawni, ac felly, yn gyffredinol, cydnabyddir incwm yn unol â'r gwariant cysylltiedig, yn cynnwys costau gorbenion dosranedig.<br><br>Rydym wedi nodi risg sylweddol o dwyll a chamgymeriadau oherwydd y canlynol:<br><br>• Y risg o ddosrannu costau gorbenion yn amhriodol gan arwain at gydnabod refeniw ymchwil mewn modd amhriodol<br><br>• Y risg o beidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau grant sy'n golygu na chaiff incwm ei gydnabod yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Sefydliad neu safonau cyfrifyddu perthnasol.<br><br>• Y risg o beidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau grant gan arwain at gyllidwyr yr ymchwil yn adfachu'r cyllid. | Aethom ati i gynnal y profion isod yn hytrach na cheisio dibynnu ar reolaethau'r Grŵp, a hynny oherwydd bod natur y cydbwysedd yn golygu y byddem yn disgwyl cael tystiolaeth archwilio yn bennaf trwy'r gweithdrefnau manwl a ddisgrifir.<br><br>• Roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:<br><br>• Yn achos sampl o wariant ymchwil a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn, aethom ati i asesu a oedd y gwariant a ysgwyddwyd yn unol â thelerau ac amodau'r contract perthnasol;<br><br>• Yn achos sampl o wariant ymchwil a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn, aethom ati i asesu a oedd cyfraddau'r gorbenion a ddefnyddiwyd yn briodol trwy gyfeirio at delerau'r cytundeb grant;<br><br>• Yn achos sampl o brosiectau ymchwil ac iddynt gerrig milltir sylfaenol, cytunasom ar y refeniw a gydnabyddir i anfonebau a godwyd ac arian parod a ddaeth i law, ac aethom ati i asesu a oedd y garreg filltir wedi'i bodloni yn unol â'r cytundeb grant.<br><br>• Aethom ati i archwilio'r broses o gysoni'r gwariant ymchwil â'r incwm ymchwil cyfatebol i asesu a oedd cyfrif wedi'i wneud am yr incwm yn unol â gofynion y safonau cyfrifyddu perthnasol.<br><br>• Yn achos sampl o brosiectau ymchwil ac iddynt falansau incwm cronedig a gohiriedig mawr ar ddiwedd y flwyddyn, aethom ati i archwilio'r cytundebau grant, yr arian a oedd wedi dod i law hyd hynny, a'r proffil talu, a hynny er mwyn asesu a oedd cyfrif wedi'i wneud am y gwariant a'r incwm ymchwil yn y cyfnod cyfrifyddu priodol.<br><br>• Aethom ati i holi'r rheolwyr ynghylch a oedd yna unrhyw anghydfodau neu faterion arwyddocaol yn gysylltiedig ag unrhyw brosiectau, a allai effeithio ar y gydnabyddiaeth o'r grantiau ymchwil ac incwm contractau.<br><br>**Ein canlyniadau**<br><br>Roedd canlyniadau ein profion yn foddhaol, ac roeddem o'r farn bod swm y grantiau ymchwil a'r incwm contractau a gydnabuwyd gan y Grwp a'r Sefydliad yn dderbyniol (2023: derbyniol). |

| | Y risg | Ein hymateb |
|---|---|---|
| **Y Grŵp a'r Rhiant-sefydliad: Prisiad o Ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd Y Grŵp a'r Rhiant-sefydliad**<br><br>Gwerth presennol rhwymedigaethau cynllun Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd: £230 miliwn (2023: £216.7 miliwn).<br><br>Cyfeiriwch at nodyn 1 (polisi cyfrifyddu) a nodyn 25 (datgeliadau ariannol). | **Prisiad amcangyfrif goddrychol**<br><br>Mae'r Sefydliad a'r Grŵp yn aelod o nifer o gynlluniau buddion diffiniedig, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF). Cynllun CUPF yw'r cynllun mwyaf.<br><br>Mae prisio rhwymedigaethau cynllun CUPF (cyn didynnu asedau'r cynllun) yn cynnwys dewis tybiaethau actiwaraidd priodol, yn fwyaf nodedig y gyfradd ddisgownt, cynnydd cyflog, a chyfraddau marwolaethau. Mae'r broses o ddewis y rhagdybiaethau hyn yn un oddrychol yn ei hanfod, a gallai newidiadau bach yn y rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau cynllun CUPF gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Sefydliad a'r Grŵp.<br><br>Effaith y materion hyn yw ein bod, yn rhan o'n hasesiad risg, wedi penderfynu bod prisiad rhwymedigaethau cynllun CUPF yn cynnwys lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif, ac iddynt ystod bosibl o ganlyniadau rhesymol sy'n fwy na'n perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae'r datganiadau ariannol (nodyn 25) yn datgelu'r sensitifrwydd a amcangyfrifwyd gan y Sefydliad. | Aethom ati i gynnal y profion isod yn hytrach na cheisio dibynnu ar reolaethau'r Grŵp, a hynny oherwydd bod natur y cydbwysedd yn golygu y byddem yn disgwyl cael tystiolaeth archwilio yn bennaf trwy'r gweithdrefnau manwl a ddisgrifir.<br><br>Roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:<br><br>• **Ein harbenigedd actiwaraidd:** Fe wnaethom herio, gyda chymorth ein harbenigwyr actiwaraidd ein hunain, y rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon allweddol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo rhwymedigaethau cynllun CUPF sef y gyfradd ddisgownt, codiadau cyflog a chyfradd marwolaethau. Roedd hyn yn cynnwys cymharu tybiaethau allweddol yn erbyn ein hystodau meincnod ein hunain sy'n deillio o ddata sydd ar gael yn allanol ac yn erbyn y rheini a ddefnyddiwyd gan brifysgolion eraill sy'n adrodd ar yr un cyfnod.<br><br>• **Asesu cymwysterau actiwarïau allanol:** Bu i ni asesu cymhwysedd ac annibyniaeth yr actiwari allanol a benodwyd gan y Grŵp.<br><br>• **Asesu tryloywder:** Fe wnaethom ystyried digonolrwydd datgeliad y Grŵp mewn perthynas â buddion ymddeol CUPF , yn arbennig rhwymedigaethau cynllun gros a sensitifrwydd rhwymedigaethau'r cynllun i'r tybiaethau a ddefnyddiwyd.<br><br>**Ein canlyniadau**<br><br>Gwelsom fod yr amcangyfrifon dilynol o rwymedigaethau cynllun CUPF i'r Grŵp a'r Sefydliad yn dderbyniol (2023: derbyniol). |

**Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)**
Rydym yn parhau i berfformio gweithdrefnau dros rwymedigaeth pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS). Fodd bynnag, yn dilyn prisiad 2023 a ddiweddarwyd o'r USS a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (gweler nodyn 25), y rhwymedigaeth yw dim yn y flwyddyn gyfredol ac felly nid ydym wedi asesu hwn fel un o'r risgiau mwyaf arwyddocaol yn ein harchwiliad blwyddyn gyfredol ac felly ni chaiff ei nodi ar wahân yn ein hadroddiad eleni.

### 3. Ein defnydd o berthnasedd a throsolwg o gwmpas ein harchwiliad

Cafodd perthnasedd datganiadau ariannol y Grŵp gyda'i gilydd ei osod ar £6.3 miliwn (2023: £6.07 miliwn), a bennwyd trwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm incwm y grŵp ar gyfer 2023/24, sef £648 miliwn (2023: £636 miliwn), y mae'n cynrychioli 0.97% ohono (2023: 0.95%).

Cafodd perthnasedd datganiadau ariannol y Sefydliad ei osod ar £6.2 miliwn (2023: £6.0 miliwn), a bennwyd trwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm incwm y Brifysgol ar gyfer 2023/24, sef £637 miliwn (2023: £627 miliwn), y mae'n cynrychioli 0.97% ohono (2023: 0.96%).

Ystyriwn mai cyfanswm yr incwm, yn hytrach na meincnod cysylltiedig â'r gwarged, yw'r meincnod priodol gan fod y Sefydliad yn sefydliad nid-er-elw.


Yn unol â'n methodoleg archwilio, cafodd ein gweithdrefnau ar falansau a datgeliadau cyfrifon unigol eu cyflawni i berthnasedd perfformiad trothwy is er mwyn lleihau, i lefel dderbyniol, y risg y bydd camddatganiadau unigol amherthnasol ym malansau cyfrifon unigol yn adio'n swm perthnasol ar draws y datganiadau ariannol gyda'i gilydd.

Cafodd perthnasedd y perfformiad ei osod ar 65% o'r perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol gyda'i gilydd, sy'n cyfateb i £4.1 miliwn (2023: £3.9 miliwn) i'r Grŵp a £4 miliwn (2023: £3.9 miliwn) i'r Sefydliad. Cymhwyswyd y ganran hon wrth bennu perthnasedd y perfformiad yn seiliedig ar lefel y diffygion rheoli a chamddatganiadau a nodwyd yn ystod ein harchwiliad y flwyddyn flaenorol.

Cytunwyd i roi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg am unrhyw gamddatganiadau yn fwy na £310,000 (2023: £300,000), a nodwyd ac a gywirwyd neu nas cywirwyd, yn ogystal â chamddatganiadau eraill a nodwyd a oedd yn cyfiawnhau cael eu hadrodd ar sail ansoddol.

Roedd cwmpas y gwaith archwilio a gyflawnwyd yn annibynnol gan mwyaf am nad oeddem yn dibynnu fawr ddim ar reolaeth fewnol y Grŵp dros adroddiadau ariannol.

Cynhaliodd tîm y Grŵp yr archwiliad o'r Grŵp fel pe bai'n un set gyfanredol o wybodaeth ariannol. Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio'r perthnasedd a lefel perthnasedd y perfformiad a nodir uchod.




### 4 Busnes hyfyw

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw gan nad yw'n bwriadu datod y Grŵp na'r Sefydliad, na dod â'u gweithrediadau i ben, a chan ei fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Sefydliad yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes yna unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar eu gallu i barhau i fod yn fusnes hyfyw am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y busnes hyfyw").

Defnyddiasom ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i nodi'r risgiau cynhenid i'w fodel busnes, ac aethom ati i ddadansoddi'r modd y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Sefydliad neu eu gallu i barhau â'u gweithrediadau dros gyfnod y busnes hyfyw. Y risgiau yr oeddem yn ystyried eu bod fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Grŵp a'r Sefydliad dros y cyfnod hwn oedd:

- Gostyngiad yn incwm y ffioedd dysgu
- Effaith chwyddiant ar y sylfaen gostau sylfaenol.

Aethom ati i ystyried a oedd yn gredadwy y gallai'r risgiau hyn effeithio ar yr hylifedd am gyfnod y busnes hyfyw trwy asesu sensitifrwydd y cyfarwyddwyr dros lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael a nodir gan i ragolwg ariannol y Grŵp ystyried effeithiau andwyol difrifol, ond credadwy a allai ddeillio o'r risgiau hyn yn unigol ac ar y cyd.

Roedd ein gweithdrefnau hefyd yn cynnwys:

- Asesu'n feirniadol ragdybiaethau mewn achosion sylfaenol a senarios anfanteisiol sy'n berthnasol i hylifedd, yn enwedig mewn perthynas ag incwm ffioedd dysgu ac amseriad llif arian cysylltiedig gan gynnwys gwybodaeth am gynlluniau'r endid a'r sector y mae'n gweithredu ynddo.

- Gwnaethom hefyd gymharu cyllidebau'r gorffennol â chanlyniadau gwirioneddol er mwyn asesu cofnod cyllidebu'r cyfarwyddwyr yn gywir.

- Gwnaethom ystyried a yw'r datgeliad busnes hyfyw yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o asesiad y cyfarwyddwyr o fusnes hyfyw.

Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- Rydym o’r farn bod defnydd y Cyngor o ddull cyfrifo ar sail busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol;
- Nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu allu'r Sefydliad i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod y busnes gweithredol, ac rydym yn cyd-fynd ag asesiad y Cyngor nad oes yna ansicrwydd perthnasol o’r fath yn bodoli; a
- Canfuom fod datgeliad y busnes hyfyw yn nodyn 1 yn dderbyniol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu sefyllfa yn y dyfodol, a chan y gallai digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y cawsant eu gwneud, nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r Sefydliad yn parhau i weithredu.

## 5. Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau — y gallu i ganfod

*Nodi ac ymateb i risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll*

Er mwyn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll (“risgiau twyll”) aethom ati i asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Gofyn i’r Pwyllgor Archwilio a Risg am gael cynnal archwiliad mewnol ac arolwg o’r dogfennau polisi mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys swyddogaeth yr archwiliad mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer “chwythu’r chwiban”, yn ogystal â pha un a yw’n gwybod am unrhyw dwyll penodol, achosion lle yr amheuir twyll, neu dwyll honedig.

- Darllen cofnodion y Cyngor a chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg.

- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

- Darllen copi o gofrestr risgiau y Grŵp.

Aethom ati i gyfleu risgiau twyll a nodwyd ledled y tîm archwilio, a bu i ni barhau’n effro i unrhyw arwyddion o dwyll trwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, a gan ystyried ein gwybodaeth gyffredinol am yr amgylchedd rheoli, rydym yn cyflawni gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o’r rheolwyr yn diystyru rheolaethau a'r risg y caiff Incwm Grantiau a Chontract Ymchwil ei orddatgan trwy gofnodi refeniw yn y cyfnod anghywir, yn enwedig y risg y gallai’r rheolwyr fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Nid oeddem wedi nodi unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Aethom ati i gyflawni gweithdrefnau a oedd yn cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn cyfnodolion i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg, a chymharu'r cofnodion a nodwyd â'r dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion a fewnbynnwyd i gyfrifon anarferol a chyfnodolion anarferol o ran arian parod a benthyca.

- Cynnal profion fel y manylir yn Adran 2 yr adroddiad mewn perthynas â'r risg o dwyll bod Incwm Grantiau a Chontract Ymchwil yn cael ei orddatgan trwy gofnodi refeniw yn y cyfnod anghywir.

*Nodi ac ymateb i risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau*

Bu i ni nodi rhannau o ddeddfau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a’n profiad o’r sector, a thrwy drafod â'r Pwyllgor Archwilio a Risg a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio), a bu i ni hefyd drafod y polisïau a'r gweithdrefnau o ran cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau â'r rheolwyr.

Gan fod y Grŵp yn cael ei reoleiddio, roedd ein hasesiad o risgiau yn cynnwys meithrin dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli, gan gynnwys gweithdrefnau'r endid ar gyfer cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.

Aethom ati i gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd ledled ein tîm, gan barhau’n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfedd trwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (sy’n cynnwys deddfwriaeth berthnasol sy’n ymwneud ag elusennau, a deddfwriaeth a rheoliadau sy'n gysylltiedig ag addysg uwch), deddfwriaeth trethiant, a deddfwriaeth pensiynau, ac aethom ati i asesu hyd a lled y cydymffurfedd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn yn rhan o'n gweithdrefnau mewn perthynas â’r eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i nifer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfedd gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft trwy osod dirwyon neu ymgyfreitha, neu drwy'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Aethom ati i nodi'r meysydd canlynol yn rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: GDPR, deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, deddfwriaeth cyflogaeth a nawdd cymdeithasol, a gofynion rheoleiddiol addysg uwch y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), gan gydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Sefydliad. Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfedd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn i holi’r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes gohebiaeth o gwbl. Felly, os na ddatgelir achos o dorri rheoliadau gweithredol i ni, neu os nad oes achos o dorri rheoliadau yn amlwg o’r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod yr achos hwnnw.

*Cyd-destun gallu’r archwiliad i ganfod twyll neu achosion o dorri’r gyfraith neu reoliadau*

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae yna risg na ellir ei osgoi na fyddwn, o bosibl, wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad mewn modd priodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf i ffwrdd yw'r diffyg cydymffurfedd â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, lleiaf yw’r tebygrwydd y bydd y gweithdrefnau cyfyngedig yn y bôn sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei nodi.

At hynny, fel yn achos unrhyw archwiliad, roedd yna risg uwch o beidio â chanfod twyll yn parhau, gan y gallai twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ganfod camddatganiad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfedd neu dwyll, ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfedd â’r holl ddeddfau a rheoliadau.

**6. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol**

Y Cyngor (y mae ei aelodau yn Ymddiriedolwyr y Sefydliad at ddibenion cyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall, sef yr wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ynghylch y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall. Felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am yr wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth honno wedi'i chamddatgan mewn modd perthnasol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio, a hynny'n seiliedig ar ein gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os:

- ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr wybodaeth arall, yn seiliedig ar y gwaith hwnnw'n unig; neu
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn Adolygiad yr Is-Ganghellor, yr Adolygiad Ariannol, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol, a'r Datganiad o Reolaeth Fewnol (sydd gyda'i gilydd yn gyfystyr ag Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw fodd perthnasol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**7. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt trwy eithriad** O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Sefydliad wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol gennym ar gyfer ein harchwiliad.
- Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**8. Cyfrifoldebau perthnasol**

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr eglurir yn fanylach yn ei ddatganiad a nodir ar dudalen 48, mae'r Cyngor yn gyfrifol am: baratoi datganiadau ariannol s'n farn wir a theg; y rheolaeth fewnol y mae'n pennu sy'n angenrheidiol i alluogi i ddatganiadau ariannol gael eu paratoi sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r Sefydliad i barhau i fod yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol, fel y bo'n berthnasol; a defnyddio dull cyfrifo ar sail busnes gweithredol, oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Sefydliad neu roi'r gorau i weithredu, neu oni bai nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â safonau ISA (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo un yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd o ganlyniad i dwyll neu wall. Ystyrir eu bod yn berthnasol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, naill ai'n unigol neu yn eu crynswth, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

**ADRODD AM OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL ERAILL**

**9. Adrodd am ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill**

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion a ganlyn a ragnodir yn y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan CCAUC ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").

Trosglwyddwyd y gwaith o reoleiddio sector Addysg Uwch Cymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024. Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon, y Cod Rheolaeth Ariannol a Thelerau ac Amodau Ariannu 2023/24 a gyhoeddwyd gan CCAUC yn parhau ar waith ar ddyddiad ein hadroddiad. Yn wyneb y trosglwyddiad hwn, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at CCAUC yn ein hadroddiad fel cyfeiriad hefyd at Medr.

Yn ein barn ni, ac ym mhob ffordd berthnasol:

- mae cyllid o ba ffynhonnell bynnag, ac a weinyddir gan y Grŵp neu'r Sefydliad at ddibenion penodol, wedi cael ei ddefnyddio mewn modd priodol at y dibenion hynny, ac wedi cael ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae'r incwm, lle bo hynny'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio gan y Sefydliad yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol CCAUC;
- mae grantiau'r Cyngor Cyllido wedi cael eu defnyddio yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt, a'u defnyddio at y dibenion y daethant i law ar eu cyfer, gan gynnwys Telerau ac Amodau Ariannu 2023/24 a gyhoeddwyd gan CCAUC; ac
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC wedi cael eu bodloni.

**10. Diben ein gwaith archwilio a'r rheiny y mae ein cyfrifoldebau yn ddyledus iddynt**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig yn unol ag Adran 4 o Siarteri a Statudau'r Sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Sefydliad a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y fam a ffurfiwyd gennym.

**Jonathan Brown**

**ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol**

*Cyfrifwyr Siartredig.*

*Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu yn rôl archwilydd mewn perthynas ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006*

3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Caerdydd
CF10 4AX

28 Tachwedd 2024

# Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

| | | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
| Incwm | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 2 | 328,285 | 310,617 | 328,285 | 310,617 |
| Grantiau cyrff cyllido | 3 | 83,213 | 90,199 | 83,213 | 90,199 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 4 | 126,500 | 133,624 | 126,600 | 133,629 |
| Incwm arall | 5 | 95,186 | 90,874 | 83,898 | 81,730 |
| Incwm yn sgil buddsoddiad | 6 | 11,707 | 9,670 | 11,544 | 9,622 |
| Rhoddion a gwaddolion | 7 | 4,177 | 1,397 | 4,493 | 1,397 |
| Cyfanswm Incwm | | 649,068 | 636,381 | 638,033 | 627,194 |
| Gwariant | | | | | |
| Costau staff | 8 | 373,137 | 346,090 | 373,137 | 346,090 |
| Costau staff – (gostyngiad) yn narpariaeth cynllun pensiwn yr USS | 10 | (162,794) | (27,447) | (162,794) | (27,447) |
| Treuliau gweithredu eraill | 10 | 234,623 | 226,288 | 223,377 | 217,833 |
| Dibrisiant | 11 | 50,632 | 47,291 | 50,632 | 47,291 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 9 | 16,033 | 19,247 | 16,033 | 19,247 |
| Cyfanswm y Gwariant | 10 | 511,631 | 611,469 | 500,385 | 603,014 |
| **Gwarged gweithredu cyn enillion a cholledion eraill** | | **137,437** | **24,912** | **137,648** | **24,180** |
| Colledion ar waredu asedau sefydlog | | (174) | (2,333) | (174) | (2,333) |
| Amhariad ar asedau diriaethol sefydlog | 11 | (593) | (458) | (593) | (458) |
| Enillion ar werthu buddsoddiadau anghyfredol | 12 | 7,115 | 675 | 3,184 | 675 |
| Enillion / (Colledion) ar brisio buddsoddiadau | 15 | 36,923 | (5,624) | 36,923 | (5,624) |
| Cyfran o'r gwarged/(diffyg) yn y gyd-fenter | 12 | 70 | (813) | - | - |
| **Gwarged am y flwyddyn** | | **180,778** | **16,359** | **176,988** | **16,440** |
| **Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | | |
| Amhariad ar ailbrisio asedau | | - | (3,043) | - | (3,043) |
| Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 21 | (3,440) | 15,541 | (3,440) | 15,541 |
| **Cyfanswm y gwarged/(diffyg) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **177,338** | **28,857** | **173,548** | **28,938** |
| Cynrychiolir gan: | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr y gwaddolion ar gyfer y flwyddyn | | 6,850 | 677 | 6,850 | 677 |
| Gwariant cynhwysfawr cyfyngedig net ar gyfer y flwyddyn | | (92) | - | (92) | - |
| Incwm cynhwysfawr nad yw'n gyfyngedig am y flwyddyn | | 170,580 | 28,180 | 166,790 | 28,261 |
| | | **177,338** | **28,857** | **173,548** | **28,938** |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 59 i 94 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

| **Cyfunol** | Cyfrif incwm a gwariant | | | Cronfeydd ailbrisiant wrth gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Awst 2022 | 45,570 | 160 | 292,318 | 310,611 | 648,659 |
| Gwarged o'r datganiad o incwm a gwariant | 677 | - | 15,682 | - | 16,359 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | - | 12,498 | - | 12,498 |
| Cyfanswm y gwarged cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 677 | - | 28,180 | - | 28,857 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | - | - | 8,672 | (8,672) | - |
| Balans ar 31 Gorffennaf 2023 | 46,247 | 160 | 329,170 | 301,939 | 677,516 |
| Gwarged o'r datganiad o incwm a gwariant | 6,850 | (92) | 174,020 | - | 180,778 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | - | (3,440) | - | (3,440) |
| **Cyfanswm y gwarged cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | **6,850** | **(92)** | **170,580** | **-** | **177,338** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | - | - | 5,587 | (5,587) | - |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2024** | **53,097** | **68** | **505,337** | **296,352** | **854,854** |

| **Sefydliad** | Cyfrif incwm a gwariant | | | Cronfeydd ailbrisiant wrth gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Awst 2022 | 45,570 | 160 | 293,748 | 310,611 | 650,089 |
| Gwarged o'r datganiad o incwm a gwariant | 677 | - | 15,763 | - | 16,440 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | - | 12,498 | - | 12,498 |
| Cyfanswm y gwarged cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | 677 | - | 28,261 | - | 28,938 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | - | - | 8,672 | (8,672) | - |
| Balans ar 31 Gorffennaf 2023 | 46,247 | 160 | 330,681 | 301,939 | 679,027 |
| Gwarged o'r datganiad o incwm a gwariant | 6,850 | (92) | 170,230 | - | 176,988 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | - | (3,440) | - | (3,440) |
| **Cyfanswm y gwarged cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | **6,850** | **(92)** | **166,790** | **-** | **173,548** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | - | - | 5,587 | (5,587) | - |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2024** | **53,097** | **68** | **503,058** | **296,352** | **852,575** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 59 i 94 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o'r Sefyllfa Ariannol

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

| | | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
| Asedau anghyfredol | | | | | |
| Asedau diriaethol sefydlog | 11 | 956,775 | 952,270 | 956,775 | 952,270 |
| Buddsoddiadau | 12 | 17,353 | 15,207 | 15,508 | 13,433 |
| | | 974,128 | 967,477 | 972,283 | 965,703 |
| Asedau cyfredol | | | | | |
| Stociau | 13 | 268 | 289 | 268 | 289 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 14 | 61,656 | 61,549 | 61,608 | 62,783 |
| Buddsoddiadau | 15 | 320,690 | 390,439 | 320,690 | 390,439 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 16 | 105,806 | 36,586 | 103,037 | 33,135 |
| | | 488,420 | 488,863 | 485,603 | 486,646 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | 17 | (159,436) | (168,138) | (157,053) | (166,567) |
| Asedau cyfredol net | | 328,984 | 320,725 | 328,550 | 320,079 |
| Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | 1,303,112 | 1,288,202 | 1,300,833 | 1,285,782 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 18 | (430,263) | (422,901) | (430,263) | (422,901) |
| Darpariaethau pensiwn | 21 | (15,197) | (180,332) | (15,197) | (180,332) |
| Darpariaethau eraill | 22 | (2,798) | (7,453) | (2,798) | (3,522) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **854,854** | **677,516** | **852,575** | **679,027** |
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig | | | | | |
| Incwm a gwariant – cronfa waddol wrth gefn | 23 | 53,097 | 46,247 | 53,097 | 46,247 |
| Incwm a gwariant – cronfa gyfyngedig wrth gefn | | 68 | 160 | 68 | 160 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | | | |
| Incwm a gwariant – anghyfyngedig | | 505,337 | 329,170 | 503,058 | 330,681 |
| Cronfeydd ailbrisiant wrth gefn | | 296,352 | 301,939 | 296,352 | 301,939 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **854,854** | **677,516** | **852,575** | **679,027** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 59 i 94 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 59 i 94 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 26 Tachwedd 2024 a'u llofnodi ar ei ran ar 27 Tachwedd 2024 gan:

**Patrick Younge**
Cadeirydd y Cyngor

**Yr Athro Wendy Larner**
Yr Is-Ganghellor

**Darren Xiberras**
Y Prif Swyddog

# Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Lifau Arian Parod

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

| | Nodyn | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
| **Llif arian parod o'r gweithgareddau gweithredu** | | | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | | 180,778 | 16,359 | 176,988 | 16,440 |
| Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod | | | | | |
| Dibrisiant | 11 | 50,632 | 47,291 | 50,632 | 47,291 |
| Amhariad ar asedau sefydlog | 11 | 593 | 458 | 593 | 458 |
| Colledion ar waredu asedau sefydlog | 11 | 940 | 2,530 | 940 | 2,530 |
| Cyfran o'r (gwarged)/diffyg gweithredu mewn mentrau ar y cyd | 12,22 | (70) | 813 | - | - |
| Derbyn asedau a roddwyd | | (1,250) | - | (1,250) | - |
| Credydau pensiwn nad ydynt yn arian parod | 21 | (168,575) | (37,579) | (168,575) | (37,579) |
| Gostyngiad mewn stoc | 13 | 21 | 7 | 21 | 7 |
| Gostyngiad / (cynnydd) mewn dyledwyr | 14 | 2,744 | (1,304) | 4,026 | (1,662) |
| (Lleihad) / cynnydd yn y credydwyr | 17,18 | (8,602) | 4,239 | (9,414) | 8,805 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau eraill | | (724) | 1,416 | (724) | 1,416 |
| Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu | | | | | |
| Incwm grant cyfalaf | 3,5 | (8,467) | (9,885) | (8,467) | (9,885) |
| Incwm yn sgil buddsoddiad | 6 | (11,707) | (9,670) | (11,544) | (9,622) |
| Llog taladwy | 9 | 11,693 | 11,865 | 11,693 | 11,865 |
| Gwaddolion newydd | 23 | (2,129) | (1,175) | (2,129) | (1,175) |
| Enillion ar waredu buddsoddiadau anghyfredol | 12 | (7,115) | (675) | (3,184) | (675) |
| (Enillion)/colledion ar fuddsoddiadau cyfredol | 12,15 | (36,923) | 5,624 | (36,923) | 5,624 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 1,839 | 30,314 | 2,683 | 33,838 |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Derbynebau grant cyfalaf | | 9,763 | 6,797 | 9,763 | 6,797 |
| Incwm yn sgil buddsoddi | 6 | 11,707 | 9,670 | 11,544 | 9,622 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn adneuon | 15 | 106,672 | (31,012) | 106,672 | (31,012) |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | 11 | (53,740) | (56,734) | (53,740) | (56,734) |
| Caffaeliadau o fuddsoddiad anghyfredol | 12 | (3,295) | (6,632) | (3,295) | (6,632) |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog | | 769 | 197 | 769 | 197 |
| Derbyniadau o waredu buddsoddiadau anghyfredol | 12 | 1,553 | 1,504 | 1,553 | 1,504 |
| Llif arian parod / (all-lif) net o weithgareddau buddsoddi | | 73,429 | (76,210) | 73,266 | (76,258) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | | | |
| Llog a dalwyd | 9 | (12,160) | (12,325) | (12,160) | (12,325) |
| Arian parod gwaddolion a ddaeth i law | 7 | 2,129 | 1,175 | 2,129 | 1,175 |
| Ad-daliadau o symiau a fenthycwyd | 17,18 | (2,259) | (2,733) | (2,259) | (2,733) |
| Benthyciadau newydd heb eu gwarantu | 18 | 6,242 | - | 6,242 | - |
| All-lif arian parod net o weithgareddau ariannu | | (6,048) | (13,883) | (6,048) | (13,883) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn | | 69,220 | (59,779) | 69,901 | (56,303) |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 36,586 | 96,365 | 33,135 | 89,438 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 16 | 105,806 | 36,586 | 103,036 | 33,135 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 59 i 94 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

### 1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

**Sail y paratoad**

Paratowyd yr wybodaeth ariannol gyfunol hon yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019, y Safon Adrodd Ariannol (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011. Mae'r Sefydliad yn endid budd cyhoeddus, ac felly wedi cymhwyso'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol, sef FRS 102. Mae'r wybodaeth ariannol wedi cael ei pharatoi yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol (a addaswyd yn dilyn ailbrisio tir ac adeiladau, a mesur offerynnau ariannol penodol ar werth teg).

Mae gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar eu datblygiad, eu perfformiad a'u sefyllfa yn y dyfodol, wedi'u pennu yn yr Adolygiad Ariannol sy'n rhan o Adroddiad Bwrdd y Cyngor. Mae Adroddiad y Cyngor hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Sefydliad, ei lifau arian parod, ei sefyllfa o ran hylifedd, a'i gyfleusterau benthyca.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw, sail y mae'r Cyngor yn ei hystyried yn briodol am y rhesymau a ganlyn.

- Mae'r Cyngor wedi adolygu rhagolygon llifau arian parod am gyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.
- Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, gan roi ystyriaeth i anfanteision difrifol ond credadwy, megis lleihad yn yr incwm o ffioedd dysgu a chwyddiant costau, y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-Sefydliad ddigon o arian i fodloni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus yn ystod y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (cyfnod asesu'r busnes hyfyw).

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-Sefydliad ddigon o arian i barhau i fodloni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly mae wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

**Sail cyfuno**

Mae'r wybodaeth ariannol gyfunol yn cyfuno datganiadau ariannol y Sefydliad a'i is-gwmnïau University College Cardiff Consultants Limited ac International Learning Exchange Programme Limited ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf. Nid yw'n cynnwys datganiadau Undeb Myfyrwyr y Brifysgol na'r Cardiff Partnership Fund Limited, a hynny am nad yw'r Cyngor yn arfer rheolaeth dros eu gweithgareddau ariannol a gweithredu.

Mabwysiedir polisïau cyfrifyddu unffurf ledled y Grŵp. Defnyddir y dull ecwiti i gyfrifyddu yn achos cyd-fentrau.

**Cydnabod incwm**

Caiff incwm ffioedd dysgu ei ddatgan yn incwm gros, a hynny ar wahân i wariant sy'n ddisgownt (gan gynnwys taliadau prydlon) neu'n hepgoriadau ffioedd, a chaiff ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau (gan gynnwys y rhai a weinyddir gan drydydd partïon) yn cael eu cyfrif yn gros ar ffurf gwariant, ac nid yn cael eu didynnu o incwm.

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu darparu i'r cwsmer allanol neu pan fo telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

Credydir incwm buddsoddi i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr ar sail swm derbyniadwy.

Mae cronfeydd sy'n dod i law'r Sefydliad ac y mae'n eu halldalu, a hynny yn rhinwedd bod yn asiant talu ar ran corff ariannu, yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Sefydliad lle bo'r Sefydliad yn agored i'r risg leiaf neu'n mwynhau'r fantais economaidd leiaf sy'n ymwneud â'r trafodyn.

**Cyllid grant**

Mae cyllid grant, sy'n cynnwys cyllid grantiau bloc y cyngor, grantiau ymchwil a ffyrlo o ffynonellau llywodraethol, a grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol, yn cael ei gydnabod yn incwm pan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni a'r Sefydliad yn gymwys i hawlio'r incwm. Gelwir incwm a ddaw i law cyn bodloni amodau'n ymwneud â pherfformiad yn incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen, a chaiff ei ryddhau i fod yn incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

**Rhoddion a gwaddolion**

Rhoddion a gwaddolion yw trafodion na ellir eu cyfnewid heb amodau yn ymwneud â pherfformiad. Mae rhoddion a gwaddolion y mae iddynt gyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cydnabod yn incwm pan fo gan y Sefydliad hawl i'r cronfeydd, a chânt eu cadw yn y gronfa gyfyngedig wrth gefn ar wahân hyd nes y caiff y gronfa honno ei defnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath.

Cydnabyddir rhoddion nad oes iddynt unrhyw gyfyngiadau yn incwm pan fo gan y Sefydliad hawl i'r arian.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu (parhad)

Cofnodir incwm buddsoddi a symudiadau yng ngwerth teg gwaddolion yn incwm yn y flwyddyn y maent yn codi, a naill ai'n incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn ôl telerau'r gwaddol.

Cyfyngiadau a roddir ar y cronfeydd gwaddol unigol.

Mae pedwar prif fath o roddion a gwaddolion yn cael eu nodi mewn cronfeydd wrth gefn:

1. **Rhoddion cyfyngedig** – mae'r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan penodol.
2. **Gwaddolion parhaol anghyfyngedig** – mae'r rhoddwr wedi nodi y dylid buddsoddi'r arian yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Sefydliad.
3. **Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan** penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau diriaethol sefydlog, ac mae gan y Sefydliad y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. **Gwaddolion parhaol cyfyngedig** – mae'r rhoddwr wedi nodi y dylid buddsoddi'r arian yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol.

### Grantiau cyfalaf

Cydnabyddir grantiau cyfalaf yn incwm pan fo gan y Sefydliad hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad.

### Darpariaeth ar gyfer dyledion ansicr

Gwneir darpariaeth fel rheol ar gyfer dyledion unigol lle credir bod yna amheuaeth o ran eu hadennill, a hynny'n seiliedig ar y ffaith bod y ddyled wedi dyddio y tu hwnt i'w dyddiad dyledus, amgylchiadau hysbys eraill sy'n ymwneud â'r dyledwr unigol, megis ei fod wedi cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion, a phrosesau adennill dyledion ar ôl diwedd y flwyddyn. Bernir bod modd adennill unrhyw ddyledion annarparedig.

### Cynlluniau pensiwn

Y tri phrif gynllun pensiwn â buddion diffiniedig i staff y Sefydliad yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (yr USS), Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae'r cynlluniau yn gynlluniau â buddion diffiniedig a ariennir. Prisir y cronfeydd yn actiwaraidd bob tair blynedd gan actwari sydd â chymwysterau proffesiynol, a hynny gan ddefnyddio naill ai'r dull cyfanredol neu'r dull cyrraedd oed, a chyda cyfraddau'r cyfraniadau taladwy yn cael eu pennu gan ymddiriedolwyr y cynllun yn unol â chyngor yr actiwari.

### Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, nid yw'r asedau'n cael eu priodoli i sefydliadau unigol, a phennir cyfradd cyfraniadau ar gyfer y cynllun cyfan. Felly, mae'r Sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd sy'n gysylltiedig â chyflogeion sefydliadau eraill, ac nid yw'n gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Yn ôl gofynion Adran 28 o FRS 102, "Buddion i gyflogeion", mae'r Sefydliad felly'n gwneud cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Oherwydd bod y cynllun bellach mewn sefyllfa o warged ac nad oes angen cyfraniadau adennill diffyg mwyach, mae'r swm a gredydwyd i'r cyfrif elw a cholled yn cynrychioli rhyddhau'r rhwymedigaeth adennill diffyg. Mae treuliau sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn cael eu cydnabod drwy'r cyfrif elw a cholled.

#### Cynllun cyfraniadau diffiniedig:

Cynllun buddion yn dilyn cyflogaeth yw cynllun cyfraniadau diffiniedig, sy'n golygu bod y Sefydliad yn talu cyfraniadau penodol i endid ar wahân ac na fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na deongliadol i dalu symiau pellach. Mae rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cydnabod fel traul yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan gyflogeion.

#### Cynllun buddion diffiniedig:

Mae cynlluniau buddion diffiniedig yn gynlluniau buddion ôl-gyflogaeth gwahanol i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig. O dan gynlluniau buddion diffiniedig, ymrwymiad y Sefydliad yw darparu'r buddion cytunedig i gyflogeion presennol a chyn-gyflogeion, a bydd y risg actiwaraidd (sef y bydd buddion yn costio mwy, neu lai, na'r disgwyl) a'r risg buddsoddi (sef y bydd yr enillion ar asedau a osodwyd o'r neilltu i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl), yn eu hanfod, yn cael eu dwyn gan y Sefydliad. Dylai'r Sefydliad gydnabod atebolrwydd am ei rwymedigaethau o dan gynlluniau buddion diffiniedig sy'n net o asedau'r cynllun. Mae'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net hon yn cael ei mesur fel swm y buddion yr amcangyfrifir y mae cyflogeion wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, a hwnnw wedi'i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, namyn gwerth teg (ar y pris cynnig) asedau'r cynllun. Cyflawnir y broses gyfrifo gan actiwari cymwys, a hynny gan ddefnyddio'r dull unedau credyd rhagamcanol. Lle mae'r cyfrifiad yn arwain at ased net, mae cydnabyddiaeth o'r ased yn gyfyngedig i'r graddau y mae'r Sefydliad yn gallu adennill y gwarged naill ai trwy gyfraniadau llai yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun.

Yn ogystal, mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) yn weithredol yn achos rhai aelodau o'r staff. Mae cynllun y GIG yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu, a thelir buddion pensiwn o'r cyfraniadau a ddaw i law yn ystod y flwyddyn ac yn ôl y cyfraddau cyfrannua bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Cyfrifir am hyn fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. I gydymffurfio â Deddf Pensiynau 2008, mae'r Sefydliad hefyd yn defnyddio cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig NEST ar gyfer gweithwyr cymwys digontract.

### Buddion cyflogaeth

Mae buddion cyflogaeth byrdymor, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol, yn cael eu cydnabod yn draul yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn darparu gwasanaeth i'r Sefydliad. Bydd unrhyw fuddion nas defnyddiwyd yn cronni ac yn cael eu mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Sefydliad yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliau nas defnyddiwyd.

### Arian tramor

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir asedau rhwymedigaethau ariannol a brisir mewn arian tramor i bunnoedd sterling Prydain, sef arian cyfred swyddogaethol y Sefydliad, a hynny'n ôl y cyfraddau diwedd

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu (parhad)

blwyddyn, a chaiff y gwahaniaethau yn y cyfraddau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu cynnwys wrth bennu'r diffyg neu'r gwarged ar gyfer y flwyddyn.

### Lesoedd gweithredol

Codir costau mewn perthynas â lesoedd gweithredol ar sail llinell syth dros dymor y les. Mae unrhyw bremiymau neu gymhellion o ran lesoedd yn cael eu gwasgaru dros dymor gofynnol y les.

### Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog yn cael eu nodi ar gost/gost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig yr amhariad. Mesurwyd asedau eiddo Rhydd-ddaliad a Lesddaliad Hir a oedd yn bodoli wrth drosglwyddo i FRS 102 (1 Awst 2014) ar sail cost dybiedig, sef gwerth teg y farchnad neu gost dybiedig amnewid.

Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi ei ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn.

Caiff swm sy'n hafal i'r dibrisiant ac sydd uwchlaw dibrisiant sail y gost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig.

### Tir ac adeiladau

Mae costau yr eir iddynt o ran tir ac adeiladau ar ôl y pryniad cychwynnol neu ar ôl eu hadeiladu yn cael eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu'r buddion disgwyliedig yn y dyfodol i'r Sefydliad.

Ni chaiff tir ei ddibrisio am y credir bod iddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig, mewn blynyddoedd, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau academaidd ac adeiladau rhestredig | 50 |
| Safleoedd preswyl cyn 1990 | 25 |
| Safleoedd preswyl ar ôl 1990 a safleoedd preswyl Gogledd Tal-y-bont | 50 |
| Tai Preswyl | 50 |
| Adeiladau lled-barhaol | 25 |
| Adeiladau newydd ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru | 50 |
| Hen adeiladau ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru | 25 |
| Adeiladau a adnewyddwyd | 15 |

Mae adeiladau lesddaliad yn cael eu dibrisio dros naill ai tymor y les neu'r cyfnod y mae disgwyl iddynt fod yn ddefnyddiol, a ddangosir uchod, pa un bynnag sydd fyrraf.

Ni chodir unrhyw ddibrisiant ar asedau yn ystod y gwaith adeiladu.

Lle mae gan rannau o ased sefydlog oesau defnyddiol gwahanol, cânt eu cyfrifo fel eitemau o asedau sefydlog ar wahân, yn unol â chyfrifo cydrannol.

Mae eitemau cydrannol yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywydau disgwyliedig, mewn blynyddoedd, fel a ganlyn:

| Cydran | Bywyd |
|---|---|
| Amlen adeilad | 20-50 |
| Adeiladau a adnewyddwyd | 15 |
| Gwasanaethau mecanyddol a pheirianyddol | 10-25 |
| Dodrefnu | 10-50 |

### Peiriannau a Chyfarpar

Mae peiriannau a chyfarpar sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol neu grŵp o eitemau cysylltiedig yn cael eu dileu yn y flwyddyn caffael oni bai eu bod yn cael eu prynu'n rhan o adeilad newydd neu waith adnewyddu seilwaith adeilad mawr.

Caiff yr holl gyfarpar arall ei gyfalafu, ac eithrio'r cyfarpar a ariennir o Grantiau Ymchwil ac sy'n costio llai na £50,000. Caiff hwn hefyd ei ddileu ym mlwyddyn ei brynu.

Nodir peiriannau a chyfarpar wedi'u cyfalafu ar gost namyn colledion dibrisiedig a cholledion amhariad cronedig dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig o rhwng pedair a deng mlynedd, ar gyfer cyfarpar, fel y bo'n briodol.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu mo'u dibrisio nes y byddant mewn defnydd.

Caiff cyfarpar sydd wedi'i ddibrisio'n llwyr ei ddileu pan na fydd yr ased yn cael ei ddefnyddio mwyach neu pan na fydd yn bodoli mwyach.

### Adeilad Parc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (SBARC|SPARK)

Mae Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol y Brifysgol (SBARC|SPARK) yn sicrhau llawer o gyfleoedd i'r Brifysgol ddarparu ei gwasanaethau craidd.

Mae adeilad SBARC|SPARK yn 11,604 m2. Mae tua 15% o'r gofod hwn yn cael ei ddyrannu i egin fusnesau'r brifysgol, cwmnïau deillio, ymchwilwyr a rhanddeiliaid eraill, gan ddarparu cymorth ar gyfer cydleoli a chydweithio rhyngddisgyblaethol. Caiff ei rentu ar gytundebau les byrdymor. Mae'r rhanddeiliaid hyn wedi cael eu dewis ar y sail eu bod yn cyfrannu at allu Prifysgol Caerdydd i ddyfnhau ei phartneriaethau â diwydiant a sefydliadau eraill, gan gynhyrchu gwerth economaidd a chymdeithasol trwy arloesi, sy'n cyd-fynd â strategaeth y Brifysgol ar gyfer Ymchwil ac Arloesi. Mae'r adeilad wrth galon Campws y Brifysgol, a chedwir y gofod hwn i gefnogi amcanion y Brifysgol yn hytrach nag ar gyfer rhent masnachol neu arbrisiant cyfalaf. Yn unol â hynny, cyfrifir am yr adeilad cyfan fel ased sefydlog, ac fe'i delir ar gost ddibrisiedig.

Mae'r holl weithgareddau'n hynod o fuddiol i'r Brifysgol o ran hyrwyddo ei henw da, hybu'r gwasanaethau sydd ar gael, darparu ymchwil o'r radd flaenaf ac a gydnabyddir yn fyd-eang ym maes y gwyddorau cymdeithasol, meithrin a datblygu partneriaethau trwy amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau arloesi, mentro ac ymgysylltu, cefnogi'r economi ranbarthol ehangach, a gwella ehangder a nifer y cyfleoedd ymchwil i fyfyrwyr a myfyrwyr entrepreneuraidd.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu (parhad)

### Buddsoddiadau

Cedwir buddsoddiadau asedau anghyfredol ar y Fantolen ar gost namyn amhariad.

Mae cyd-fentrau'n cael eu cario ar gost namyn amhariad yn natganiadau ariannol y Sefydliad.

Cedwir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg, gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### Stociau

Mae'r stociau a ddelir yn ddeunyddiau adeiladu, nwyddau traul meddygol/biowyddorau, a nwyddau traul masnachu Uned Gwaith yr Ystadau, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd, ac Arlwyo, yn y drefn honno. Caiff y rhain eu prisio yn ôl y gost isaf neu'r gwerth gwireddadwy net.

### Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar gais, a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol cyn pen 24 awr heb gosb.

Mae'r buddsoddiadau sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor hynod o hylifol y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod heb risg sylweddol y bydd yna newid mewn gwerth.

### Cynnal a chadw eiddo

Mae gan y Sefydliad gynllun cynnal a chadw treigl sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Codir cost cynnal a chadw cywirol arferol ar y datganiad o incwm cynhwysfawr.

### Statws treth

Gan fod y Sefydliad yn elusen gofrestredig o fewn ystyr Pennod 1 o Adran 3 o Ddeddf Elusennau 2011, mae felly yn elusen o fewn ystyr Adran 6 o Ddeddf Cyllid 2010. Yn unol â hynny, gallai'r Sefydliad fod yn eithriedig rhag talu treth mewn cysylltiad â'r incwm neu'r enillion cyfalaf a ddaw i law o fewn y categorïau sy'n dod o dan Adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, a hynny i'r graddau y caiff incwm neu enillion o'r fath eu cymhwyso at ddibenion cwbl elusennol er budd y cyhoedd.

Mae pob is-gwmni'n atebol i dalu Treth Gorfforaeth a Threth ar Werth (TAW). Mae prif weithgareddau'r Sefydliad wedi'u heithrio rhag TAW ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn agored i dalu TAW ar amrywiol gyfraddau. Mae gwariant yn cynnwys TAW anadferadwy a godir gan gyflenwyr ar y Sefydliad. Nid oes yn rhaid i'r Sefydliad dalu Treth Dir y Dreth Stamp wrth brynu a lesio eiddo.

### Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y Sefydliad rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Mae'n debygol y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

### Offerynnau ariannol

Mae'r Sefydliad wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 o FRS 102 mewn perthynas ag offerynnau ariannol ar gyfer ei ddatganiadau ariannol cyfunol a sefydliadol.

#### (i) Asedau ariannol

Mae asedau ariannol sylfaenol, gan gynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, arian parod, balansau yn y banc a buddsoddiadau mewn papur masnachol, yn cael eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodyn, oni bai fod y trefniant yn cynnwys trafodyn ariannu, lle bo'r trafodyn yn cael ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad.

Mae asedau o'r fath yn cael eu cario yn dilyn hynny ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd mae asedau ariannol yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio ar gyfer tystiolaeth wrthrychol o amhariad. Os amherir ar ased, colledion yr amhariad yw'r gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llifau arian parod amcangyfrifedig wedi eu disgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir colledion yr amhariad yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

Os oes gostyngiad yng ngholledion yr amhariad sy'n deillio o ddigwyddiad sy'n cymryd lle wedi i'r amhariad gael ei gydnabod, caiff yr amhariad ei wrthdroi. Mae'r gwrthdroi yn golygu nad yw'r swm cario presennol yn fwy na'r hyn y byddai'r swm cario wedi bod pe na fyddai'r amhariad wedi'i gydnabod yn flaenorol. Cydnabyddir y ffaith bod yr amhariad yn cael ei wrthdroi yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

I ddechrau, mesurir asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt neu gyd-fentrau, ar werth teg, sef pris y trafodyn fel arfer.

Mae asedau o'r fath yn cael eu cynnal wedyn ar werth teg ac mae'r newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod yn y gwarged neu'r diffyg, heblaw'r buddsoddiadau hynny mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn cael eu masnachu yn gyhoeddus ac na ellir mesur eu gwerth teg ar gost namyn yr amhariad mewn modd dibynadwy.

Mae asedau ariannol yn cael eu datgydnabod pan fo (a) yr hawliau contractiol i'r llifau arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo, neu (b) yr holl risgiau a gwobrwyon o berchnogi'r asedau yn cael eu trosglwyddo i barti arall neu (c) rheolaeth o'r ased wedi cael ei throsglwyddo, a hynny er gwaethaf cadw rhai o risgiau a gwobrwyon sylweddol y berchnogaeth i barti arall sydd â'r gallu ymarferol i werthu'r ased yn unochrog i drydydd parti digyswllt heb osod cyfyngiadau ychwanegol.

#### (ii) Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, benthyciadau banciau, benthyciadau gan gwmnïau o'r cyd-grŵp, a chyfranddaliadau braint a ddosberthir yn ddyled, yn cael eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodyn, oni bai fod y trefniant yn cynnwys trafodyn ariannu, lle mae'r offeryn dyled yn cael ei fesur yn ôl gwerth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu (parhad)

Yn dilyn hynny, cynhelir offerynnau dyled ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Cydnabyddir ffioedd a delir wrth sefydlu cyfleusterau benthyg yn gostau trafodion y benthyciad, a hynny i'r graddau ei bod yn debygol y bydd peth o'r cyfleuster neu'r cyfleuster cyfan yn cael ei dynnu i lawr. Yn yr achos hwn, mae'r ffi yn cael ei gohirio hyd nes y caiff yr arian ei dynnu i lawr. I'r graddau nad oes yna unrhyw dystiolaeth ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o'r cyfleuster neu'r cyfleuster cyfan yn cael ei dynnu i lawr, mae'r ffi yn cael ei chyfalafu ar ffurf taliad ymlaen llaw am wasanaethau hylifedd, a'i hamorteiddio dros gyfnod y cyfleuster y mae'n perthyn iddo.

Symiau masnach taladwy yw'r rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u caffael yn nhrefn arferol busnes gan gyflenwyr. Dosberthir cyfrifon sy'n daladwy yn rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus cyn pen blwyddyn neu lai. Os nad ydynt, fe'u cyflwynir yn rhwymedigaethau anghyfredol. Mae symiau masnach taladwy yn cael eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodyn, ac wedyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu datgydnabod pan fo'r rhwymedigaeth yn cael ei diddymu – hynny yw, pan fo'r rhwymedigaeth gontractiol yn cael ei rhyddhau neu ei chanslo, neu pan fydd yn dod i ben.

### Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dosbarthu'n gyfyngedig neu'n anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i'r Sefydliad, yn cael eu cadw ar ffurf cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Sefydliad ei chadw am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill wrth gefn yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol, ac felly cyfyngir ar y modd y caiff y Sefydliad ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

Crëwyd y gronfa ad-dalu bondiau, sy'n gronfa ddynodedig, yn 2019-20, a hynny i'r diben o fedru rhoi tebygolrwydd rhesymol o ran gallu talu'r ad-daliad bond o £400 miliwn, a fydd yn ddyledus ar 7 Rhagfyr 2055 (Nodyn 24).

### Amcangyfrifon a dyfarniadau arwyddocaol

Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i baratoi'r wybodaeth ariannol hon fel a ganlyn:

#### (i) Adenilladwyedd dyledwyr

Mae'r polisi cyfrifyddu arferol ar gyfer asesu adenilladwyedd dyledwyr, a'r ddarpariaeth ddilynol ar gyfer amhariad ar ddyledion ansicr mewn perthynas â chasglu ffioedd myfyrwyr a dyledion masnachol ac ymchwil, wedi cael eu gweithredu.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr glirio eu ffioedd presennol cyn symud ymlaen i flwyddyn academaidd arall. Yn achos myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu cwrs ond sydd â ffioedd dyledus, mae eu hardystiad llawn yn cael ei ddal yn ôl hyd nes y caiff eu dyled ffioedd ei chlirio, yn unol â pholisi Ffioedd Dysgu'r Sefydliad.

Rydym yn parhau i fonitro dyledion tramor yn fanwl ac yn gweithredu fel y bo'n briodol.

**Amcangyfrif**

*Dyled ffioedd dysgu*

Mae'r ddarpariaeth diwedd blwyddyn o ran amhariad ar ddyledion ansicr yn achos ffioedd dysgu yn cael ei hasesu ar sail yr holl ddyledion hwyr ac yn ôl categori'r dyledwr ffioedd, ni waeth beth fo'i broffil oedran, a lle bo categorïau penodol yn cyfrif am fwy o risg nag eraill.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer amhariad ar ddyledion cyfanredol sy'n deillio o hyn ei lleihau trwy setliadau ffioedd dilynol a ddaw i law ar ôl 31 Gorffennaf 2024 gan ddyledwyr yn yr un categorïau hyn. Bernir bod yr holl ddyledion eraill o ran ffioedd dysgu yn adenilladwy.

Roedd y ddyled ffioedd dysgu ar 31 Gorffennaf 2024 yn £6.1 miliwn (2023: £4.7 miliwn) (gweler Nodyn 14). Ar ôl rhoi ein polisi amhariad ar ddyledion ar waith, mae'r ddarpariaeth amhariad ar ddyledion ansicr yn £5.0 miliwn (2022: £4.2 miliwn) ar ôl asesu derbyniadau a ddaeth i law ar ôl 31 Gorffennaf 2024.

*Dyled Masnachol ac Ymchwil*

Mae polisïau cyffredinol wedi cael eu rhoi ar waith i asesu amhariad ar ddyledion, ac eithrio yn achos llysgenadaethau tramor, lle bo dyled sydd dros 91 diwrnod yn hwyr yn ddarostyngedig i ddarpariaeth amhariad (a ddarperir fel arfer pan fydd dyled 181 diwrnod yn hwyr).

Yn gyffredinol, roedd y ddyled Masnachol ac Ymchwil ar 31 Gorffennaf 2024 yn £15.7 miliwn (2023: £16.2 miliwn) (gweler Nodyn 14).

Ar ôl cymhwyso polisi'r amhariad ar ddyledion ansicr, asesir bod £0.5 miliwn mewn perygl (2023: £1.5 miliwn) ac yn destun darpariaeth amhariad ar ddyledion ansicr.

#### (ii) Dadfeiliadau yn achos Eiddo Lesddaliadol

Mae'r Sefydliad wedi cydnabod ei rwymedigaeth amcangyfrifedig yn y dyfodol i ddychwelyd eiddo lesddaliadol byrdymor i'w gyflwr gwreiddiol pan ddaw'r trefniant les i ben, a hynny'n seiliedig ar amcangyfrif o gost y gwaith ar y farchnad gyfredol, amcangyfrif a ddarperir gan syrfëwr eiddo proffesiynol wedi iddo asesu statws cyfredol pob adeilad perthnasol.

Ar 31 Gorffennaf 2024, rhagdybir y bydd y Sefydliad yn gadael pob les ar y dyddiad perthnasol gan nad oes unrhyw gynlluniau nac arwyddion i wrthsefyll y farn hon.

Bydd y ddarpariaeth/darpariaethau amcangyfrifedig ganlyniadol/canlyniadol yn destun adolygiad blynyddol yn y dyfodol o ran perthnasedd, h.y. cynlluniau yn y dyfodol i adael neu adnewyddu les, ac i gymhwyso chwyddiant, a hynny'n seiliedig ar ddata mynegeio pris costau'r diwydiant perthnasol.

Bydd amrywiadau chwyddiant costau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost atgyweirio a chynnal a chadw.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024

1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu (parhad)

### (iii) Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

**Amcangyfrif – CUPF a CPLlL**

Mae'r Sefydliad yn gweithredu ei gynllun ei hun, sef Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF), ac mae'n cymryd rhan mewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS); mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig. Cynhelir prisiadau actiwaraidd o'r cynlluniau yn unol â'r hyn a bennir gan yr ymddiriedolwyr, a hynny heb i'r ysbeidiau rhyngddynt fod yn fwy na thair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan FRS 102 yn unol â chyngor actiwariaid annibynnol ac yn seiliedig ar y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a rhagdybiaethau a bennir gan yr actiwariaid.

Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i'r actiwariaid gan y Sefydliad, a ategir gan drafodaethau rhwng yr actiwari a'r rheolwyr, lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u dogfennu yn Nodyn 25.

Ar 31 Gorffennaf 2023, arweiniodd y gronfa LGPS, o dan driniaeth gyfrifyddu FRS 102, at ased pensiwn. Nid oes modd adennill y gwarged yn llawn, ac rydym wedi dilyn IAS 19 i bennu budd economaidd y gwarged y gall Prifysgol Caerdydd ei wireddu. Ar gyfer 2024, mae'r gwarged a gydnabyddir yn ased yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn £dim (2023: £dim).

**Amcangyfrif – yr USS**

Ar 31 Gorffennaf 2023, roedd mantolen y sefydliad yn cynnwys rhwymedigaeth o £165,245 ar gyfer cyfraniadau yn y dyfodol sy'n daladwy o dan y cytundeb adennill diffyg, a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021, yn dilyn prisiad 2020 pan oedd diffyg yn y cynllun. Nid oedd angen cynllun adfer diffyg yn sgil prisiad 2023, gan fod y cynllun mewn gwarged. Gweithredwyd newidiadau i gyfraddau cyfraniadau o 1 Ionawr 2024 ac o'r dyddiad hwnnw nid oedd yn ofynnol bellach i'r sefydliad wneud cyfraniadau adennill diffyg. Rhyddhawyd y rhwymedigaeth oedd yn weddill o £165,245 i'r cyfrif elw a cholled. Mae datgeliadau pellach yn ymwneud â'r rhwymedigaeth adennill diffyg i'w gweld yn nodyn 25.

**Dyfarniad – yr USS**

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun amlgyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin fel arfer gyda chyflogwr sy'n noddi. Mae cynllun amlgyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin, ac (fel arfer) mae'n cynrychioli cynllun ar draws y diwydiant cyfan, er enghraifft Cynllun Pensiwn y Prifysgolion. Mae'r broses gyfrifyddu ar gyfer cynllun amlgyflogwr, lle mae'r cyflogwr wedi gwneud cytundeb â'r cynllun sy'n pennu'r modd y bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn arwain at gydnabod atebolrwydd am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r diffyg), a bydd y treuliau canlyniadol yn cael eu codi trwy'r cyfrif elw neu golled yn unol ag adran 28 o FRS 102.

### (iii) Cydnabod Incwm Ymchwil

Ystyrir bod i bob grant ymchwil amod perfformiad. Pennir y math o amod perfformiad trwy adolygu contract y grant ymchwil.  Yn achos y mwyafrif o grantiau ymchwil, cydnabyddir incwm yn unol â lefel y gwasanaeth a sefydlwyd gan y cyllidebau gwariant prosiectau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, a lle bo proffiliau gwariant gwirioneddol yn wahanol i broffiliau gwariant a gyllidebwyd, cydnabyddir yr incwm yn unol â'r gwariant gwirioneddol. Yn achos rhai grantiau ymchwil, mae lefel y gwasanaeth ynghlwm wrth gyrraedd carreg filltir; o ganlyniad, cydnabyddir y refeniw ar gyfer y grantiau hyn ar sail arian parod a ddaw i law.

## 2. Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysg

**Cyfunol a Sefydliadol**

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Israddedigion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd | 161,606 | 151,049 |
| Ôl-raddedigion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd | 11,041 | 12,215 |
| Tramor (gan gynnwys rhan-amser) | 114,334 | 106,126 |
| Rhan-amser (o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd) | 5,502 | 5,797 |
| | 292,483 | 275,187 |
| Contractau addysg | 16,802 | 16,620 |
| Grantiau cymorth hyfforddiant ymchwil | 11,971 | 11,824 |
| Ffioedd nad ydynt yn dwyn credyd | 7,029 | 6,986 |
| | 328,285 | 310,617 |

## 3. Grantiau Cyrff Ariannu

**Cyfunol a Sefydliadol**

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau rheolaidd | 70,802 | 75,794 |
| Grantiau penodol | 4,363 | 6,877 |
| Grantiau cyfalaf – adeiladau | 1,605 | 3,282 |
| Grantiau cyfalaf – cyfarpar | 6,443 | 4,246 |
| | 83,213 | 90,199 |

## 4. Grantiau a Chontractau Ymchwil

| | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
| Cynghorau Ymchwil | 47,681 | 43,079 | 47,681 | 43,079 |
| Elusennau yn y DU | 22,187 | 24,628 | 22,187 | 24,628 |
| Cyrff Llywodraeth y DU | 32,962 | 43,247 | 33,062 | 43,252 |
| Diwydiant y DU | 8,539 | 7,138 | 8,539 | 7,138 |
| Y Comisiwn Ewropeaidd | 5,589 | 7,197 | 5,589 | 7,197 |
| Tramor | 7,506 | 6,423 | 7,506 | 6,423 |
| Grantiau a chontractau eraill | 2,036 | 1,912 | 2,036 | 1,912 |
| | 126,500 | 133,624 | 126,600 | 133,629 |

## 5. Incwm Arall

| | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd: | | | | |
| Llywodraeth Ganolog y DU | 18,908 | 23,592 | 19,124 | 23,353 |
| Awdurdodau Iechyd y DU | 10,722 | 8,212 | 10,722 | 8,212 |
| Diwydiant y DU | 895 | 1,103 | 895 | 1,103 |
| Yr Undeb Ewropeaidd | 1,669 | 1,815 | 1,669 | 1,815 |
| Tramor | 47 | 91 | 47 | 91 |
| Prifysgolion y DU | 856 | 596 | 856 | 596 |
| Ffynonellau Eraill | 7,916 | 7,293 | 9,565 | 9,534 |
| Cyfanswm y gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 41,013 | 42,702 | 42,878 | 44,704 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 31,593 | 29,685 | 31,593 | 29,685 |
| Eithriadau TAW y gellir eu hadennill | 1,103 | 559 | 1,103 | 559 |
| Grantiau cyfalaf eraill | 419 | 2,357 | 419 | 2,357 |
| Incwm arall | 21,058 | 15,571 | 7,905 | 4,425 |
| | 95,186 | 90,874 | 83,898 | 81,730 |

## 6. Incwm o Fuddsoddiad

| | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 10,163 | 8,292 | 10,000 | 8,245 |
| Incwm o fuddsoddiadau gwaddol (Nodyn 23) | 1,544 | 1,378 | 1,544 | 1,377 |
| | 11,707 | 9,670 | 11,544 | 9,622 |

## 7. Rhoddion a Gwaddolion

| | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 £'000 | 2023 £'000 | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
| Gwaddolion newydd (Nodyn 22) | 2,129 | 1,175 | 2,129 | 1,175 |
| Rhoddion gyda chyfyngiad | 23 | - | 23 | - |
| Rhoddion anghyfyngedig | 2,025 | 222 | 2,341 | 222 |
| | 4,177 | 1,397 | 4,493 | 1,397 |

**8. Costau staff:**

**Cyfunol a Sefydliadol**

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau staff:** | | |
| Cyflogau | 299,132 | 274,178 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 30,984 | 28,879 |
| Costau pensiwn eraill | 43,021 | 43,033 |
| | 373,137 | 346,090 |

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys taliadau a wnaed i staff ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

**Cyfunol a Sefydliadol**

| | 2024 CALI | 2023 CALI |
|---|---|---|
| **Nifer y staff ar gyfartaledd fesul prif gategori:** | | |
| Clinigol ac anghlinigol, academaidd ac academaidd-berthynol | 4,791 | 4,712 |
| Gwasanaethau technegol | 203 | 217 |
| Cymorth gweinyddol | 1,026 | 1,005 |
| Gwasanaethau gweithredol | 233 | 237 |
| | 6,253 | 6,171 |

**Iawndal y prif bersonél rheoli**

Mae'r Sefydliad o'r farn mai'r personél rheoli allweddol yw'r 17 o unigolion (2022: 12) sy'n gwasanaethu yn rôl aelodau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol gan fod ganddynt awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Sefydliad. Mae costau staff yn cynnwys iawndal a dalwyd i'r prif bersonél rheoli.

| | 2024 £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Iawndal y prif bersonél rheoli | 2,371 | 2,305 |

Mae rhestr o aelodau presennol Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gael ar ein gwefan: www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/university-executive-board

**Iawndal am golli swydd i gyflogeion ar gyflog uwch**

Gwnaed taliadau iawndal o £43,000 i gyflogeion ar gyflog uwch yn ystod y flwyddyn (2023: £45,000)

### 8. Costau Staff (parhad)

#### Aelodau eraill o staff ar gyflogau uwch

Nid yw'r taliadau i staff ar gyflogau uwch (ac eithrio'r Is-Ganghellor), a adlewyrchir yn yr ystodau isod, yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, bonysau ac iawndal am golli swydd, ond maent yn cynnwys taliadau a wnaed ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaeth gontractiol i staff y Sefydliad sydd o dan gontractau cyflogaeth ar wahân y GIG. Mae'r taliadau hyn yn cael eu heithrio o gyfrif Incwm a Gwariant y Sefydliad. O blith y 176 o aelodau staff sy'n ennill mwy na £100,000 yn 2024 (2023: 167), mae 48 (2023: ailddatganwyd yn 45) yn cynnwys taliadau o'r fath ar ran y GIG.

| Band Cyflog | 2024 Nifer y GIG | 2024 Nifer arall | **2024 Cyfanswm nifer** | 2023 Nifer y GIG | 2023 Nifer arall | **2023 Cyfanswm nifer** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £100,000 - £104,999 | - | 21 | **21** | - | 27 | **27** |
| £105,000 - £109,999 | 1 | 27 | **28** | - | 24 | **24** |
| £110,000 - £114,999 | - | 20 | **20** | - | 16 | **16** |
| £115,000 - £119,999 | 2 | 11 | **13** | 1 | 13 | **14** |
| £120,000 - £124,999 | 2 | 14 | **16** | 2 | 5 | **7** |
| £125,000 - £129,999 | 4 | 1 | **5** | 4 | 9 | **13** |
| £130,000 - £134,999 | 3 | 6 | **9** | 4 | 5 | **9** |
| £135,000 - £139,999 | 6 | 3 | **9** | 3 | 6 | **9** |
| £140,000 - £144,999 | 4 | 6 | **10** | 3 | 4 | **7** |
| £145,000 - £149,999 | 1 | 5 | **6** | 4 | 2 | **6** |
| £150,000 - £154,999 | 1 | 4 | **5** | 1 | 3 | **4** |
| £155,000 - £159,999 | 2 | 2 | **4** | 5 | - | **5** |
| £160,000 - £164,999 | 1 | 2 | **3** | 3 | - | **3** |
| £165,000 - £169,999 | 5 | - | **5** | 4 | 4 | **8** |
| £170,000 - £174,999 | 2 | 1 | **3** | 1 | 1 | **2** |
| £175,000 - £179,999 | 1 | 2 | **3** | - | 2 | **2** |
| £180,000 - £184,999 | 2 | 1 | **3** | 5 | - | **5** |
| £185,000 - £189,999 | 4 | - | **4** | - | - | **-** |
| £190,000 - £194,999 | 4 | - | **4** | 3 | 1 | **4** |
| £195,000 - £199,999 | 1 | - | **1** | - | - | **-** |
| £200,000 - £204,999 | - | 2 | **2** | - | - | **-** |
| £205,000 - £209,999 | - | - | **-** | 1 | - | **1** |
| £210,000 - £214,999 | - | - | **-** | 1 | - | **1** |
| £215,000 - £219,999 | - | - | **-** | - | - | **-** |
| £220,000 - £224,999 | 1 | - | **1** | - | - | **-** |
| £225,000 - £229,999 | 1 | - | **1** | - | - | **-** |
| | 48 | 128 | **176** | 45 | 122 | **167** |

**8. Costau Staff (parhad)**

| **Enillion yr Is-Ganghellor** | 2024 £'000 Cyfredol | 2024 £'000 Blaenorol | 2023 £'000 Blaenorol |
|---|---|---|---|
| Cyflog | 267 | 26 | 301 |
| Bonws | - | - | 56 |
| Buddion mewn nwyddau | 30 | 9 | 20 |
| | 297 | 35 | 377 |
| Cyfraniad Pensiwn Optio Allan Uwch Marw yn y Swydd yn unig | 45 | 2 | 19 |
| | 342 | 37 | 396 |

Mae'r buddion mewn nwyddau a gafodd yr Is-Ganghellor fel a ganlyn (£000au):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yswiriant meddygol preifat | 2 | - | 1 |
| Llety parhaol | 28 | 9 | 19 |
| Gwasanaethau a gyflenwyd | 2 | - | - |

Pennir tâl yr Is-Ganghellor presennol drwy'r Broses Adolygu Cyflogau Uwch gan y Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol o'r Cyngor. Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor hefyd yn cael ei adolygu yn unol â dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer y sector Addysg Uwch.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno asesiadau perfformiad i'r Pwyllgor Tâl yn rhan o'r broses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau Staff. Mae'r penderfyniad terfynol ar y gwobrau a roddir ar gyfer asesiadau perfformiad cymharol yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Taliadau Yn unol â'r broses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau Staff, mae cyflog yr Is-Ganghellor hefyd yn cael ei asesu yn erbyn pryderon ynghylch ecwiti a'r farchnad.

Ymhlith y ffactorau sy'n cael eu defnyddio i adolygu perfformiad yr Is-Ganghellor yw:

- arweinyddiaeth, rheolaeth, a phrofiad academaidd yr Is-Ganghellor yn y sector addysg uwch.
- hyd a lled yr arweinyddiaeth a chyfrifoldebau ariannol dros y Brifysgol.
- Perfformiad y Brifysgol yn unol â'r strategaeth a'r metrigau y cytunwyd arnynt.

Roedd y cyn Is-Ganghellor yn ei swydd am gyfnod byr yn ystod y flwyddyn ariannol. Ni chyflogwyd y cyn Is-Ganghellor yn ystod yr asesiad perfformiad, felly nid ystyriwyd ac ni dderbyniwyd unrhyw daliad ychwanegol.

Yn y flwyddyn gyfredol, dechreuodd yr Is-Ganghellor newydd ar ei swydd ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn golygu bod dau Is-Ganghellor yn cael eu talu yn ystod y cyfnod. Nid oedd eu cyflogaeth yn gorgyffwrdd.

Mae cyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn yr Is-Ganghellor presennol 6.7 gwaith cyflog canolrif yr holl staff, a chyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn y cyn Is-Ganghellor yw 7.3 gwaith (2023: 7.0 gwaith) cyflog canolrif yr holl staff, lle mae'r cyflog canolrif yn cael ei gyfrifo ar sail cyfwerth ag amser llawn y cyflogau y mae'r Sefydliad yn eu talu.

Mae cyfanswm tâl cyfwerth ag amser llawn yr Is-Ganghellor presennol 7.4 gwaith yn fwy na chyfanswm cydnabyddiaeth canolrif yr holl staff, ac mae cyfanswm tâl cyfwerth ag amser llawn y cyn Is-Ganghellor 7.5 gwaith (2023: 8.7 gwaith) tâl canolrifol yr holl staff, gyda chyfanswm y taliadau canolrif yn cael ei gyfrifo ar sail cyfwerth ag amser llawn cyfanswm y taliadau y mae'r Sefydliad yn ei dalu.

Yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC, mae taliadau'n cynnwys cwmnïau gwasanaeth personol y mae'r Sefydliad yn eu hystyried yn gyflogeion o dan Reoliadau Cyfryngol CThEF (IR35) ac a delir trwy'r gyflogres ac a adroddir i CThEF trwy adroddiadau "Gwybodaeth Amser Real" (RTI).

### 9. Llog a Chostau Ariannol Eraill

| | Cyfunol | | Sefydliadol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 | 2024<br>£'000 | 2023<br>£'000 |
| Llog bondiau a chostau ariannol | 11,582 | 11,588 | 11,582 | 11,588 |
| Llog benthyciadau banc | 111 | 277 | 111 | 277 |
| | 11,693 | 11,865 | 11,693 | 11,865 |
| Tâl net ar gynlluniau pensiwn (Nodyn 21) | 1,070 | 798 | 1,070 | 798 |
| Dad-ddirwyn disgownt ar ddarpariaeth pensiwn yr USS (Nodyn 21) | 3,270 | 6,584 | 3,270 | 6,584 |
| | 16,033 | 19,247 | 16,033 | 19,247 |

### 10. Dadansoddiad o'r Gwariant fesul Gweithgaredd

**Cyfunol**

| | Costau staff £'000 | Treuliau gweithredu eraill £'000 | Llog Taladwy £'000 | Cyfanswm 2024 £'000 | Cyfanswm 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adrannau academaidd | 223,925 | 50,610 | - | 274,535 | 265,198 |
| Gwasanaethau academaidd | 21,289 | 17,619 | - | 38,908 | 38,414 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 52,804 | 34,467 | - | 87,271 | 90,532 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 16,335 | 24,018 | - | 40,353 | 41,888 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 5,441 | 14,614 | 111 | 20,166 | 20,385 |
| Adeiladau | 8,397 | 47,996 | - | 56,393 | 51,573 |
| Gwasanaethau canolog a gweinyddu | 45,561 | 30,080 | - | 75,641 | 69,252 |
| Treuliau eraill | 9,506 | 15,219 | 11,582 | 36,307 | 24,515 |
| Addasiadau i'r cronfeydd pensiwn | (10,121) | - | 4,340 | (5,781) | (10,132) |
| | 373,137 | 234,623 | 16,033 | 623,793 | 591,625 |
| Dibrisiant (Nodyn 11) | | | | 50,632 | 47,291 |
| Costau staff – gostyngiad yn narpariaeth cynllun pensiwn USS (nodyn 21) | | | | (162,794) | (27,447) |
| Costau staff – Cynllun Diswyddo Gwirfoddol | | | | - | - |
| Cyfanswm fesul Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | 511,631 | 611,469 |

**Sefydliadol**

| | Costau staff £'000 | Treuliau gweithredu eraill £'000 | Llog Taladwy £'000 | Cyfanswm 2024 £'000 | Cyfanswm 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adrannau academaidd | 223,925 | 50,610 | - | 274,5335 | 265,198 |
| Gwasanaethau academaidd | 21,289 | 17,619 | - | 38,908 | 38,414 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 52,804 | 34,467 | - | 87,271 | 90,532 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 16,335 | 24,016 | - | 40,351 | 41,784 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 5,441 | 14,614 | 111 | 20,166 | 20,385 |
| Adeiladau | 8,397 | 47,996 | - | 56,393 | 51,573 |
| Gwasanaethau canolog a gweinyddu | 45,561 | 30,080 | - | 75,641 | 69,252 |
| Treuliau eraill (gweler tudalen 72) | 9,506 | 3,975 | 11,582 | 25,063 | 16,164 |
| Addasiadau i'r cronfeydd pensiwn | (10,121) | - | 4,340 | (5,781) | (10,132) |
| | 373,137 | 223,377 | 16,033 | 612,547 | 583,170 |
| Dibrisiant (Nodyn 11) | | | | 50,632 | 47,291 |
| Costau staff – (Gostyngiad)/Cynnydd yn narpariaeth cynllun pensiwn yr USS (Nodyn 21) | | | | (162,794) | (27,447) |
| Costau staff – Cynllun Diswyddo Gwirfoddol | | | | - | - |
| Cyfanswm fesul Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | 500,385 | 603,014 |

### 10. Dadansoddiad o'r Gwariant fesul Gweithgaredd (parhad)

| **Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:** | **2024** | **2023** |
|---|---|---|
| Taliadau i archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio | 232 | 224 |
| Taliadau i archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau cysylltiedig ag archwilio | 2 | 2 |
| Taliadau i archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio | Dim | Dim |
| | | |
| **Rhenti les weithredol** | | |
| Tir ac adeiladau | 2,404 | 2,905 |
| Arall | 167 | 118 |

Mae treuliau eraill yn cynnwys:

- Tâl mewn costau staff o £1,870 mil (2023: credyd o £4,560 mil) yn ymwneud â symudiad ar y Croniad Absenoldeb Gweithwyr (Nodyn 17).

## 11. Asedau Diriaethol Sefydlog

### Cyfunol a Sefydliadol

| | Tir ac Adeiladau | | | Cyfarpar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliad £'000 | Lesddaliad hir £'000 | Asedau wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 750,256 | 299,043 | 19,834 | 207,811 | 1,276,944 |
| Ychwanegiadau ar sail cost | 20,778 | 6,676 | 8,884 | 20,334 | 56,672 |
| Gwarediadau | (565) | - | (440) | (50,254) | (51,259) |
| Prosiectau a gwblhawyd | 17,894 | 1,110 | (19,004) | - | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **788,363** | **306,829** | **9,274** | **177,891** | **1,282,357** |
| | | | | | |
| Prisiad (i) | 369,206 | 229,472 | - | - | 598,678 |
| Cost | 419,157 | 77,357 | 9,274 | 177,891 | 683,679 |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 788,363 | 306,829 | 9,274 | 177,891 | 1,282,357 |
| | | | | | |
| **Dibrisiant cronedig** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 100,435 | 63,978 | - | 160,261 | 324,674 |
| Costau ar gyfer y flwyddyn | 20,635 | 8,915 | - | 21,082 | 50,632 |
| Dilëwyd wrth waredu | (107) | - | - | (50,210) | (50,317) |
| Amhariadau | 90 | 142 | - | 361 | 593 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **121,053** | **73,035** | **-** | **131,494** | **325,582** |
| | | | | | |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 667,310 | 233,794 | 9,274 | 46,397 | 956,775 |
| | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 649,821 | 235,065 | 19,834 | 47,550 | 952,270 |

(i) Cynhaliwyd prisiad llawn o Ystâd y Sefydliad ar 31 Gorffennaf 2014 gan Syrfewyr Siartredig Cooke ac Arkwright ac yn unol â Phrisiad RICS – Safonau Proffesiynol Ionawr 2014 (y Llyfr Coch) i bennu'r gost dybiedig. O gyfanswm y prisiad o £609 miliwn, roedd £557 miliwn ar werth teg trwy gost amnewid ddibrisiedig, ac roedd £52 miliwn ar werth teg.

Cafodd adeiladau penodol eu hariannu gan ffynonellau Trysorlys y DU ar gost o £132 miliwn. Pe caiff yr adeiladau penodol hyn eu gwerthu, byddai'r Sefydliad yn defnyddio'r arian yn unol â Thelerau Ariannu CCAUC.

Mae'r tir a'r adeiladau yn cynnwys gwerth £118 miliwn o dir sydd heb ei ddibrisio (2023: £116 miliwn).

Mae gwariant ar brosiectau cyfalaf yr aethpwyd iddynt ac a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod mewn ychwanegiadau rhydd-ddaliadol yn hytrach na thrwy asedau yn ystod y cyfnod adeiladu.

Mae amhariad o £593,000 wedi'i gydnabod yn ystod y flwyddyn.

## 12. Buddsoddiadau Anghyfredol

| | Cyfunol | | | Sefydliadol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Buddsod-diad mewn cyd-fentrau £'000 | Buddsod-diadau eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Buddsod-diad ecwiti mewn cyd-fentrau £'000 | Buddsod-diadau eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Balans ar 1 Awst 2023 | 3,747 | 11,460 | 15,207 | 2,003 | 11,430 | 13,433 |
| Ychwanegiadau | - | 3,295 | 3,295 | - | 3,295 | 3,295 |
| Gwaredіadau | - | (1,220) | (1,220) | - | (1,220) | (1,220) |
| Cyfran o'r diffyg gweithredu mewn cyd-fentrau | 70 | - | 70 | - | - | - |
| Balans ar 31 Gorffennaf 2024 | 3,817 | 13,535 | 17,352 | 2,003 | 13,505 | 15,508 |

Mae gan y Sefydliad fuddsoddiadau yn y canlynol:

**Buddsoddiad mewn cyd-fentrau**

**Compound Semiconductor Centre Limited**
Mae'r Compound Semi Conductor Centre Limited yn gyd-fenter rhwng Prifysgol Caerdydd ac IQE (Europe) Ltd. Ar 31 Gorffennaf 2023 roedd y Brifysgol yn cydnabod eu cyfran o rwymedigaethau net o'r gyd-fenter o £3.9 miliwn. Oherwydd amhariadau cadwyd y buddsoddiad hwn ar ddim gwerth. Ar 18 Medi 2023 gadawodd Prifysgol Caerdydd y gyd-fenter. Drwy adael y gyd-fenter rhyddhawyd Brifysgol o'i chyfran o rwymedigaethau net o £3.9 miliwn ac mae'n rhoi'r hawl iddi gael cydnabyddiaeth ohiriedig o £3 miliwn (wedi'i gynnwys o fewn dyledwyr - gweler nodyn 14), gan arwain at elw ar waredu o £6.9 miliwn.

| | £'000 |
|---|---|
| ***Buddsoddiad Cyfunol yn CSC*** | |
| Cost | 2,885 |
| Amhariad | (2,885) |
| Balans terfynol 31 Gorffennaf 2024 | - |
| | |
| ***Darpariaethau Cyfunol Eraill (Nodyn 22)*** | |
| Cyfran o atebolrwydd net | (3,931) |
| Gwaredu atebolrwydd net | 3,931 |
| Balans terfynol | - |
| | |
| ***Enillion ar werthu buddsoddiadau anghyfredol*** | |
| Ystyriaeth ar werth (Nodyn 14) | 2,979 |
| Enillion ar Mobius | 205 |
| **Cydnabyddir enillion y sefydliad yn SOCI** | **3,184** |
| Rhyddhau rhwymedigaeth net (Nodyn 22) | 3,931 |
| **Cydnabyddir cynnydd cyfunol yn SOCI** | **7,115** |
| | |
| ***Dyledwr Hirdymor Sefydliad a Chyfunol*** | |
| Gohirio ystyriaeth | 2,979 |
| Wedi'i dderbyn erbyn 31 Gorffennaf 2024 | (255) |
| Dyledus ymhen llai na blwyddyn | (350) |
| Dyledus am fwy na blwyddyn (Nodyn 14) | **2,374** |

**Medicentre Caerdydd**
Mae'r Sefydliad yn dal buddsoddiad o £2,003,000 (2023: £2,003,000) sy'n cynrychioli cyfranddaliad o 89% yn Medicentre Caerdydd, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal yr 11% sy'n weddill. Cyfanswm buddsoddiad y Grŵp ar ôl ei gyfran o wargedion gweithredu yw £3,817,000 (2023: £3,747,000). Trinnir y buddiant hwn fel cyd-fenter gan fod y Sefydliad a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei gyd-reoli.

12. Buddsoddiadau Anghyfredol (parhad)

<u>Buddsoddiadau Eraill</u>

**University College Cardiff Consultants Limited (UC3)**
Mae canlyniadau UC3, cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yn y DU, wedi'u cynnwys trwy eu cyfuno yn yr wybodaeth ariannol. Prif weithgarwch y cwmni yw masnacheiddio eiddo deallusol ac allbynnau ymchwil eraill a gynhyrchir gan ysgolion academaidd y Sefydliad. Mae'r cwmni hefyd yn gyfrifol am fuddiannau'r Sefydliad trwy gyfrwng cyfranddaliadau mewn amryw o gwmnïau deillio sy'n tarddu o waith ymchwil a gweithrediadau eraill y Sefydliad.

**Mobeus**
Gwnaeth y Sefydliad ymrwymiad gwreiddiol (yn 2016) i fuddsoddi £10 miliwn yng Nghronfa Mobeus Equity Partners IV LP a £15 miliwn arall yng Nghronfa Mobeus Equity Partners V LP. Mae'r ddwy gronfa'n cyfrannu at y gronfa ad-dalu bondiau a fydd yn ad-dalu'r cyfalaf bond o £400 miliwn ym mis Rhagfyr 2055.

Ar 8 Gorffennaf 2024, ailenwyd cronfa Mobeus Equity Partners IV LP yn Mobeus 1 LP, ac ailenwyd cronfa Mobeus Equity Partners V LP yn Mobeus 2 LP.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr ychwanegiadau i Mobeus 1 LP yn £dim (2023: £263,000) a'r elw o waredu buddsoddiadau yn £851,000 (2023: £829,000), y gwireddwyd cynnydd o £705,000 (2023: £539,000) ohono. Ar 31 Gorffennaf 2024, mae'r gronfa fuddsoddi yn cael ei chadw ar gost net o £4,135,000 (2023: £4,985,000).

Yn ystod y flwyddyn, roedd ychwanegiadau i Mobeus 2 LP yn £2,008,000 (2023: £6,369,000) a'r elw o waredu buddsoddiadau yn £370,000 (2023: £dim). Ar 31 Gorffennaf 2024, mae'r gronfa fuddsoddi yn cael ei chadw ar gost net o £8,007,000 (2023: £6,369,000).

Yn achos y ddwy gronfa Mobeus a Pantheon (gweler isod), mae balansau arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod yn cael eu cyfuno i ffurfio rhan o'r Gronfa Ad-dalu Bondiau (Nodyn 24).

**Pantheon**
Gwnaeth y Sefydliad ymrwymiad (yn 2023) i fuddsoddi US$6 miliwn yng nghronfa Pantheon 2021 – Prifysgol Caerdydd. Mae'r gronfa hon yn cyfrannu at y gronfa ad-dalu bondiau yn yr un modd â Mobeus uchod.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ychwanegiadau i gronfa'r Pantheon yn £1,287,000.

**Cardiff Partnership Fund Limited**
Mae'r Sefydliad yn berchen ar gyfranddaliad 100% o £76,000 (2023: £76,000) yn y Cardiff Partnership Fund Limited, cwmni daliannol partneriaeth anghorfforedig Cardiff Partnership Fund Limited. Nid yw'r cwmni hwn wedi'i gyfuno am nad yw'r Sefydliad yn rheoli'r gweithgareddau y mae bwrdd annibynnol yn gyfrifol amdanynt.

**Partneriaeth SETsquared**
Ym mis Medi 2021, ymunodd y Sefydliad â Phartneriaeth SETsquared, rhwydwaith deorydd o eiddo'r Sefydliad. Nid yw'r cwmni hwn wedi'i gyfuno.

**Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol Gyfyngedig ("ILEP")**
